# BIL CYMRU

# NODIADAU ESBONIADOL

## Pwrpas y nodiadau hyn

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Cymru a ddaeth o Dŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2016. (Bil TA 63)

- Paratowyd y Nodiadau Esboniadol hyn gan Swyddfa Cymru er mwyn cynorthwyo'r rheini sy'n darllen y Bil ac i helpu i lywio'r ddadl yn ei gylch. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Senedd.

- Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn egluro beth fydd pob rhan o'r Bil yn ei olygu'n ymarferol; yn darparu gwybodaeth gefndir ynghylch datblygu polisi; ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y ffordd y bydd y Bil yn effeithio ar ddeddfwriaeth bresennol yn y maes hwn.

- Bydd y Nodiadau Esboniadol hyn yn fwyaf defnyddiol o'u darllen ochr yn ochr â'r Bil. Nid ydynt ac nid yw'n fwriad iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Felly, lle gwelwyd nad oes angen eglurhad neu sylw ar ddarpariaeth benodol yn y Bil, mae'r Nodiadau'n dweud bod y ddarpariaeth honno'n hunanesboniadol.

# Tabl Cynnwys

**Pwnc** **Tudalen yn y Nodiadau hyn**


**Trosolwg ar y Bil** 4

**Cefndir polisi** 4

**Cefndir cyfreithiol** 5

**Cymhwysiad a rhychwant tiriogaethol** 5

Rhan 1: Trefniadau cyfansoddiadol (cymalau 1-8 ac 17-22) 6
Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaethau pellach (cymalau 23-48) 6
Rhan 3: Amrywiol (cymalau 49-52) 6

**Sylwebaeth ar ddarpariaethau'r Bil** 7

Rhan 1: Trefniadau Cyfansoddiadol 7

Pennod 1: Parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru 7
Cymal 1: Parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru 7

Pennod 2: Confensiwn ynghylch y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig 7
Cymal 2: Confensiwn ynghylch y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig 7

Pennod 3: Cymhwysedd deddfwriaethol 7
Cymal 3: Cymhwysedd deddfwriaethol 7
Atodlen 1: Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 9
Atodlen 2: Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 56
Cymal 4: Awdurdodau cyhoeddus Cymru 61

Pennod 4: Etholiadau 62
Cymal 5: Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau 62
Cymal 6: Amseriad etholiadau 63
Cymal 7: Cofrestru etholiadol: y Gwasanaeth Digidol 64
Cymal 8: Etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddu 65

Pennod 5: Darpariaethau eraill ynghylch deddfu gan y Cynulliad 65
Cymal 9: Gofyniad am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai mathau o ddeddfwriaeth 65
Cymal 10: Gofyniad am uwch-fwyafrif: diwygiadau'n ymwneud â gweithdrefnau etc. 66
Cymal 11: Cyflwyno Biliau: asesiad o'r effaith ar gyfiawnder 67
Cymal 12: Cyflwyno Biliau ar gyfer Cydsyniad Brenhinol: rôl y Llywydd 67

Pennod 6: Darpariaethau eraill ynghylch y Cynulliad 67
Cymal 13: Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio 67
Cymal 14: Cyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad 68
Cymal 15: Trafodion y Cynulliad: cymryd rhan gan Weinidogion y DU etc 68
Cymal 16: Newid enw'r Cynulliad etc: trosi cyfeiriadau 69

Pennod 7: Cyfraddau treth incwm Cymreig: dileu'r gofyniad am refferendwm 69
Cymal 17: Cyfraddau treth incwm Cymreig: dileu'r gofyniad am refferendwm 69

Pennod 8: Cymhwysedd gweithredol 70
Cymal 18: Swyddogaethau Gweinidogion Cymru 70
Cymal 19: Gweithredu cyfraith yr UE 71
Cymal 20: Trosglwyddo Swyddogaethau Gweinidogol 71
Cymal 21: Swyddogaethau Gweinidogol a drosglwyddwyd 71

Cymal 22: Ymgynghori ynghylch cyrff trawsffiniol 71

Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaethau pellach 72

Pennod 9: Petrolewm ar y tir 72

Cymal 23: Trwyddedu petrolewm ar y tir 72

Cymal 24: Petrolewm ar y tir: trwyddedau presennol 72

Cymal 25 Petrolewm ar y tir: hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru 73

Pennod 10: Trafnidiaeth ffyrdd 75

Cymal 26: Ffyrdd: terfynau cyflymder, croesfannau i gerddwyr ac arwyddion traffig 75

Cymal 27: Cofrestru gwasanaethau bysiau a Chomisiynwyr Traffig 75

Cymal 28: Tacsis: trosglwyddo swyddogaethau penodol i Weinidogion Cymru 75

Pennod 11: Harbyrau 76

Cymal 29: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â harbyrau yng Nghymru 76

Cymal 30: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol: diwygiadau i Ddeddf Harbyrau 1964 76

Cymal 31: Trosglwyddo swyddogaethau ar gyfer harbyrau: cymhwyso darpariaethau cyffredinol 76

Cymal 32: Harbyrau Cymru: porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir 77

Cymal 33: Cydsyniad Datblygu 77

Cymal 34: Harbyrau trawsffiniol 77

Cymal 35: Arfer swyddogaethau peilotiaeth ar draws ffiniau 78

Cymal 36: Adrannau 34 a 35:atodol 78

Pennod 12: Cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan 78

Cymal 37: Caniatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu â chapasiti o 350MW neu lai 79

Cymal 38: Gorsafoedd cynhyrchu a hawliau mordwyo cyhoeddus 79

Cymal 39: Parthau diogelwch o amgylch gweithfeydd ynni adnewyddadwy 79

Cymal 40: Datblygu cysylltiedig a llinellau uwchben 80

Mae'r cymal hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol roi datblygiad cysylltiedig gyda gorsafoedd cynhyrchu y gallant gydsynio iddynt (y rhai nad ydynt yn fwy na 350MW), ar yr amod fod llinellau trydan uwchben (yn agored i gyfyngiad o 132kV o foltedd enwol) yn gysylltiedig o raid â gorsafoedd cynhyrchu y gellir cydsynio iddynt gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru fel datblygiad dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. 80

Cymal 41: Alinio caniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig 80

Pennod 13: Cyfle cyfartal 81

Cymal 42: Cyfle cyfartal: dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus 81

Cymal 43: Dyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol 81

Pennod 14: Trwyddedu a chadwraeth forol 82

Cymal 44: Trwyddedu morol yn rhanbarth môr mawr Cymru 82

Cymal 45: Parthau cadwraeth morol 83

Pennod 15: Amrywiol 83

Cymal 46: Ymyrryd os ceir effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc 83

Cymal 47: Trosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir 84

Cymal 48: Cynlluniau cymhelliant ynni adnewyddadwy: ymgynghori 84

Rhan 3: Amrywiol 84

Cymal 49: Darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol 84

Cymal 50: Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan 85

Cymal 51: Trwyddedu gweithrediadau cloddio glo: cymeradwyo gan Weinidogion Cymru 85

Cymal 52: Y Swyddfa Gyfathrebiadau 85

Rhan 4: Cyffredinol 86

Cymal 53: Darpariaeth ganlyniadol 86

Atodlen 5: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol 86

Rhan 1: Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 86

Rhan 2: Diwygiadau'n ymwneud â phetrolewm ar y tir 87

Rhan 3: Diwygiadau i Ddeddfau eraill 89

Cymal 54: Darpariaethau trosiannol ac arbed 94

Atodlen 6: Darpariaethau trosiannol 94
Cymal 55: Cychwyn 96
Cymal 56: Enw byr 96

**Cychwyn 97**

**Goblygiadau ariannol y Bil 97**

**Cysondeb â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol 97**

**Dogfennau cysylltiedig: 97**

**Atodiad A – Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso 98**

**Atodiad B – Y profion cymhwysedd deddfwriaethol 100**

# Trosolwg ar y Bil

1 Bydd Bil Cymru yn gweithredu'r elfennau hynny yng nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi sy'n gofyn am newidiadau mewn deddfwriaeth. Bydd yn creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru a fydd yn gadarn a hirsefydlog.

2 Bil galluogi yw hwn ac mae mwyafrif y darpariaethau yn y Bil yn nodi'r pwerau a drosglwyddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a/neu i Weinidogion Cymru.

3 Yn benodol mae Bil Cymru yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLlC) drwy fabwysiadu model cadw pwerau ar gyfer Cymru. Dyma'r model sy'n sail i'r setliad datganoli yn yr Alban. Bydd y model cadw pwerau sydd wedi'i amlinellu yn y Bil yn darparu gwahaniad cliriach rhwng pwerau a ddatganolwyd a phwerau a gadwyd yn ôl, gan alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bwnc heblaw'r rheini sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol ar gyfer Senedd y DU.

4 Mae'r Bil yn cynnwys datganiad bod y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn cael eu hystyried yn rhannau parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU ac na fyddant yn cael eu dileu heb benderfyniad gan bobl Cymru.  Datgenir hefyd na fydd Senedd y DU yn deddfu fel arfer mewn perthynas â materion a ddatganolwyd heb gael cydsyniad y Cynulliad, tra bydd yn cadw sofraniaeth i wneud hynny.

5 Mae'r Bil hefyd yn datganoli pwerau ychwanegol i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn y meysydd lle'r oedd consensws gwleidyddol o blaid datganoli pellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Datganoli mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad i redeg ei faterion ei hun, gan gynnwys penderfynu ei enw;

b. Datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad dros bolisi porthladdoedd, terfynau cyflymder, cofrestru gwasanaethau bysiau, rheoleiddio tacsis, etholiadau llywodraeth leol, carthffosiaeth a chaniatáu prosiectau ynni hyd at 350MW (mae rhagor o fanylion isod);

c. Datganoli cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru dros drwyddedu a chadwraeth forol a chaniatáu cynlluniau ynni yn rhanbarth môr mawr Cymru; ac ymestyn cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i gynnwys adeiladau ynni a eithrir;

d. Datganoli pŵer dros bob agwedd ar etholiadau'r Cynulliad; a

e. Datganoli pwerau dros drwyddedu gweithrediadau echdynnu olew a nwy ar y tir

# Cefndir polisi

6 Ym mis Tachwedd 2014, sefydlodd y Llywodraeth yr hyn y daethpwyd i'w alw'n broses Dydd Gŵyl Dewi. Ei nod oedd pennu'r materion yr oedd consensws gwleidyddol yn eu cylch o ran gweithredu'r argymhellion yn ail adroddiad Comisiwn Syr Paul Silk ar Ddatganoli yng Nghymru (Silk II) ar bwerau'r Cynulliad (gweler *Grymuso a Chyfrifoldeb: pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014). Roedd y broses hefyd wedi ystyried a oedd consensws gwleidyddol o blaid rhoi ar waith yng Nghymru rai elfennau yng nghynigion Comisiwn Smith ar gyfer yr Alban (gweler *Report of the Smith Commission for further devolution*

*of powers to the Scottish Parliament)*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014).

Roedd y papur gorchymyn, *Powers for a purpose: Towards a lasting devolution settlement for Wales*, a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2015 (Cm 9020), yn amlinellu'r argymhellion yr oedd consensws gwleidyddol yn eu cylch. Roedd yr argymhellion hynny a oedd yn gofyn am newid mewn deddfwriaeth wedi'u cynnwys yn y Bil Cymru drafft a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2015 ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu (Cm 9144). Mae'r Bil sydd wedi'i gyflwyno'n cynnwys newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r broses graffu honno a newidiadau a wnaed o ganlyniad i drafodaethau â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad.

7 Roedd proses Dydd Gŵyl Dewi wedi edrych hefyd ar rai o'r pwerau sy'n cael eu datganoli i'r Alban o dan gytundeb Comisiwn Smith. Mae'r Bil yn symud ymlaen â dau ymrwymiad pwysig o'r ymarfer hwn lle cafwyd consensws gwleidyddol cryf. Y rhain yw – datganoli'r holl bwerau mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys y system etholiadol, y ffordd o'u cynnal, etholfraint a chofrestru etholwyr a datganoli pwerau ar gyfer trwyddedu gweithrediadau echdynnu olew a nwy ar y tir (gan gynnwys trwyddedu gweithrediadau nwy siâl).

8 Roedd cytundeb Dydd Gŵyl Dewi hefyd yn rhwymo'r Llywodraeth i ystyried a oedd achos cryf o blaid gweithredu yng Nghymru unrhyw argymhellion eraill a gafwyd gan Gomisiwn Smith. O ganlyniad i'r gwaith hwn mae'r Bil yn cynnwys:-

- darpariaeth yn rhoi rôl ymgynghorol ffurfiol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad mewn dyfeisio cynlluniau cymhelliant ar gyfer ynni adnewyddadwy a phennu blaenoriaethau strategol OFGEM;

- dyletswydd ar OFGEM i osod ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon gerbron y Cynulliad, i gyflwyno adroddiadau, ac i ymddangos gerbron Pwyllgorau'r Cynulliad;

- datganoli'r cyfrifoldeb dros ganiatáu hawliau mynediad mwynol ar gyfer echdynnu olew a nwy dan y ddaear ar y tir yng Nghymru;

- datganoli pwerau i'r Cynulliad i osod cwotâu rhywedd mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yng Nghymru a datganoli pwerau dros arwyddion traffig.

# Cefndir cyfreithiol

9 Mae'r Bil yn Fil galluogi sy'n newid sail cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gan symud oddi wrth fodel rhoi pwerau at fodel cadw pwerau. Mae'r Bil yn datganoli pwerau gweithredol ychwanegol i Weinidogion Cymru.

10 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi perthynas gyfansoddiadol y Cynulliad a Llywodraeth Cymru o fewn trefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig. Nid yw'n diwygio'r berthynas hon.

# Cymhwysiad a rhychwant tiriogaethol

11 Mae'r Bil yn rhychwantu'r DU gyfan. Fodd bynnag, gall rhychwant tiriogaethol Bil fod yn wahanol i'r cymhwyso arno. Mae cymhwyso'n golygu'r diriogaeth lle y bydd Bil yn cael effaith gyfreithiol, ymarferol. Mae'r manylion am gymhwyso'r Bil hwn yn y paragraffau canlynol.

12 Mae mwyafrif y cymalau yn y Bil yn gymwys i'r DU gyfan, gan fod arwyddocâd cyfansoddiadol iddynt am eu bod yn datganoli pwerau oddi wrth Senedd ac Ysgrifenyddion

Gwladol y DU.

Yr unig eithriadau i hyn yw cymalau 9-16 (sy’n ymwneud â threfniadau mewnol y Cynulliad ac felly’n gymwys i Gymru’n unig) a chymal 46 (sy’n gymwys i Gymru a Lloegr am ei fod yn rhoi pŵer i'w arfer os oes darpariaeth yn Neddf y Cynulliad yn cael effaith negyddol ar wasanaethau carthffosiaeth yn Lloegr).

## Rhan 1: Trefniadau cyfansoddiadol (cymalau 1-8 ac 17-22)

13 Nid yn unig y mae’r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth gyfansoddiadol ynglŷn â statws setliad datganoli Cymru (cymalau 1-2), maent hefyd yn nodi'r materion a gaiff eu datganoli o’r Senedd a’r Ysgrifenyddion Gwladol i’r Cynulliad a Gweinidogion Cymru (cymalau 3-7 ac 16-21). Mae’r ddau’n rhychwantu ac yn gymwys i'r DU gyfan.

14 Yn ôl arferiad gwleidyddol, ni fydd San Steffan fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon heb gydsyniad y ddeddfwrfa dan sylw, a roddir drwy fod y ddeddfwrfa ddatganoledig yn pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol (“CCD”). Nid oes CCD yn ofynnol yn Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer cymalau 3-8 ac 17-22, oherwydd (i) arwyddocâd cyfansoddiadol y cymalau hyn a (ii) y ffaith nad yw Cymru a threfniadau datganoli Cymru yn faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o'r cymalau hyn yn sbarduno’r angen am CCD yn y Cynulliad gan eu bod yn ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad a Gweinidogion Cymru.

## Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaethau pellach (cymalau 23-48)

15 Mae’r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y materion a fydd yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Am yr un rheswm ag a nodwyd mewn perthynas â chymalau 1-8 ac 17-22 uchod, credir nad oes unrhyw ddarpariaethau yn Rhan 2 o’r Bil sy’n galw am basio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, oherwydd eu heffaith ar bwerau’r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, bydd mwyafrif y cymalau hyn yn galw am basio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad.

## Rhan 3: Amrywiol (cymalau 49-52)

16 Mae cymal 49 yn caniatáu i’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wneud cais am wybodaeth am gyllid cyhoeddus Cymru oddi wrth gyrff datganoledig. Mae cymalau 50-52 yn darparu ar gyfer rôl Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag Ofgem, yr Awdurdod Glo ac Ofcom. Ni fyddai Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon yn gallu gwneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â’r pedwar corff y darparwyd ar eu cyfer yn y cymalau hyn, felly ni fydd angen cael Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gan fod hyn yn ymwneud â swyddogaethau parhaol newydd i Weinidogion Cymru, bydd angen pasio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

17 Gweler y tabl yn Atodiad A am grynodeb manylach o'r sefyllfa o ran rhychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig. Mae’r tabl hefyd yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa mwn perthynas â CCDau a materion sy’n berthnasol i Reolau Sefydlog Rhifau 83J i 83X o Reolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin yn ymwneud â Busnes Cyhoeddus.

# Sylwebaeth ar ddarpariaethau'r Bil

## Rhan 1: Trefniadau Cyfansoddiadol

### Pennod 1: Parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru

#### Cymal 1: Parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru

18 Mae cymal 1 yn mewnosod Rhan A1 newydd, gyda'r adrannau newydd A1 a A2, yn DLlC.

19 Mae adran A1 yn darparu bod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, ac ni ellir diddymu'r sefydliadau hynny ac eithrio ar sail penderfyniad gan bobl Cymru mewn refferendwm.

20 Mae is-adran (2) yn nodi mai pwrpas yr adran hon yw datgan ymrwymiad Senedd y DU a Llywodraeth y DU i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

21 Mae adran A2 yn cydnabod bodolaeth cyfraith Gymreig.

22 Mae is-adran (1) yn cadarnhau bod corff o gyfraith Gymreig sydd wedi'i wneud gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru. Mae'n glir bod y gyfraith sydd wedi'i gwneud gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn un *rhan* yn unig o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

23 Mae is-adran (2) yn egluro nad yw'r pwrpas sydd ynglŷn â gwneud y mynegiad datganiadol hwn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y terfyn datganoli ac yn benodol y ffaith bod yr awdurdodaeth gyfreithiol sengl yn fater a gedwir yn ôl. Cydnabyddir, er hynny, fod y ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr.

### Pennod 2: Confensiwn ynghylch y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig

#### Cymal 2: Confensiwn ynghylch y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig

24 Mae cymal 2 yn mewnosod is-adran (6) yn adran 107 o DLlC fel ei bod wedi'i gydnabod mewn statud, er nad yw sofraniaeth Senedd y DU wedi'i newid gan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, na fydd Senedd y DU yn deddfu fel arfer ar faterion a ddatganolwyd yng Nghymru heb gydsyniad y Cynulliad.

### Pennod 3: Cymhwysedd deddfwriaethol

#### Cymal 3: Cymhwysedd deddfwriaethol

25 Mae cymal 3(1) yn disodli'r adran 108 bresennol yn DLlC ac yn rhoi adran 108A newydd yn ei lle. Mae'r adran newydd hon yn nodi'r terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

26 Mae is-adrannau (1)-(7) o'r adran 108A newydd yn diffinio sut y mae cymhwysedd deddfwriaethol y darpariaethau yn Neddfau'r Cynulliad i gael ei asesu.

27 Mae is-adran (1) o'r adran 108A newydd yn atgynhyrchu adran 108(2) i ddarparu na fydd Deddf Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw un o'i darpariaethau y tu allan i

gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

28 Mae is-adran (2) o'r adran 108A newydd yn nodi y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os bydd unrhyw un o'r paragraffau (a)-(e) yn gymwys. Mae pum prawf annibynnol ac ar wahân i'w bodloni gan ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad cyn y bydd o fewn ei gymhwysedd. Os bydd unrhyw un o'r pum paragraff canlynol yn gymwys i ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad, fe fydd y tu allan i'w gymhwysedd. Mae siartiau llif 1 a 2 yn Atodiad B isod yn egluro ymhellach sut y mae'r pum prawf ym mharagraffau (a)-(e) i gael eu cymhwyso.

a. Mae paragraff (a) yn atgynhyrchu adran 108(6)(b) o DLlC ac yn darparu y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os bydd yn rhychwantu y tu hwnt i Gymru a Lloegr. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfyngiad presennol na all darpariaeth mewn Deddf Cynulliad fod yn rhan o system gyfreithiol heblaw awdurdodaeth unedig Cymru a Lloegr.

b. Mae paragraff (b) yn darparu y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru neu os yw'n rhoi, yn gorfodi, yn addasu neu'n dileu swyddogaethau y gellir eu harfer heblaw mewn perthynas â Chymru. Fodd bynnag, mae is-adrannau (3), (4), (5) a (7) newydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r eithriad i baragraff (b), fel y gall darpariaeth mewn Deddf Cynulliad fod yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru. Ceir eglurhad pellach o'r is-adrannau hyn isod.

c. Mae paragraff (c) yn darparu y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os yw'n ymwneud ag unrhyw un o'r faterion a gedwir yn ôl, sydd wedi'u dangos yn Atodlen 7A, ar ôl rhoi sylw i unrhyw eithriadau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen honno. Dylid dehongli "relates to" yn unol â'r prawf pwrpas (gweler is-adran (6)).

d. Mae paragraff (d) yn darparu y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os yw'n torri unrhyw gyfyngiadau a nodwyd yn Rhan 1 o Atodlen 7B, yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn Rhan 2 o Atodlen 7B. Mae'n bwysig peidio â chyfuno'r prawf hwn ym mharagraff (d) a'r prawf ar wahân ym mharagraff (c) uchod. Er enghraifft, er y gall darpariaeth mewn Deddf Cynulliad fodloni paragraff (c) am nad yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl, fe allai fod y tu allan i'w gymhwysedd am ei bod yn torri'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B. Mae pob un o'r pum prawf cymhwysedd deddfwriaethol ym maragraffau (a)-(e) i gael eu cymhwyso'n annibynnol ar ei gilydd.

e. Mae paragraff (e) yn atgynhyrchu adran 108(6)(c) o DLlC ac yn darparu y bydd darpariaeth mewn Deddf Cynulliad y tu allan i'w gymhwysedd os yw'n anghyson â'r hawliau yn y Confensiwn neu gyfraith yr UE.

29 Mae is-adran (3) o'r adran 108A newydd yn darparu eithriad i'r is-adran (2)(b) newydd fel y gall darpariaethau mewn Deddf Cynulliad fod yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru os yw:

a. yn ategol ("ancillary") (wedi'i ddiffinio yn yr is-adran (7) newydd) i ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur Cynulliad neu i ddarpariaeth ddatganoledig ("devolved provision") (wedi'i ddiffinio yn is-adran (4) isod) mewn Deddf Seneddol; **a**

b. os nad yw'n cael effaith fwy heblaw mewn perthynas â Chymru na'r hyn sy'n angenrheidiol i weithredu'r ddarpariaeth.

30 Mae "Wales" wedi'i ddiffinio yn adran 158(3) o DLlC ac nid yw'n cynnwys y parth Cymreig y

tu hwnt i'r môr tiriogaethol. Mae darpariaethau presennol mewn Deddfau Cynulliad yn gymwys i Loegr os ydynt yn bodloni'r prawf yn adran 108(5) o DLlC. Wedi i'r Bil ddod i rym, bydd angen i ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad fodloni'r prawf yn adran 108A(3) cyn y gellir ei chymhwyso y tu hwnt i Gymru.

31 Mae is-adran (4) yn darparu, i ddibenion is-adran (3)(a), fod darpariaeth ddatganoledig ("devolved provision") mewn Deddf Seneddol yn un a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, wrth gymhwyso'r prawf hwn, mae paragraffau 8-11 o Atodlen 7B i gael eu hanwybyddu. Mae paragraffau 8-11 yn ei gwneud yn ofynnol bod caniatâd yn cael ei roi gan Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys ar gyfer darpariaethau mewn Deddf Cynulliad sy'n newid swyddogaethau penodol sydd gan awdurdodau a gedwir yn ôl. Ni fyddai byth yn ofynnol cael caniatâd o'r fath ar gyfer Deddf Seneddol a dyna pam y mae paragraffau 8-11 o Atodlen 7B i'w hanwybyddu wrth asesu a fyddai darpariaeth mewn Deddf Seneddol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

32 Mae is-adran (5) o'r adran 108A newydd yn egluro nad yw'n berthnasol, wrth benderfynu beth sy'n angenrheidiol i ddibenion is-adran (3)(b), y byddai Senedd y DU ei hun wedi gallu cynnwys y ddarpariaeth mewn Deddf.

33 Mae is-adran (6) o'r adran 108A newydd yn atgynhyrchu adran 108(7) o DLlC i gynnwys y 'prawf pwrpas', fel y'i gelwir, sy'n darparu, i ddibenion is-adran (2)(c), fod y cwestiwn o ran a yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn ymwneud â ("relates to") mater a gedwir yn ôl, i gael ei benderfynu drwy gyfeirio at bwrpas y ddarpariaeth, gan roi sylw (ymysg pethau eraill) i'w heffaith yn yr holl amgylchiadau.

34 Mae is-adran (7) o'r adran 108A newydd yn diffinio "ancillary" i ddibenion DLlC. Ceir y term "ancillary" yn adran 108A(3)(a) (fel y mae wedi'i mewnosod gan gymal 3), paragraff 6(2) o Atodlen 7A (fel y mae wedi'i fewnosod gan Atodlen 1), a pharagraffau 2(1) a 5(3)(b) o Atodlen 7B (fel y maent wedi'u mewnosod gan Atodlen 2). Mae'r diffiniad wedi'i seilio ar y geiriad presennol sydd yn adran 108(5) o DLlC. Mae darpariaeth yn cael ei hystyried yn ategol i un arall os yw:

a. yn darparu ar gyfer gorfodi'r ddarpariaeth arall, neu os yw'n briodol fel arall ar gyfer gweithredu'r ddarpariaeth honno, neu

b. os yw'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth honno fel arall, neu'n ganlyniadol iddi.

35 Mae cymal 3(2) yn disodli Atodlen 7 i DLlC ac yn rhoi Atodlenni 7A a 7B newydd yn ei lle. Mae Atodlenni 7A a 7B wedi'u cynnwys yn Atodlenni 1 a 2 i'r Bil yn y drefn honno.

## Atodlen 1: Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

36 Mae'r Atodlen 7A newydd yn rhestru'r materion a gedwir yn ôl i ddibenion adran 108A(2)(c), fel y mae wedi'i mewnosod gan gymal 3(1) o'r Bil. Mae cymal 3(2) yn darparu bod yr Atodlen hon, ynghyd â'r Atodlen 7B newydd, yn disodli Atodlen 7 i DLlC.

37 Defnyddir y termau canlynol yn Atodlen 7A i ddisgrifio'r pynciau a gedwir gan Senedd y DU a'r rheini a ddatganolir i'r Cynulliad:

a. Reservation (mater a gedwir yn ôl): Mater a gedwir yn ôl yw pwnc lle gall Senedd y DU yn unig basio deddfwriaeth sylfaenol (ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i galluogi gan ddarpariaeth mewn Deddf) mewn perthynas â Chymru. Mae unrhyw bwnc sydd heb ei gadw yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad (ond gweler 'Carve Out' isod). Gan fod y materion a gedwir yn ôl wedi'u disgrifio'n weddol eang, gallant gynnwys rhai materion y bwriedir eu datganoli. Felly mae materion o'r fath wedi'u rhestru fel eithriad.

b. Exception (eithriad): Mae eithriad i fater a gedwir yn ôl yn bwnc a fyddai'n rhan o'r mater a gedwir yn ôl fel arall ond sydd wedi'i eithrio, fel ei fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae eithriadau'n ymwneud yn benodol â'r materion a gedwir yn ôl y maent wedi'u rhestru o danynt; nid ydynt yn cael eu cymhwyso'n gyffredinol (gweler paragraff 12 o Ran 2 o Atodlen 7A).

c. Carve Out (dyraniad): Mae dyraniad yn fater penodol a fyddai'n rhan o'r eithriad fel arall, os nad oedd wedi'i 'ailgadw' gan Senedd y DU drwy ei ddyrannu o'r eithriad.

38 Y materion a gedwir yn ôl, ar ôl tynnu'r eithriadau, ynghyd â'r dyraniadau, yw'r holl faterion sydd wedi'u cadw'n ôl gan Senedd y DU. Yn yr un modd, yr eithriadau (heblaw'r dyraniadau) ynghyd â'r pynciau sydd heb eu crybwyll mewn unman yn Atodlen 7A yw'r holl bynciau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, nid yw hyn ond yn un rhan o'r prawf cymhwysedd deddfwriaethol (adran 108A(2)(c)) ac mae'n ofynnol hefyd, wrth gwrs, fod darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn bodloni'r profion ym mharagraffau (a), (b), (d) ac (e) yn adran 108A(2).

39 Am enghraifft o'r tri chategori pwnc, gweler Adran E2 o Atodlen 7A:

a. Reservation (mater a gedwir yn ôl): "Railway services" (reserved).

b. Exception (eithriad): "Financial assistance so far as relating to railway services" (devolved).

c. Carve out: "but this exception does not apply to financial assistance relating to the carriage of goods" (reserved).

40 Mae Rhan 1 o Atodlen 7A yn rhestru'r materion cyffredinol a gedwir yn ôl, a Rhan 2 yn rhestru'r materion penodol a gedwir yn ôl. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn ag Atodlen 7A yn ei chyfanrwydd.

## RHAN 1 – MATERION CYFFREDINOL A GEDWIR YN ÔL

### Y Cyfansoddiad

41 Mae paragraff 1 yn darparu bod agweddau penodol ar y Cyfansoddiad yn faterion a gedwir yn ôl. Yr agweddau hyn yw:

a. y Goron, gan gynnwys yr olyniaeth i'r Goron a rhaglawiaeth,

b. yr undeb rhwng cenhedloedd Cymru a Lloegr,

42 c. Senedd y Deyrnas Unedig. Mae'r mater cyffredinol a gedwir yn ôl yn "the Crown" ym mharagraff 1 yn cynnwys cadw eiddo'r Goron, eiddo preifat y Goron ac Ystad y Goron, a materion fel anrhydeddau a phenodiadau.

43 Mae paragraff 2 yn darparu ar gyfer gwneud eithriadau o'r mater sylfaenol hwnnw a gedwir yn ôl; mae hefyd yn egluro cwmpas yr hyn sydd wedi'i eithrio a'r hyn sydd wedi'i gadw.

44 Mae paragraffau 2(1)(a) a 2(1)(b) yn darparu nad yw paragraff 1 yn cadw swyddogaethau gweithredol Ei Mawrhydi neu swyddogaethau y gellir eu harfer gan unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y Goron. Mae hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch y swyddogaethau hynny lle nad ydynt yn ymwneud â materion eraill a gedwir yn ôl. Dylid ei ddarllen ar y cyd â chymal 18, sy'n mewnosod adran newydd sef 58A yn DLlC ac a esbonir ym mhara. 504 isod.

45 Mae paragraff 2(1)(c) yn darparu nad yw paragraff 1 yn cadw'n ôl y defnydd o'r Sêl Gymreig. Darparwyd ar gyfer creu'r Sêl Gymreig o dan adran 116(1) o DLlC. Mae'r Ddeddf honno hefyd

yn darparu mai Prif Weinidog Cymru fydd Ceidwad y Sêl Gymreig (adran 116(2)) a bod y Sêl i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r Cydsyniad Brenhinol i Filiau Cynulliad (adran 115(4)). Yn unol â pharagraff 13 o Ran 1 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno mae'r Cynulliad yn gallu darparu y bydd dibenion eraill i'r Sêl Gymreig; yn unol â pharagraff 2(1)(c) o'r mater hwn a gedwir yn ôl, mae'r Cynulliad yn cadw cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Sêl Gymreig.

46 Mae paragraff 2(2) yn darparu nad yw paragraff 2(1) yn effeithio ar y mater a gedwir yn ôl gan baragraff 1 o ran rheoli Ystad y Goron yn unol ag unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio'r defnydd o dir. Mae hyn yn sicrhau na all y Cynulliad ddeddfu ynghylch Comisiynwyr Ystad y Goron neu eu swyddogaethau ar gyfer rheoli eiddo, hawliau a buddiannau'r Goron a elwir yn ystad y Goron o dan Ddeddf Ystad y Goron 1961.

47 Mae paragraff 2(3) yn darparu nad yw paragraff 2(1) yn effeithio ar y mater a gedwir yn ôl gan baragraff 1 o ran swyddogaethau'r Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol a Phencadlys Cyfathrebiadau'r Llywodraeth. Mae hyn yn ategu'r materion a gedwir yn ôl yn Adran B3 (diogelwch gwladol a chyfrinachau swyddogol) yn yr Atodlen.

48 Mae paragraff 2(4) yn egluro nad yw ystyr "executive function" ym mharagraff 2 yn cynnwys:

(a) swyddogaeth a roddwyd neu a orfodwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth neu'r uchelfraint;

(b) swyddogaeth a roddwyd neu a orfodwyd o ganlyniad i unrhyw ddeddfwriaeth neu'r uchelfraint

**<u>Gwasanaeth Cyhoeddus</u>**

49 Mae paragraff 3 yn datgan bod Gwasanaeth Sifil y Wladwriaeth yn fater a gedwir yn ôl. Mae'r Gwasanaeth Sifil yn cynnwys y Gwasanaeth Sifil Cartref (sy'n cynnwys staff Llywodraeth Cymru, gweler adran 52 o DLlC) a'r Gwasanaeth Llysgenhadol. Effaith hyn yw nad yw'r Cynulliad yn gallu deddfu am faterion sy'n ymwneud â Gweision Sifil yng Nghymru, gan gynnwys eu recriwtio, dethol, rheoli, ymddygiad, disgyblaeth, niferoedd, graddio a thelerau ac amodau gwasanaeth. Mae materion sy'n ymwneud â phensiynau Gwasanaeth Sifil wedi'u cadw'n ôl gan Adran F4 o'r Atodlen hon.

50 Mae'r Gwasanaeth Sifil Cartref yn cael ei reoleiddio yn y pen draw gan yr Uchelfraint Frenhinol, ac mae'r rheolaeth arno wedi'i dirprwyo i'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil. Dyroddir Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil o dan awdurdod y Gorchymyn Gwasanaeth Sifil yn y Cyfrin Gyngor 1995. O dan Ddeddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992, mae'r Gweinidog dros y Gwasanaeth Sifil wedi dirprwyo swyddogaethau rheoli ymhellach i Weinidogion a deiliaid swyddi sy'n gyfrifol am Adrannau. Mae'r rhain yn cynnwys yr awdurdod i ragnodi cymwysterau ar gyfer penodi rhai'n Weision Sifil, i bennu nifer swyddi a'u gradd (y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil) mewn Adrannau o'r fath ac amrywiaeth fawr o swyddogaethau rheoli eraill.

**<u>Pleidiau gwleidyddol</u>**

51 Mae paragraff 4 yn cadw'r cyfrifoldeb dros gofrestru pleidiau gwleidyddol a thros ariannu pleidiau gwleidyddol, gan gynnwys gofynion o ran cyfrifyddu, er bod paragraff 5 yn hepgor o hynny gwneud taliadau i unrhyw blaid wleidyddol er mwyn helpu aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau Cynulliad. Mae adran 24 o DLlC yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i grwpiau o aelodau Cynulliad.

**<u>Awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr</u>**

52 Mae'r paragraff hwn yn cadw awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr er mwyn cadw elfennau craidd y system gyfreithiol a rennir gan Gymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys y llysoedd, barnwyr, achosion sifil a throseddol, maddeuant am droseddau, cyfraith ryngwladol

breifat ac adolygiadau barnwrol o weithredu gweinyddol.

53 Mae hyn yn cynnal y strwythur llysoedd a barnwriaeth gyffredin yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â rheolau cyffredin ar achosion sifil a throseddol gan gynnwys mechnïaeth, costau, aros treial yn y ddalfa, datgelu, gorfodi, tystiolaeth (sy'n cynnwys rheolau ar y baich a'r safon profi), gweithdrefnau, cyfyngiadau ar achosion, erlynwyr a rhwymedïau.

54 Mae'r cyfeiriad at ddedfrydu ym mharagraff 6(1)(c) o Atodlen 7A yn diogelu'r broses benderfynu y mae'n rhaid i'r barnwr ei dilyn wrth ddedfrydu. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, y gofynion yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 am ystyried dibenion dedfrydu; am ystyried y ffactorau gwaethygol statudol; am ddilyn canllawiau dedfrydu; am benderfynu a yw'r trothwy ar gyfer gorchymyn cymunedol neu gadw yn y ddalfa wedi'i groesi; ac am osod dedfryd sy'n gymesur â difrifoldeb y trosedd.

55 Yn rhinwedd paragraff 6(1)(d), nid yw'r Cynulliad yn gallu deddfu i faddau i bobl am gyflawni troseddau.

56 Mae paragraff 6(1)(e) yn cadw cyfraith ryngwladol breifat fel y bydd y ffordd y mae awdurdodaeth sengl Cymru a Lloegr yn delio â chyfreithiau o awdurdodaethau eraill yn cael ei chadw ac mae paragraff 6(1)(f) yn cadw'r cyfrifoldeb dros adolygiadau barnwrol o weithredu gweinyddol.

57 Mae paragraffau 6(2) a (3) yn galluogi'r Cynulliad, drwy eithriad, i ddarparu ar gyfer cyflwyno apelau neu geisiadau penodol yn ymwneud â mater sifil, datganoledig i lys, os yw hyn yn ategol (fel y diffinnir yn a. 108A(7)) i ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad ac na ddelir ag ef fel arall drwy Dribiwnlys ym mharagraff 7 neu apêl sifil bresennol i Lys. Nid yw'r eithriad yn gymwys i apelau neu i geisiadau mewn achosion troseddol.

Mae "prosectutor" ym mharagraff 6(1)(c) yn cyfeirio at unrhyw un sy'n cychwyn erlyniad, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Swyddfa Twyll Difrifol, adrannau llywodraeth a sefydliadau llywodraeth, cyrff statudol megis awdurdodau lleol a rheoleiddwyr, a chyrff preifat ac unigolion. Fodd bynnag, fel yr eglurir ym mharagraff 6(4), caiff y Cynulliad bennu pwy sydd â chyfrifoldeb erlyn am drosedd ddatganoledig ond bydd y weithdrefn ar gyfer cynnal achos, gan gynnwys darparu imiwnedd rhag erlyniad megis dan adran 71 o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol 2005 neu bŵer Gwasanaeth Erlyn y Goron i drosfeddiannu achosion troseddol dan adran 6(2) o Ddeddf Erlyn Troseddau 1985, hyd yn oed mewn perthynas â throseddau datganoledig, yn parhau wedi'i chadw drwy fater a gedwir achosion troseddol. Petai'r Cynulliad yn dymuno pennu bod awdurdod a gedwir yn ôl yn gyfrifol am erlyn trosedd ddatganoledig, neu'n ei gwneud yn ofynnol fod awdurdod a gedwir yn ôl yn cael cydsyniad cyn erlyn, bydd hyn yn bosibl gyda chydsyniad y Gweinidog priodol: paragraffau 8(1) neu 10(1) o Atodlen 7B newydd.

**Tribiwnlysoedd**

58 Mae'r adran hon yn cadw tribiwnlysoedd yn ôl, gan gynnwys aelodaeth o dribiwnlysoedd, penodi a thalu aelodau tribiwnlysoedd, swyddogaethau tribiwnlysoedd, gweithdrefnau tribiwnlysoedd ac apelau yn erbyn penderfyniadau gan dribiwnlysoedd. Nid yw'n cadw unrhyw dribiwnlys datganoledig (tribiwnlys sydd â swyddogaethau datganoledig y gellir eu harfer yng Nghymru'n unig) (paragraff 7(2)). Nid yw ychwaith yn cadw unrhyw gais neu apêl sy'n ymwneud â mater datganoledig (ac nad yw'n apêl yn erbyn penderfyniad gan dribiwnlys heblaw tribiwnlys datganoledig) yn achos tribiwnlys sydd â swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau a gedwir yn ôl (paragraff 7(3)).

59 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yw'r brif statud sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd. Mae'n sefydlu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uchaf yng

Nghymru a Lloegr ac yn darparu mewn perthynas â'u haelodaeth a'u cyfansoddiad, swyddogaethau, awdurdodaeth, apelau a gweithdrefn.

**Materion tramor etc.**

60 Mae paragraff 8(1) yn cadw materion tramor yn ôl. Ymhlith y meysydd a gedwir y mae rheoleiddio masnach ryngwladol, cymorth datblygu rhyngwladol a chydweithredu a chysylltiadau rhyngwladol. Mae cysylltiadau rhyngwladol yn cynnwys cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd a'i sefydliadau, cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU a chyda sefydliadau rhyngwladol eraill. Mae hyn yn golygu bod cynnal cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cynnal cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd yn faterion a gedwir yn ôl i Senedd y DU a Llywodraeth y DU.

61 Mae meysydd penodol y tu allan i gwmpas y mater a gedwir yn ôl. Mae is-baragraff (3)(a) yn darparu bod y meysydd hyn yn cynnwys cyflawni ac ufuddhau i rwymedigaethau rhyngwladol, rhwymedigaethau o dan y Confensiwn Hawliau Dynol a rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE. Mae cyfraith yr UE a rhwymedigaethau rhyngwladol wedi'u diffinio yn adran 158(1) o DLlC. Mae'r Confensiwn Hawliau Dynol wedi'i ddiffinio ym mharagraff 8 i olygu Confensiwn Cyngor Ewrop ar gyfer Diogelu Hawliau Dynol a Rhyddidau Sylfaenol a'i Brotocolau. Effaith is-baragraff (3)(a) yw y bydd y Cynulliad yn gallu deddfu i'r diben o weithredu ac ufuddhau i'r rhwymedigaethau hynny i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig.

62 Mewn perthynas â chymhwysedd gweithredol yn y maes hwn, ni roddwyd unrhyw bŵer i Weinidogion Cymru i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae adran 82 o DLlC yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i ymatal rhag unrhyw weithred sy'n anghyson â rhwymedigaethau rhyngwladol neu fod angen iddynt gymryd camau i weithredu rhwymedigaethau o'r fath. Mae adran 114 o DLlC yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn ymyrryd os yw'r darpariaethau mewn unrhyw fil Cynulliad yn anghyson ag unrhyw rwymedigaeth ryngwladol. Mae adran 81 yn cyfyngu pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n anghyson â'r hawliau yn y Confensiwn.

63 Yn ogystal â hyn, diogelir deddfiadau penodol rhag eu haddasu gan y Cynulliad yn rhinwedd paragraff 5 o'r Atodlen 7B newydd i DLlC. Ymhlith y rhain mae Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

**Amddiffyn**

64 Mae paragraff 9 yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn a'r lluoedd arfog. Mae amddiffyn yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r lluoedd arfog (gan gynnwys, er enghraifft, eu cyfarpar, eu hadnoddau a'u trefnu), polisi amddiffyn, strategaeth, cynllunio a chudd-wybodaeth, a chynlluniau ar gyfer cynnal cyflenwadau a gwasanaethau hanfodol os ceir rhyfel.

65 Fodd bynnag, ni fydd y ffaith bod y mater hwn wedi'i gadw'n atal y Cynulliad rhag rhoi pwerau gorfodi i bersonau heblaw aelodau o luoedd morwrol, milwrol neu awyr y Goron (gan gynnwys lluoedd wrth gefn), mewn perthynas â physgota ar y môr.

66 Mae paragraff 9(1)(a) yn cadw amddiffyniad y deyrnas. Mae amddiffyniad y deyrnas yn gysyniad ategol i gysyniad y lluoedd arfog (sydd wedi'u nodi ar wahân, gweler isod) sydd â'r amcan o gwmpasu'r holl faterion y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol amdanynt, i ddibenion amddiffyn. Ymhlith y materion hyn mae'r gwahanol sefydliadau amddiffyn a chontractwyr sy'n cyflawni gwaith i ddibenion amddiffyn; Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a lluoedd cadetiaid y lluoedd arfog (nad ydynt yn rhan o'r lluoedd arfog ond sy'n cyflawni dibenion amddiffyn), a darpariaethau arbennig ar gyfer caffael, defnyddio neu waredu tir ac

eiddo i ddibenion amddiffyn.

67 Mae paragraff 9(1)(b) yn cadw lluoedd morwrol, milwrol ac awyr y Goron, gan gynnwys lluoedd wrth gefn. Mae hyn yn ei gwneud yn glir bod yr holl faterion sy'n ymwneud â'r lluoedd arfog eu hunain wedi cael eu cadw'n ôl. Mae hyn yn cynnwys eu trefn orchymyn, corfflu, cynnal a chadw, trefniadaeth, staffio a chyllid a phob mater sy'n gysylltiedig ag ymrestiad, rheolaeth, disgyblu (gan gynnwys plismona, erlyn a threial o fewn system gyfiawnder y lluoedd arfog) a chyflog ac amodau a lwfansau ar gyfer cydrannau milwrol a sifilaidd y lluoedd arfog a'r gydran sifilaidd, fel contractwyr yn gweithio dramor dros y lluoedd arfog, o gymuned y lluoedd arfog. Wrth gadw'r mater hwn, fe gedwir hefyd y pŵer i greu troseddau sy'n ymwneud yn benodol â'r lluoedd arfog (er enghraifft, gwisgo lifrai milwrol heb awdurdod), materion sy'n gysylltiedig â chymdeithasau'r lluoedd tiriogaethol, ategol a gwirfoddol wrth gefn, darpariaethau arbennig sy'n ymwneud â statws aelodau o'r lluoedd arfog a datgelu gwybodaeth am weithgareddau milwrol. Mae'r mater a gedwir hefyd yn cwmpasu buddion i aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u dibynyddion a mater beddau rhyfel. Mae ymchwil ar gyfarpar a ffrwydron i ddibenion y lluoedd arfog wedi'i chynnwys hefyd.

68 Mae paragraff 9(1)(c) yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud â lluoedd sy'n ymweld. Y rhain yw lluoedd arfog gwledydd eraill sy'n ymweld â'r DU neu sydd wedi'u lleoli yn y DU, gan gynnwys eu helfennau milwrol a sifilaidd.

69 Mae paragraff 9(1)(d) yn cadw pencadlysoedd a sefydliadau amddiffyn rhyngwladol. Ei unig bwrpas yw egluro bod materion sy'n ymwneud â phencadlysoedd neu sefydliadau a ddynodwyd i ddibenion Deddf Pencadlysoedd a Sefydliadau Amddiffyn Rhyngwladol 1964 wedi'u cadw'n ôl.

70 Mae paragraff 9(1)(e) yn cadw cymhwysedd dros fasnachu â'r gelyn ac eiddo'r gelyn. Mae hyn yn cwmpasu materion sy'n ymwneud â rheoli masnach â'r gelyn ac atafaelu, rheoli neu weinyddu eiddo'r gelyn. Mae'r holl faterion hyn yn agweddau ar ryfela a chytuno ar heddwch.

71 Mae paragraff 9(2) yn darparu nad yw'r pŵer i roi pwerau gorfodi i berson mewn perthynas â physgota môr wedi'i gadw ac eithrio yn achos person sy'n aelod o luoedd morwrol, milwrol neu awyr y Goron, gan gynnwys lluoedd wrth gefn. Nid yw'r paragraff hwn yn newid y sefyllfa bresennol o ran datganoli. Mae pwerau gorfodi mewn perthynas â physgota môr yn cael eu rhoi'n awtomatig i aelodau penodol o luoedd morwrol, milwrol ac awyr y Goron gan eu bod yn swyddogion gorfodi morol o ganlyniad i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. O dan yr un Ddeddf, gellir rhoi pwerau gorfodi pysgota môr i unrhyw berson drwy ei benodi'n swyddog gorfodi morol gan Weinidogion Cymru.

## RHAN 2 – MATERION PENODOL A GEDWIR YN ÔL

72 Mae paragraff 10 yn egluro bod yr holl faterion sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 7A, fel y rheini sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 7A, yn faterion a gedwir yn ôl.

73 Mae paragraff 11 yn darparu bod y materion a gedwir yn ôl i gael eu darllen ar y cyd a'u heithriadau a'u darpariaethau o ran dehongli.

74 Mae paragraff 12 yn darparu bod yr eithriadau a'r darpariaethau dehongli sydd wedi'u rhestru o fewn materion a gedwir yn ôl yn gymwys i'r materion hynny a gedwir yn ôl yn unig. Hynny yw, nid yw eithriadau a dehongliadau yn gymwys i faterion eraill a gedwir yn ôl.

### Pennawd A – Materion Ariannol ac Economaidd

### Adran A1 – Polisi cyllidol, economaidd ac ariannol

75 Mae'r adran hon yn cadw polisi cyllidol, economaidd ac ariannol, ac eithrio trethi datganoledig a threthi lleol.

76 Ymhlith y materion a gedwir yn ôl mae dosbarthu a chylchredeg arian, trethi a thollau cartref gan gynnwys treth car (a'r cyrff sy'n eu gweinyddu), rhoi a chymryd benthyg arian gan lywodraeth (gan gynnwys dyroddi Gwarantau Llywodraeth), y gyfradd gyfnewid, Banc Lloegr a rheolaeth dros wariant cyhoeddus y DU. Nid yw hyn yn effeithio ar allu'r Cynulliad i ddyrannu adnoddau, boed y rheini'n rhan o'r gyllideb a aseiniwyd iddo neu'n rhai a godwyd drwy ei bwerau i amrywio trethi. Drwy gadw Banc Lloegr yn ôl ei enw yn Rhan 2 o Atodlen 7A, byddparagraff 199 o Atodlen 7A ('awdurdodau penodol") yn gymwys ac yn cadw swyddogaethau a chyfansoddiad y Banc.

77 Nid yw'r ffaith bod y mater hwn wedi'i gadw yn effeithio ar y trethi datganoledig a grëwyd yn Neddf Cymru 2014. Felly mae trethi datganoledig wedi'u heithrio o'r mater hwn, ynghyd â threthi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol.

**Adran A2 – Yr arian cyfredol**

78 Mae'r adran hon yn cadw materion sy'n ymwneud â'r arian cyfredol.

79 Y materion a gedwir yn ôl yw arian bath, arian cyfreithlon a phapurau banc. Mae hyn yn cynnwys gwerthoedd yr arian yn yr arian cyfredol a'r arian bath neu bapurau banc sy'n arian cyfreithlon a pha arian bath a phapurau banc y gellir eu dosbarthu.

**Adran A3 – Gwasanaethau ariannol**

80 Mae'r adran hon yn cadw gwasanaethau ariannol yn ôl. Mae'r mater a gedwir yn cynnwys yn benodol:

(a) busnes buddsoddi, e.e. rheoli buddsoddiadau neu ddarparu cyngor ar fuddsoddi ac awdurdodi a rheoleiddio'r rheini sy'n ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, fel y gwneir yn Neddf Gwasanaethau Ariannol 1986;

(b) bancio a chymryd arian cadw e.e. awdurdodi a rheoleiddio'r rheini sy'n cynnal busnes bancio neu gymryd arian cadw, fel y gwneir yn Neddf Bancio 1987;

(c) cynlluniau buddsoddi ar y cyd e.e. ymddiriedolaethau unedol a chwmnïau buddsoddi penagored a'u rheoleiddio a'u hawdurdodi, fel y gwneir yn Neddf Gwasanaethau Ariannol 1986;

(d) yswiriant.

81 Mae'r ymadrodd "financial services" hefyd yn cynnwys gwasanaethau ariannol heblaw'r rheini sydd wedi'u crybwyll yn benodol, fel y gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau adeiladu neu gymdeithasau cyfeillgar.

82 Drwy gadw'r mater hwn, cyfrennir at gadw marchnadoedd cyffredin ar gyfer gwasanaethau ariannol, a diogelu adneuwyr, buddsoddwyr a deiliaid polisïau yswiriant, ledled y DU.

**Adran A4 – Marchnadoedd ariannol**

83 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros farchnadoedd ariannol, fel cyfnewidfeydd buddsoddi a marchnadoedd arian. Nodir bod y materion a gedwir yn cynnwys yn benodol:

(a) rhestru gwarantau a buddsoddiadau a'u cynnig i'r cyhoedd, fel y materion y mae'n rhaid eu datgelu wrth wneud cais am restru gwarantau'n swyddogol neu answyddogol gan y Gyfnewidfa Stoc;

(b) trosglwyddo gwarantau e.e. ar bapur yn achos gwarantau tystysgrifedig neu'n electronig

yn achos gwarantau annhystysgrifedig, fel y gwneir yn system CREST;

(c) masnachu mewnol. Mae hyn yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud â diffinio beth yw masnachu mewnol a'r canlyniadau iddo.

**Adran A5 – Cyfrifon segur**

84 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i ddosbarthu arian o gyfrifon segur mewn banciau a chymdeithasau adeiladu.

85 Mae'r pŵer i ddosbarthu gweddillau sydd mewn cyfrifon segur mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn cael ei reoli gan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 ("Deddf Cyfrifon Segur").

86 Mae Rhan 1 o Ddeddf Cyfrifon Segur yn ymdrin â throsglwyddo gweddillau o'r fath i gronfa adennill awdurdodedig ac, o'r gronfa adennill awdurdodedig, i'r dosbarthwr sydd wedi'i bennu yn adran 16(1), sef y Gronfa Loteri Fawr (BLF) ar hyn o bryd.

87 Mae Rhan 2 o Ddeddf Cyfrifon Segur yn ymdrin â dosbarthu arian o gyfrifon segur gan BLF. Mae adran 16(1) yn pennu bod rhaid i BLF ddosbarthu arian o gyfrifon segur er mwyn cwrdd â gwariant sydd â phwrpas cymdeithasol neu amgylcheddol. Ymdrinnir â dyrannu arian o gyfrifon segur rhwng gwahanol genhedloedd y DU yn adran 17 ac mewn is-ddeddfwriaeth (ar hyn o bryd, Gorchymyn Dosbarthu Arian o Gyfrifon Segur (Dyrannu) 2011, OS 2011/1799). Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r holl arian o gyfrifon segur a ddosberthir gan BLF yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau sy'n cael eu trafod yn adran 22(4).

88 Nid oes effaith, wrth gadw'r mater hwn, ar y datganoli presennol ar gymhwysedd gweithredol i Weinidogion Cymru, sydd â phwerau: i gyfyngu ymhellach (drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol) ar y dibenion neu'r mathau o bersonau y gall BLF ddosbarthu arian o gyfrifon segur ar eu cyfer er mwyn cwrdd â gwariant Cymreig (gweler adran 19 o Ddeddf Cyfrifon Segur); i roi cyfarwyddiadau i BLF mewn perthynas â gwariant Cymreig (adran 22); ac i gyfarwyddo BLF i baratoi neu newid cynllun strategol ar gyfer dosbarthu arian o gyfrifon segur ganddo i gwrdd â gwariant Cymreig (Atodlen 3).

**Pennawd B – Materion Cartref**

**Adran B1 - Etholiadau**

89 Mae is-adran B1(A) o'r Adran hon (paragraff 18) yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud ag etholiadau ar gyfer aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin a Senedd Ewrop sy'n cynnwys pwy a gaiff sefyll neu bleidleisio yn yr etholiadau hynny, gweithdrefnau ar gyfer cyfrif pleidleisiau ac ethol ymgeiswyr, yr etholaethau ac amseroedd ar gyfer yr etholiadau hynny, gwariant ar ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol, gwariant a reolir a rhoddion i drydydd partïon.

90 Mae is-adran (B) (paragraffau 19 i 25) yn cadw materion penodol sy'n ymwneud ag etholiadau am aelodaeth o'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

91 Mae paragraff 19 yn cadw'r pwnc yn adrannau 3(1A) a 13A o DLlC sy'n ymwneud â chydamseru etholiadau Cynulliad ac etholiadau a gedwir.

92 Mae paragraff 20 yn cadw'r pwnc yn adran 37ZA(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 sy'n ymwneud â chydamseru etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau Cynulliad.

93 Mae paragraff 21 yn cadw'r materion canlynol:

a. cyfuno'r pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad â phleidleisio mewn (i) etholiadau Cynulliad, (ii) etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru neu (iii) refferenda a gynhelir o dan Ran 2 o Ddeddf

Llywodraeth Leol 2000;

b. cyfuno'r pleidleisio mewn etholiadau Cynulliad cyffredin â phleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru.

94 Mae paragraff 22 yn cadw cymhwysedd dros y Gwasanaeth Digidol ar gyfer Cofrestru Etholiadol Unigol ar gyfer ceisiadau am gofrestru, neu ar gyfer gwirio gwybodaeth mewn ceisiadau am gofrestru mewn perthynas ag etholiadau am aelodaeth o'r Cynulliad neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

95 Mae paragraff 23 o'r mater a gedwir yn ôl yn nodi pwnc y darpariaethau hynny yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") sydd wedi'u cadw mewn perthynas ag etholiadau am aelodaeth o'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Yn benodol, mae pwnc adrannau 1 i 4 o Ddeddf 2000, sy'n ymwneud â sefydlu'r Comisiwn Etholiadol a'i gyfansoddiad wedi'i gadw (gyda rhai eithriadau). Fodd bynnag, mae nifer o swyddogaethau cyffredinol a swyddogaethau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol o dan Rannau 1 a 10 o Ddeddf 2000 heb gael eu cadw mewn perthynas ag etholiadau am aelodaeth o'r Cynulliad.

96 Mae paragraff 24 yn cadw cymhwysedd dros wariant ar ymgyrchu gan bleidiau gwleidyddol, gwariant a reolir a rhoddion i drydydd partïon, ond dim ond lle mae cyfnod a reoleiddir mewn perthynas â gwariant o'r fath ar gyfer etholiadau i'r Cynulliad neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gorgyffwrdd â'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau am aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin neu Senedd Ewrop.

97 Mae adrannau 145 i 148 a 150 i 154 o Ddeddf 2000 yn darparu ar gyfer gorfodi'r fframwaith rheoleiddio a ddarperir gan y Ddeddf honno. Mae hyn yn cynnwys gwahanol bwerau y gall y Comisiwn Etholiadol eu harfer i ymchwilio i faterion ac, os yw'n briodol, gosod sancsiynau sifil. Mae'r adrannau hyn hefyd yn creu nifer o droseddau. Mae paragraff 25 yn cadw pwnc yr adrannau hyn fel y maent yn gymwys i ddibenion unrhyw ddarpariaeth, i'r graddau y mae pwnc darpariaeth o'r fath wedi'i gadw ei hun gan un ai paragraff 23 neu baragraff 24 o Adran B1.

**<u>Adran B2 – Cenedligrwydd a mewnfudo</u>**

98 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran cenedligrwydd a mewnfudo.

99 Mae cenedligrwydd a mewnfudo yn cwmpasu amrywiaeth o faterion, gan gynnwys: mynediad i'r DU; ymestyn caniatâd i aros yn y DU, rhoi lloches gwleidyddol neu fathau eraill o loches ac amddiffyniad dyngarol; statws a chymhwysedd dinasyddion o'r tu allan i Brydain yn y DU, rhoddi a rheoleiddio caniatâd i weithio ac astudio; hawl personau i symud yn rhydd o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd; a dyroddi pasbortau a dogfennau teithio eraill.

100 Mae cenedligrwydd a mewnfudo yn cael eu rheoli gan statud, sef Deddf Mewnfudo 1971, Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981, Deddf Mewnfudo 1988, Deddf Apelau Lloches a Mewnfudo 1993 (a ddiddymwyd i raddau helaeth), Deddf y Comisiwn Arbennig Apelau Mewnfudo 1997, Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, Deddf Tiriogaethau Tramor Prydeinig 2002, Deddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002, Deddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006, Deddf Ffiniau'r DU 2007, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 a Deddf Mewnfudo 2014 yn ogystal â'r Rheolau Mewnfudo (HC 395 fel y'u diwygiwyd) ac is-ddeddfwriaeth a wnaed yn unol â'r pwerau yn y ddeddfwriaeth uchod.

101 Nid yw pasbortau a dogfennau teithio eraill yn dod o dan ddarpariaeth statudol. Maent yn cael eu dyroddi, yn hytrach, o dan yr Uchelfraint Frenhinol.

102 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth a ddisgrifiwyd uchod; lloches a statws a chymhwysedd personau yn y Deyrnas Unedig nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig; hawl personau i symud yn rhydd o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd; a dyroddi dogfennau teithio.

**<u>Adran B3 – Diogelwch gwladol a chyfrinachau swyddogol</u>**

103 Mae'r adran hon yn cadw diogelwch gwladol yn ôl. Mae pwerau diogelwch gwladol yn elfen annatod yng ngweithrediadau'r Deyrnas Unedig.

104 Mae'r adran hon yn cadw pwerau arbennig a darpariaethau arbennig eraill i ddelio â therfysgaeth. Mae hyn yn cadw cymhwysedd i wneud darpariaeth arbennig ynghylch terfysgaeth fel a wneir yn Neddf Terfysgaeth 2000, Deddf Terfysgaeth 2006, Deddf Gwrth-derfysgaeth 2008, Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011 neu yn Neddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015. Nid yw'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys darpariaethau cyffredinol yng nghyfraith trosedd neu mewn statudau trefn gyhoeddus y gellid eu defnyddio i ddelio â therfysgwyr, er nad ydynt wedi'u hanelu at derfysgwyr yn benodol.

105 Mae'r adran hon hefyd yn cadw'r pwnc yn Neddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911-1989, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n amddiffyn rhag gweithredoedd ysbïo penodol a rhag datgelu gwybodaeth sensitif benodol heb awdurdod.

**<u>Adran B4 – Ymyrryd â chyfathrebu, data cyfathrebu a gwyliadwriaeth</u>**

106 Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer cadw'n ôl yn gymwys i'r holl fframwaith statudol sy'n rheoli'r gweithgareddau hyn. Mae hyn yn cynnwys y gallu i bennu y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol allu cynnal y gweithgareddau hyn. Mae'r cyfan o'r system oruchwylio a'r mesurau diogelu statudol sy'n gymwys i'r gweithgareddau hyn wedi'u cadw hefyd. Mae'r rhain ymysg y gweithgareddau mwyaf ymwthiol y gall awdurdodau cyhoeddus ymgymryd â nhw.

**<u>Adran B5 - Troseddu, y drefn gyhoeddus a phlismona</u>**

107 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros atal, darganfod ac ymchwilio i droseddu; yn cadw'r cymhwysedd dros gadw'r drefn gyhoeddus a phlismona.

108 Mae'r adran hon yn gwneud Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gyffredinol yn fater a gedwir yn ôl, gan gynnwys eu swyddogaethau a'u hethol.

109 Nid yw'r materion a gedwir dan yr adran hon yn ymestyn i bwerau mynediad, chwilio ac ymafael yn ymwneud â chanfod neu ymchwilio i drosedd o fath y gellir ei chreu drwy ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**<u>Adran B6 – Ymddygiad gwrthgymdeithasol</u>**

110 Mae'r adran hon yn cadw'r pwnc yn Rhannau 1 i 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, sy'n nodi mesurau cymhellol a mesurau eraill i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac anhrefn ac ymddygiad sy'n cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd mewn ardal, gan gynnwys camau i adfeddiannu anheddau ar sail ymddygiad o'r fath.

111 Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer gwaharddeb sifil i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer gorchymyn ar ôl rhoi collfarn i atal ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, dychryn neu ofid. Mae Rhan 3 yn cynnwys pŵer i'r heddlu wasgaru pobl sy'n achosi neu'n debygol o achosi aflonyddu, dychryn neu ofid neu sydd, neu sy'n debygol o fod, yn cymryd rhan mewn troseddu neu anhrefn. Mae Rhan 4 yn nodi pwerau i ddelio â diogelu cymunedol ac yn darparu ar gyfer hysbysiad diogelu cymunedol, gorchymyn diogelu mannau

cyhoeddus a darpariaethau i gau mangreoedd sy'n gysylltiedig â niwsans neu anhrefn. Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer meddiannu tai ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Rhan 6 yn cynnwys darpariaethau ar sefydlu dogfen rhwymedi cymunedol a delio ag ymatebion i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

112 Mae'r adran hon hefyd yn cadw materion sy'n ymwneud â chŵn peryglus a chŵn allan o reolaeth a pheryglus am fod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi eu cadw. Mae hyn yn gyson â chadw'n gyffredinol y gwaith o gynnal trefn gyhoeddus ond nid yw'n effeithio ar bwnc datganoledig lles anifeiliaid.

**<u>Adran B7 – Caethwasiaeth fodern</u>**

113 Mae'r adran hon yn cadw'r pwnc sydd yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r Ddeddf yn amlinellu ymateb deddfwriaethol Llywodraeth y DU i broblem caethwasiaeth fodern. Ymhlith ei darpariaethau mae troseddau, pwerau gorfodi'r gyfraith a mesurau i ddiogelu dioddefwyr sy'n hanfodol i sicrhau ymateb effeithiol i'r trosedd difrifol hwn.

**<u>Adran B8 - Puteindra</u>**

114 Mae'r adran hon yn cadw materion sy'n ymwneud â phuteindra.

115 Mae hyn yn cwmpasu camau i atal niwed, camfanteisio a niwsans cyhoeddus sy'n gysylltiedig â phrynu a gwerthu gwasanaethau rhywiol, gan gynnwys rheolaeth ar werthu gwasanaethau rhywiol.

116 Ceir y rhan fwyaf o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â phuteindra yn Neddf Troseddau Rhywiol 1956 (cadw puteindai), Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (llithio, rheoli puteindra er elw ac achosi neu ysgogi puteindra er elw, a thalu am wasanaethau rhywiol putain sy'n cael ei gorfodi, ei bygwth neu ei hysgogi), Deddf Troseddau Stryd 1959 (sefyllian neu lithio a Gorchmynion Cynnwys a Chymorth).

**<u>Adran B9 – Pwerau argyfwng</u>**

117 Mae'r adran hon yn cadw pwerau argyfwng. Mae hyn yn cwmpasu'r amgylchiadau lle mae pwerau o'r fath yn cael eu harfer, beth yw'r pwerau, gan gynnwys y cyfyngiadau arnynt, a darpariaeth ategol.

118 Mae pwerau argyfwng yn cynnwys darpariaethau sector-benodol, a'r pwerau argyfwng generig sydd wedi'u nodi yn Rhan 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (DASP).

119 Mae DASP yn darparu pŵer i wneud rheoliadau argyfwng er mwyn ymateb ar frys i argyfyngau gwirioneddol neu argyfyngau sydd ar fin digwydd sy'n bygwth niwed mawr i les pobl, yr amgylchedd, neu ddiogelwch y DU drwy ryfel neu derfysgaeth, a lle mae'r ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth yn annigonol.

120 Gall rheoliadau argyfwng wneud darpariaeth o unrhyw fath sy'n angenrheidiol i atal neu ddelio â'r argyfwng dan sylw. Fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn gymesur â'r agwedd neu effaith o'r argyfwng y maent wedi'u cyfeirio ati. Mae cyfyngiadau eraill yn gymwys hefyd.

121 Ni ellir gwneud rheoliadau argyfwng sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â Chymru oni bai fod un o uwch Weinidogion y Goron wedi ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, gellir datgymhwyso'r gofyniad hwn os oes angen am resymau sy'n ymwneud â brys.

**<u>Adran B10 - Estraddodi</u>**

122 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros estraddodi. Mae Deddf Estraddodi 2003 yn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer estraddodi. Estraddodi yw'r broses ar gyfer ildio person gan un diriogaeth i un arall, fel y bydd yn cael ei erlyn am drosedd honedig neu,

os yw person wedi'i gael yn euog o droseddu, i gwblhau dedfryd neu fath arall o gadwad sydd wedi'i osod gan lys.

**Adran B11 – Adsefydlu troseddwyr**

123 Mae'r adran hon yn cadw'r pwnc sydd yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (DAT) sy'n rheoli'r trefniadau ar gyfer datgelu gwybodaeth mewn cofnodion troseddol i ddibenion cyflogaeth ac i ddibenion penodol eraill fel trwyddedu, ac achosion mewn llys neu dribiwnlys. Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu pryd y gall rhybuddiadau ac euogfarnau gael eu disbyddu fel nad oes rhaid eu datgelu bellach i'r rhan fwyaf o ddibenion ac y caiff yr unigolyn ei drin fel un sydd wedi'i adsefydlu i ddiben DAT. Mae'r Gorchymyn Eithriadau ar gyfer DAT yn rhestru'r galwedigaethau a gweithgareddau sensitif hynny lle gellir datgelu ac ystyried rhybuddiadau ac euogfarnau penodol a ddisbyddwyd ac yn pennu pa rybuddiadau ac euogfarnau hen a bach a ddisbyddwyd y gellir eu diogelu rhag eu datgelu i'r dibenion hyn.

124 Mae'r cyfnodau adsefydlu sy'n ymwneud ag euogfarnau, a'r polisi ar rybuddiadau ac euogfarnau a ddisbyddwyd sydd wedi'u diogelu, yn seiliedig ar y ddedfryd a roddwyd. Mae'r fframwaith dedfrydu yn fater a gedwir ac felly rhaid i'r DAT gael ei chadw hefyd gan fod rhaid cysoni'r ddau rhwng Cymru a Lloegr.

**Adran B12 – Cofnodion troseddol**

125 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gofnodion troseddol, gan gynnwys y system datgelu a gwahardd, sy'n cael ei gweithredu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

126 Sefydlwyd y DBS gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae'r DBS yn rhedeg gwasanaeth gwahardd ar gyfer meysydd cyflogaeth sensitif penodol a hefyd yn darparu datgeliadau o gofnodion troseddol.

127 Mae'r system ddeddfwriaethol ar gyfer datgelu a gwahardd troseddol wedi'i darparu gan nifer o statudau:

- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf yr Heddlu 1997

128 Mae Deddf yr Heddlu 1997 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu tystysgrifau cofnodion troseddol a'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau'r DBS. Ceir rhyngweithio agos iawn rhwng Deddf yr Heddlu 1997 a DAT a rheoliadau cysylltiedig. Mae darpariaethau DAT, y sail i system y DBS, yn fater a gedwir yn ôl.

129 Fodd bynnag, mae agweddau eraill ar y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r system datgelu a gwahardd yn gallu bod yn agored i effaith neu ddylanwad materion datganoledig.

130 Mae adran 56 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gwneud is-ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â gwahardd a hysbysu; mae dyletswydd hefyd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar weithgarwch a reoleiddir, gwahardd etc.

131 Yn ogystal â hyn, mae'r Atodlen 7 gyfredol i DLlC yn darparu mai mater datganoledig yw darparu gofal cymdeithasol. Oherwydd y lle sydd i fesurau diogelu a gwahardd ym maes gofal cymdeithasol, mae'n anorfod bod cysylltiad rhwng agweddau ar waith y DBS a'r system Cofnodion Troseddol.

132 Ceir sefyllfa debyg yng nghyd-destun addysg. O dan Ddeddf Addysg 2002 mae dyletswydd gyffredinol gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol i hyrwyddo lles plant a gwneud trefniadau diogelu – mae'r ddyletswydd honno wedi'i datganoli. Mae'r cyfrifoldeb dros reoleiddio ac arolygu cartrefi plant a darparwyr gofal cymdeithasol wedi'i ddatganoli hefyd.

**Adran B13 – Eitemau peryglus**

133 Mae'r adran hon yn cadw'r pwnc sydd yn Neddfau Arfau Tanio 1968 i 1997.

134 Y Deddfau hyn yw Deddf Arfau Tanio 1968, Deddf Arfau Tanio 1982, Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988, Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1992 a Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1997.

135 Mae'r Deddfau hyn, ymysg pethau eraill:

- yn ei gwneud yn drosedd mewn amgylchiadau penodol a heb awdurdod, meddu, trin, prynu, caffael, gwerthu, dosbarthu neu drosglwyddo arfau tanio ac arfau tanio ffug penodol;
- yn darparu ar gyfer yr angen am dystysgrifau arfau tanio, ac am eu dyroddi, mewn perthynas ag arfau tanio a bwledi a chetris penodol;
- yn darparu ar gyfer rheoleiddio gwerthwyr arfau tanio;
- yn darparu ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio clybiau saethu targedau.

136 Mae'r Deddfau'n gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o arfau tanio mewn rhai pethau ac yn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau ohonynt.

137 Mae'r adran hon hefyd yn cadw'r pwnc sydd yn Neddf Gwenwynau 1972 sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer gwerthu a chyflenwi gwenwynau a rhagsylweddau ffrwydron penodol i aelodau o'r cyhoedd ac ar gyfer caffael, mewnforio, defnyddio a meddu gwenwynau a rhagsylweddau ffrwydron gan aelodau o'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer hysbysu am drafodion amheus ar wenwynau a rhagsylweddion ffrwydron.

138 Mae adran B5 yn cadw'r cymhwysedd dros atal, darganfod ac ymchwilio i droseddu. Mae adran B13 yn atal y Cynulliad rhag deddfu mewn perthynas â chyllyll ac arfau ymosodol sydd hefyd yn gyllyll (er enghraifft, bidog) mewn materion sydd heb eu cynnwys yn adran B5. Er enghraifft, bydd yn atal y Cynulliad rhag gweithredu system drwyddedu ar gyfer cyllyll ac ar gyfer arfau ymosodol sydd hefyd yn gyllyll.

**Adran B14 – Camddefnyddio a masnachu cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol**

139 Mae'r adran hon yn cadw'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â chamddefnyddio neu fasnachu cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol.

140 Mae hyn yn cynnwys cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol sydd wedi'u diffinio, yn y drefn honno, yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau ("controlled drugs" sy'n cynnwys cyffuriau sy'n dod o dan orchymyn cyffuriau dosbarth dros dro) ac yn Neddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 (unrhyw sylwedd sy'n: 'capable of producing a psychoactive effect in a person who consumes it' yn amodol ar restr o sylweddau esempt yn Atodlen 1).

141 Ceir y rhan fwyaf o'r gyfraith ar gamddefnyddio cyffuriau a masnachu cyffuriau yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a'r is-deddfwriaeth iddi yn ogystal ag adrannau 12-14 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Cydweithredu Rhyngwladol) 1990 (sylweddau sy'n ddefnyddiol ar gyfer gweithgynhyrchu cyffuriau a reolir).

142 Mae Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 yn ei gwneud yn anghyfreithlon masnachu (h.y. cynhyrchu, mewnforio/allforio, cyflenwi a meddu gyda'r bwriad o gyflenwi) ar gyfer defnyddio sylweddau seicoweithredol (fel y maent wedi'u diffinio yn y Ddeddf) gan bobl. Nid oes trosedd sy'n ymwneud â meddiant heblaw mewn sefydliad carcharol. Nid yw cynhyrchu

etc. y sylweddau hyn i unrhyw ddiben arall wedi'i gynnwys. Ymhlith y sylweddau esempt mae cyffuriau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971; cynhyrchion meddyginiaethol sy'n unol â'r diffiniad yn Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl 2010; alcohol, nicotin/tybaco, caffein a bwyd (h.y. sylweddau sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio drwy ddeddfwriaeth bresennol neu am fod eu heffaith seicoweithredol yn fach iawn).

143 Ceir deddfwriaeth ar ragsylweddau ffrwydron yn Rheoliad (CE) Rhif 273/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 111/2005 a weithredwyd drwy Reoliadau Cyffuriau a Reolir (Rhagsylweddau Cyffuriau) (Rheoliadau Masnach o fewn y Gymuned) 2008 (OS 2008 Rhif 295) a Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Rhagsylweddau Cyffuriau) (Masnach Allanol y Gymuned) 2008 (OS 2008 Rhif 296).

**Adran B15 – Diogelwch preifat**

144 Mae'r adran hon yn cadw Diogelwch Preifat. Mae hyn yn cwmpasu'r system reoleiddio ar gyfer diogelwch preifat, sy'n cael ei rheoleiddio ar hyn o bryd gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Sefydlwyd yr SIA gan Ddeddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2012. Prif swyddogaethau'r SIA yw darparu trwyddedu a chymeradwyaeth ar gyfer meysydd penodol yn y diwydiant diogelwch. Mae hefyd yn cyflawni swyddogaeth gorfodi.

**Adran B16 – Adloniant a lluniaeth yn hwyr y nos**

145 Mae'r adran hon yn cadw pwerau i wneud darpariaethau ar gyfer rheoleiddio'r system o bennu dosbarthiadau ffilmiau a recordiadau fideo (yn cynnwys gemau fideo). Mae hyn yn cynnwys ardystio ffilmiau, recordiadau fideo a gemau fideo mewn perthynas ag oedran. Mae'r adran hon hefyd yn cadw cymhwysedd dros adloniant a lluniaeth yn hwyr y nos, sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys trwyddedu adloniant, i sicrhau bod fframwaith rheoleiddio cydlynol ledled Cymru a Lloegr.

146 Y diffiniad o luniaeth yn hwyr y nos yn Neddf Trwyddedu 2003 (adran 1 a pharagraff 1 o Atodlen 2) yw gwerthu bwydydd poeth a diodydd poeth i'r cyhoedd rhwng 23.00 awr a 05.00 awr. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys esemptiadau penodol (gweler paragraffau 2A, 3, 4 a 5 o Atodlen 2), lle nad yw'r fangre'n cael ei defnyddio gan y cyhoedd, fel darparu lluniaeth i westeion sy'n aros mewn gwesty, neu ddarparu lluniaeth gan gyflogwr i gyflogai.

**Adran B17 - Alcohol**

147 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros werthu a chyflenwi alcohol, sy'n cael ei reoleiddio gan Ddeddf Trwyddedu 2003.

148 Mae hyn yn cynnwys trwyddedu gwerthiant alcohol drwy fanwerthu a phrisio a hyrwyddo alcohol. Mae nifer o ddarpariaethau yn Neddf Trwyddedu 2003 sy'n ymwneud â phrisio a hyrwyddo alcohol, gan gynnwys pŵer o dan adran 19A sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol osod amodau gorfodol ynghylch gwerthu alcohol yn yr holl fangreoedd trwyddedig lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn barnu bod hyn yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae amodau trwyddedu gorfodol a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys amodau sy'n rheoli hyrwyddo anghyfrifol, a gwahardd gwerthu alcohol am bris sy'n is na'r hyn a ganiateir.

149 Nid yw'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys gwerthu alcohol drwy gyfanwerthu.

**Adran B18 – Betio, hapchwarae a loterïau**

150 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros loterïau, gan gynnwys y Loteri Genedlaethol, gan sicrhau bod yr un fframwaith wedi'i osod ledled y DU, a betio a hapchwarae, gan sicrhau bod yr un fframwaith wedi'i osod ledled Prydain Fawr.

**Adran B19 - Hela**

151 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros hela â chŵn. Mae hela mamal gwyllt â chi wedi'i wahardd yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Hela 2004, oni bai fod yr hela'n gymwys fel hela esempt o dan y Ddeddf honno.

**Adran B20 - Triniaethau gwyddonol ac addysgol ar anifeiliaid byw**

152 Mae'r adran hon yn cadw triniaethau gwyddonol ac addysgol ar anifeiliaid byw. Mae triniaethau o'r fath wedi'u rheoleiddio gan yr Uned Rheoleiddio Anifeiliaid mewn Gwyddoniaeth yn y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am arolygu a thrwyddedu triniaethau o'r fath ac am bolisi a deddfwriaeth yn y maes hwn ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.

**Adran B21 - Rhaglawiaethau**

153 Mae'r adran hon yn cadw'r rhaglawiaethau, gan gynnwys y prosesau ar gyfer eu penodi a'u swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Neddf Rhaglawiaethau 1997.

**Adran B22 – Elusennau a chodi arian**

154 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros elusennau. Deddf Elusennau 2011 yw'r brif statud sy'n gwneud darpariaethau ynghylch elusennau. Mae hyn yn cynnwys y diffiniad o "charity" a "charitable purpose", y gofynion i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr a chael eu rheoleiddio ganddo, a gofynion o ran adrodd a chyfrifyddu gan elusennau ymysg pethau eraill.

155 Nid yw'r ffaith bod y mater hwn wedi'i gadw'n effeithio ar allu'r Cynulliad neu Lywodraeth Cymru i roi, gosod neu addasu swyddogaethau cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig sydd hefyd yn digwydd bod yn elusennau.

156 Mae'r adran hon hefyd yn cadw cymhwysedd dros godi arian at ddibenion elusennol, dyngarol neu gymwynasgar. Yn benodol, mae'n ymwneud â chasglu rhoddion elusennol drwy ofyn i aelodau'r cyhoedd. Y prif ddarpariaethau statudol mewn perthynas â hyn yw Rhan 2 o Ddeddf Elusennau 1992 a Deddf Casglu o Dŷ i Dŷ 1939.

157 Nid yw'r ffaith bod y mater hwn wedi'i gadw'n cyfyngu ar bŵer y Cynulliad i ddeddfu i godi a dosbarthu arian i elusennau a chyrff tebyg at ddibenion datganoledig.

**Pennawd C - Masnach a Diwydiant**

**Adran C1 - Cymdeithasau busnes ac enwau busnesau**

158 Mae'r adran hon yn cadw materion sy'n ymwneud â chreu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu cymdeithasau busnes. Mae cymdeithasau busnes yn cynnwys unrhyw endid nad yw'n berson naturiol sydd wedi'i sefydlu i ymgymryd ag unrhyw fusnes pa un a yw'r busnes â'r amcan o wneud elw neu beidio. Nid yw'r ffaith bod y mater hwn wedi'i gadw'n atal y Cynulliad rhag sefydlu cymdeithas busnes, fel cwmni at ddibenion datganoledig, ond byddai'n ofynnol bod unrhyw gwmni o'r fath yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol y DU. Yr hyn sydd wedi'i gadw yw'r cymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu sut y bydd cwmni'n cael ei greu, ei weithredu, ei reoleiddio a'i ddiddymu.

159 Er enghraifft, o ran landlord cymdeithasol cofrestredig (a allai fod yn cwmni neu'n Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus), mae gan y Cynulliad gymhwysedd i wneud darpariaeth ar y gofynion i ddod yn landlord cymdeithasol cofrestredig (fel mater tai sydd wedi'i ddatganoli). Fodd bynnag, mae'r mater hwn a gedwir yn atal y Cynulliad rhag gwneud darpariaeth ynglŷn â'r gofynion i gwmnïau neu Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus yn ehangach, neu greu math newydd o gymdeithas fusnes.

160 Wedi'u heithrio o'r mater a gedwir yn ôl mae creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu cyrff cyhoeddus penodol neu gyrff cyhoeddus o fath penodol a sefydlwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y Cynulliad yn gallu deddfu i greu a darparu ar gyfer gweithredu, rheoleiddio a diddymu unrhyw gyrff cyhoeddus at ddibenion datganoledig. Gallai'r rhain gynnwys corff statudol penodol, neu fathau o gyrff statudol, fel awdurdodau lleol neu gyrff eraill y mae'n ofynnol iddynt gyflawni gweithgareddau mewn maes datganoledig. Felly mae'r eithriad hwn yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu cyrff cyhoeddus at ddibenion datganoledig yn unig: ni fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad sefydlu cyrff at ddibenion sy'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl.

161 Mae'r adran hon hefyd yn cadw'r cymhwysedd dros reoleiddio'r enw y mae unigolyn neu gymdeithas busnes yn cynnal busnes o dano.

**<u>Adran C2 - Ansolfedd a dirwyn i ben</u>**

162 Mae'r adran hon yn cadw pwnc ansolfedd a dirwyn cymdeithasau busnes solfent i ben.

163 Mae'r materion hyn a gedwir yn ôl yn cwmpasu'r holl faterion sy'n ymwneud ag ansolfedd ar gyfer unigolion, cwmnïau cyfyngedig a chymdeithasau busnes eraill. Maent hefyd yn cynnwys dirwyn cymdeithasau busnes solfent i ben (er enghraifft, eu dirwyn i ben yn wirfoddol gan aelodau) a rheoleiddio ymarferwyr ansolfedd.

**<u>Adran C3 - Cystadleuaeth</u>**

164 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros reoleiddio arferion a chytundebau gwrthgystadleuol; camfanteisio ar safle cryfach, a monopolïau a chyfuno. Drwy gadw'r mater hwn, sicrheir y bydd system gyffredin yn parhau ar draws y DU ar gyfer rheoleiddio materion cystadleuaeth. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi ar gystadleuaeth.

165 Ar hyn o bryd, mae materion cystadleuaeth yn cael eu rheoleiddio'n bennaf gan (a) Deddf Cystadleuaeth 1998 a gyflwynodd ddull gwahardd i ddelio â chytundebau gwrthgystadleuol a chamfanteisio ar safle cryfach a (b) Deddf Menter 2002 sy'n rheoleiddio cyfuno ac yn rhoi pwerau i ymchwilio i farchnadoedd. Yn ogystal â hyn, mae Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 wedi sefydlu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd sy'n gyfrifol am reoleiddio cystadleuaeth yn y DU, ynghyd â hawliau i apelio i'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu. Wrth gadw'r mater hwn, cedwir yr holl faterion sy'n ymwneud â'r rheoleiddio hwnnw.

**<u>Adran C4 - Eiddo deallusol</u>**

166 Mae'r adran hon yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud ag eiddo deallusol a gwaith y Swyddfa Eiddo Deallusol. Mae hyn yn cynnwys patentau, hawlfraint ar gynllunwaith, nodau masnach a hawlfraint a'r holl hawliau tebyg eraill yn awr ac yn y dyfodol a materion fel hawliau cyhoeddi, hawliau mewn perfformiadau, y gyfraith ar beri coel, cyfrinachau masnach a hawliau ar gronfeydd data .

167 Yr unig eithriad i hyn yw nad yw eiddo deallusol mewn perthynas ag amrywogaethau planhigion a hadau wedi'i gadw.

**<u>Adran C5 - Rheoli mewnforio ac allforio</u>**

168 Mae'r adran hon yn cadw'r trwyddedu ar fewnforion ac allforion a'r gweithredu ar rwymedigaethau'r DU i'r UE a'r Cenhedloedd Unedig yn y maes hwn.

169 Cedwir y trwyddedu ar fewnforion ac allforion o fewn y DU yn ogystal â gweithredu unrhyw reolaethau ar fewnforio, allforio a masnach, sancsiynau neu waharddiad ar arfau sydd wedi'u mabwysiadu ar lefel yr UE neu'r Cenhedloedd Unedig.

170 Mae'r adran hon hefyd yn cadw'r holl faterion sy'n ymwneud â Pholisi Masnachol Cyffredin

yr UE, sy'n dod o dan gymhwysedd unigryw'r UE.

171 Mae'r eithriadau i'r mater hwn yn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu rheoleiddio'r symud i mewn i Gymru ac allan ohoni ar y pethau hynny sydd wedi'u rhestru am resymau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, megis diogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn glir nad yw cymhwysedd datganoledig yn ymestyn i wahardd a rheoleiddio mewn perthynas â diogelu planhigion ac anifeiliaid sydd mewn perygl , gan fod y mater hwn wedi'i gadw'n ôl.

**Adran C6 - Diogelu defnyddwyr**

172 Mae'r adran hon yn cadw'r rheoleiddio ar y materion canlynol:

a. gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys y telerau ar gyfer gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr. Y bwriad yw y bydd y Cynulliad yn parhau i gael cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rheoleiddio, er enghraifft, tatŵio a thyllu'r corff pan mai diben y ddarpariaeth yw diogelu lles y cyhoedd;

b. gwarantau mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau o'r fath. Mae telerau goblygedig statudol ar gyfer gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn dod o dan y mater a gedwir yn ôl yn (a) uchod;

c. hurbwrcasu, gan gynnwys pwnc Rhan 3 o Ddeddf Hurbwrcasu 1964 sy'n delio â'r teitl i gerbydau modur a waredir tra ydynt yn ddarostyngedig i gytundebau hurbwrcasu;

d. disgrifiadau masnach, ac eithrio mewn perthynas â bwyd. Mae hyn yn delio â'r holl faterion sy'n ymwneud â disgrifiadau masnach anwir ac nid yw'n gyfyngedig i ddiogelu defnyddwyr. Mae'n cynnwys y pwnc yn Neddf Disgrifiadau Masnach 1968;

e. hysbysebu a dangos prisiau. Mae hyn yn delio â'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio hysbysebu a dangosiadau prisiau. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau perthnasol yn Neddf Diogelu Defnyddwyr 1987 a Chyfarwyddeb CE ar Ddangosiadau Prisiau;

f. arwerthiannau a ffug arwerthiannau nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn ymwneud â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â gwerthu nwyddau a gwasanaethau drwy arwerthiant a gwahardd ffug arwerthiannau h.y. gwerthiannau yr honnir eu bod yn arwerthiannau, ond lle mae'r hawl i gynnig wedi'i chyfyngu, nwyddau'n cael eu gwerthu am lai na phris y cynnig neu'n cael eu rhoi'n rhad ac am ddim, ac arferion masnachu tebyg sydd â'r bwriad o roi pwysau gormodol ar gwsmeriaid. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys Deddf Arwerthwyr 1845, Deddf Arwerthiannau (Cytundebau Cynnig) 1969 a Deddf Ffug Arwerthiannau 1961;

g. dilysnodau a rhoi prawf ar farilau drylliau. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio dilysnodau a roddir ar eitemau a wnaed o fetel gwerthfawr. Pwrpas y prawf ar ddiogelwch barilau drylliau yw datgelu unrhyw ddiffyg neu wendid ac mae'n ofyniad statudol ar gyfer mân arfau o bob math.

173 Mae materion sy'n ymwneud â diogelwch gwasanaethau i ddefnyddwyr ac atebolrwydd amdanynt wedi'u cadw'n ôl.

174 Pwrpas yr eithriad i'r adran hon yw sicrhau bod y Cynulliad yn parhau â chymhwysedd mewn perthynas â diogelwch bwyd (yn cynnwys deunydd pacio a deunyddiau eraill sy'n dod i gysylltiad â bwyd) a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

175 Mae'r adran hon yn cadw'r rheoleiddio ar:

a) gweithgareddau asiant tai i'r graddau y mae'r gweithgareddau hynny'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf Asiantau Tai 1979. Nid yw'n gymwys i bethau a wneir yng nghwrs y proffesiwn

hwn gan gyfreithiwr wrth ei waith neu berson sydd wedi'i gyflogi gan asiant tai; nid yw ychwaith yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â gosod eiddo, gan fod hyn yn gyfrifoldeb datganoledig.

b) cyfrannau cyfnodol gan gynnwys y wybodaeth ofynnol y mae'n rhaid ei rhoi i ddefnyddwyr cyn gwneud contract, y cynnwys sy'n ofynnol mewn contractau ac ar gyfer dileu cytundebau heb gosb o fewn cyfnod callio.

c) teithio pecyn, gwyliau pecyn a chylchdeithiau pecyn, sy'n cynnwys gofynion o ran y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr mewn llawlyfrau ac fel arall, cynnwys a ffurf contractau, darpariaethau y mae'n rhaid i fasnachwyr eu gwneud i ddiogelu taliadau ymlaen llaw gan ddefnyddwyr, rhwymedigaethau eraill sydd ar fasnachwyr a throseddau cysylltiedig a hawliau sifil defnyddwyr.

176 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros ddiogelu pobl, boed yn ddefnyddwyr neu eraill sy'n cael nwyddau neu wasanaethau heb ofyn amdanynt a rhag cynlluniau masnachu (er enghraifft, gwerthu pyramidaidd) ac y darperir ar eu cyfer gan mwyaf yn Rhan 11 o Ddeddf Masnachu Teg 1973.

177 Ni ddylai'r cadw'n ôl ar reoleiddio cynlluniau masnachu mewn perthynas â materion diogelu defnyddwyr gael ei ddarllen fel pe bai'n cadw'r rheoleiddio ar gynlluniau masnachu mewn perthynas â materion sydd heb eu cadw'n ôl mewn mannau eraill yn y Bil.

178 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Rhan 8 o Ddeddf Menter 2002, sy'n ymwneud â gorfodi gwahanol ddeddfiadau ar gyfer defnyddwyr gydag ymgymeriadau a gorchmynion sifil.

**Adran C7 - Safonau cynhyrchion, diogelwch ac atebolrwydd**

179 Mae'r adran hon yn cwmpasu'r holl ddeddfwriaeth sy'n gosod rheolau mewn perthynas â:

- safonau cynhyrchion, a osodwyd o ganlyniad i rwymedigaeth yn yr UE;

- diogelwch cynhyrchion, ac atebolrwydd;

- gofynion ar gyfer labelu cynhyrchion;

y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw cyn y gellir rhoi cynnyrch ar y farchnad.

180 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros safonau technegol cynhyrchion a gofynion a osodwyd o ganlyniad i rwymedigaeth yng nghyfraith yr UE.

181 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer penodi cyrff achredu cenedlaethol, sy'n ardystio neu'n asesu cydymffurfiaeth â safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion neu systemau rheoli amgylcheddol.

182 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran diogelwch cynhyrchion ac atebolrwydd am gynhyrchion.

183 Mae'r eithriad i'r materion hyn a gedwir yn ôl yn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu deddfu mewn perthynas â bwyd (yn cynnwys diod), cynhyrchion bwyd a deunydd pacio a deunyddiau eraill sy'n dod i gysylltiad â bwyd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

**Adran C8 - Pwysau a mesurau**

184 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran unedau a safonau pwysau a mesurau.

185 Mae'r adran hon yn cadw'r rheoleiddio ar fasnach mewn perthynas â phwyso, mesur neu feintiau. Mae hyn yn cynnwys y pwnc yn Neddf Pwysau a Mesuriadau 1985. Mae cael un set o

reolau ar gyfer pwysau a mesuriadau yn ei gwneud yn haws i fusnesau fasnachu ledled Prydain Fawr ac yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau pan fo cynnyrch yn cael eu gwerthu yn ôl nifer.

**Adran C9 - Telathrebu a thelegraffi di-wifr**

186 Mae'r adran hon yn cadw pwerau sy'n rheoli telathrebu a thelegraffi di-wifr (yn cynnwys ymyrraeth electromagnetig fel ymyrraeth â signalau radio), gan ganiatáu dull cyson o weithredu ledled y DU gan gynnwys rheoleiddiwr cyffredin (Ofcom).

187 Mae'r adran hon yn cadw pwerau i wneud darpariaethau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau Rhyngrwyd, gan sicrhau bod yr un fframwaith wedi'i osod ledled y DU.

188 Mae'r adran hon yn cadw pwerau i wneud darpariaeth mewn perthynas ag amgryptio electronig gan sicrhau bod dull cyson o weithredu ledled y DU.

**Adran C10 - Post**

189 Mae'r adran hon yn cadw gwasanaethau post a swyddfeydd post, sy'n cynnwys pwnc Deddf Gwasanaethau Post 2011 a darpariaethau sy'n parhau yn Neddf Gwasanaethau Post 2000, i gefnogi gwasanaeth post cyffredinol y DU. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio'r post, cystadleuaeth, darparu gwasanaeth post y DU, enw a pherchnogaeth ar y cwmni sy'n rhedeg rhwydwaith swyddfeydd post y DU, a phwerau i ddarparu cymhorthdal cyhoeddus i'r cwmni hwnnw.

190 Mae'r eithriad yn caniatáu rhoddi cymorth ariannol ar gyfer darparu gwasanaethau o swyddfeydd post cyhoeddus (heblaw gwasanaethau post a gwasanaethau sy'n ymwneud ag arian neu archebion post).

**Adran C11 - Cynghorau Ymchwil**

191 Mae'r adran hon yn cadw Cynghorau Ymchwil, o fewn ystyr Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965. Mae hyn yn cynnwys ariannu ymchwil wyddonol yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf honno, i'r graddau y mae'n ymwneud â Chynghorau Ymchwil.

192 Mae'r adran hon yn cadw Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i'r celfyddydau a'r dyniaethau yn unol ag adran 10 o'r Ddeddf honno, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Cyngor Ymchwil hwnnw.

193 Mae'r materion a gedwir yn ymdrin â gallu Cynghorau Ymchwil i ddarparu grantiau a chymorth arall ar gyfer ymchwil ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfleusterau cenedlaethol i'w defnyddio gan holl ymchwilwyr y DU, ynghyd â negodi a thalu tanysgrifiadau i gyfleusterau rhyngwladol, sy'n helpu i gynnal rhagoriaeth cystadleuol rhyngwladol sylfaen ymchwil y DU. Mae'r diffiniad o Gynghorau Ymchwil yn cynnwys Innovate UK.

**Adran C12 - Datblygu diwydiannol**

194 Mae'r adran hon yn cadw gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi Ardaloedd a Gynorthwyir yn ogystal â'r terfynau ariannol a bennir yn adran 8(5) ac 8(7) o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. O ganlyniad i gadw'r mater sy'n ymwneud â'r terfynau ariannol, ni all cymorth ariannol a roddir i ddiwydiant o dan adran 8 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Gweinidogion y DU fod yn fwy gyda'i gilydd na throthwyon ar gyfer cyfanswm gwariant sy'n cael eu gosod gan Weinidogion y DU. Fodd bynnag, ni fyddai cadw adran 8(5) a (7) yn atal y Cynulliad rhag creu ei bwerau ei hun ar wahân ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymorth ariannol i ddiwydiant a

gosod y terfynau ariannol ar bwerau o'r fath, a fyddai'n gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

195 Mae'r adran hon yn cadw'r Bwrdd Cynghorol ar Ddatblygu Diwydiannol, sy'n gorff statudol y darparwyd ar ei gyfer o dan adran 10 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982.

196 Mae rôl statudol gan y Bwrdd Cynghorol ar Ddatblygu Diwydiannol, neu IDAB fel y'i gelwir fel arfer, ar gyfer cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 (darparu cymorth ariannol i ddiwydiant).

**Adran C13 - Diogelu buddiannau masnachu ac economaidd**

197 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Rhan 2 o Ddeddf Diwydiant 1975.

198 Mae Rhan 2 o Ddeddf Diwydiant 1975 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i atal rheolaeth ar "important manufacturing undertaking" yn y Deyrnas Unedig rhag cael ei rhoi i berson sy'n preswylio y tu allan i'r Deyrnas Unedig lle byddai newid rheolaeth o'r fath yn groes i fuddiannau penodedig y Deyrnas Unedig mewn perthynas â pholisi cyhoeddus, iechyd cyhoeddus neu ddiogelwch cyhoeddus (ac yn amodol ar gyfyngiadau eraill ar arfer y pwerau hyn). Mae pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu drwy wneud gorchymyn gwahardd ("prohibition order") neu orchymyn breinio ("vesting order"), y mae gweithdrefnau Seneddol yn gymwys iddynt.

199 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddf Diogelu Buddiannau Masnachu 1980. Mae'r Ddeddf hon yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wahardd, lle bo'n briodol, gosod sancsiynau masnach penodol a fabwysiadwyd gan wledydd eraill, ar bersonau yn y DU, lle byddai gweithredu'r mesurau hynny, yn ei farn ef, yn niweidio buddiannau economaidd y person hwnnw.

**Adran C14 - Cymorth mewn cysylltiad ag allforio nwyddau a gwasanaethau**

200 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer y swyddogaethau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu harfer drwy'r Adran Gwarantu Credydau Allforio; ac yn darparu ar gyfer dirprwyo unrhyw swyddogaethau o'r fath a throsglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwydd y gellir eu priodoli i'r arfer ar unrhyw swyddogaethau o'r fath.

**Adran C15 - Dŵr a charthffosiaeth**

201 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i benodi a rheoleiddio ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth y mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf o ardaloedd eu penodiad yn Lloegr. O dan adrannau 6 a 7 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, penodir ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer pob ardal yng Nghymru a Lloegr. Penodir rhai ymgymerwyr i ardaloedd sy'n croesi'r ffin genedlaethol rhwng Cymru a Lloegr. Gall y Cynulliad ddeddfu ar gyfer penodi a rheoleiddio ymgymerwyr y mae'r cyfan o ardaloedd eu penodiad o fewn Cymru. Yn rhinwedd adran 108A(2)(b) o DLlC 2006, mewn perthynas ag ymgymerwyr y mae ardaloedd eu penodiad yn rhannol yn Lloegr ond yn bennaf yng Nghymru, gall y Cynulliad ddeddfu ar gyfer penodi a rheoleiddio yn y rhannau o'r ardaloedd hynny sydd yng Nghymru'n unig.

202 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd o ran rheoleiddio a thrwyddedu trwyddedeion cyflenwi dŵr a charthffosiaeth. Mae eithriadau i'r mater hwn yn Adran C15 ar gyfer rheoleiddio trwyddedeion mewn perthynas â thrwyddedu gweithgareddau sy'n defnyddio systemau cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth ymgymerwyr y mae'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'u hardaloedd yng Nghymru. Mae trwyddedeion cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth yn cael eu trwyddedu i ddefnyddio systemau cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth ymgymerwyr er mwyn

darparu gwasanaethau. Gall y Cynulliad ddeddfu ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig trwyddedeion cyflenwi dŵr a charthffosiaeth sy'n defnyddio systemau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth ymgymerwyr y mae'r cyfan o ardaloedd eu penodiad o fewn Cymru. Mewn perthynas â thrwyddedeion sy'n defnyddio systemau cyflenwi dŵr neu garthffosiaeth ymgymerwyr y mae ardaloedd eu penodiad yn Lloegr yn rhannol ond yn bennaf yng Nghymru, gall y Cynulliad ddeddfu ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau'r trwyddedeion hynny yn y rhannau o'r ardaloedd hynny sydd yng Nghymru'n unig. Ni all y Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â thrwyddedu.

**Adran C16 - Dyfarnwr y Cod Tafarnau a'r Cod Tafarnau**

203 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Rhan 4 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 sy'n amlinellu'r canlynol:

- Cod Tafarnau statudol, sy'n rheoleiddio arferion a gweithdrefnau busnesau sy'n berchen ar dafarnau (sef landlordiaid sy'n berchen ar 500 neu ragor o dafarnau clwm) yn eu hymwneud â'u tenantiaid clwm yng Nghymru a Lloegr.

- Dyfarnwr annibynnol (a swyddfa) i gymrodeddu mewn anghydfodau o dan y Cod Tafarnau ac i ymchwilio i doriadau systemig ar y Cod gan fusnesau sy'n berchen ar dafarnau. Rhoddir pwerau penodol i'r Dyfarnwr, gan gynnwys pŵer i godi ardoll ar fusnesau sy'n berchen ar dafarnau a gosod sancsiynau arnynt ac i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r Cod Tafarnau.

**Adran C17 - Masnachu ar y Sul**

204 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran masnachu ar y Sul. Mae hyn yn cynnwys pwnc Deddf Masnachu ar y Sul 1994, sy'n cyfyngu oriau agor siopau mawr (y rheini sydd ag arwynebedd llawr perthnasol o fwy na 280 o fetrau sgwâr / 3,000 o droedfeddi sgwâr) i 6 awr olynol (rhwng 10am a 6pm) ar ddydd Sul yng Nghymru a Lloegr.

205 Nid yw'r mater hwn a gedwir yn ôl yn cynnwys hawliau optio allan ar gyfer gweithwyr siop mewn perthynas â gweithio ar y Sul sydd yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae'r hawliau hynny wedi'u cadw'n ôl ar wahân o dan 'H1 Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol'.

**Pennawd D - Ynni**

**Adran D1 - Trydan**

206 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran cynhyrchu, trosglwyddo, dosbarthu a chyflenwi trydan. Mae hyn yn cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio'r diwydiant trydan, gan gynnwys yn benodol lawer o bwnc Rhan 1 o Ddeddf Trydan 1989, sy'n darparu ynghylch trwyddedu a rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â thrydan gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan.

**Adran D2 - Olew a nwy**

207 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran olew a nwy a rheoleiddio diwydiant olew a nwy y DU. Heblaw am eithriadau sydd wedi'u datgan, mae hyn yn cynnwys holl bwerau a swyddogaethau Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r diwydiant olew a nwy cyn i'r Ddeddf ddod i rym, gan gynnwys:

a. perchnogaeth ar ddydodion olew a nwy naturiol, chwilio amdanynt a'u datblygu, Mae hyn yn ymdrin â phwnc Deddf Petrolewm 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig, sy'n rhoi perchnogaeth ar ddyddodion olew a nwy i'r Goron ac yn darparu ar gyfer system o drwyddedu personau i chwilio am ddydodion o'r fath a'u datblygu.

b. piblinellau a gweithfeydd yn y môr mawr. Mae hyn yn ymdrin â rheoleiddio piblinellau a

gweithfeydd ar y môr mawr, gan gynnwys adeiladu neu osod, a gadael gweithfeydd a phiblinellau ar y môr mawr, ac agweddau cynllunio, nad ydynt yn ymwneud â defnyddio ar dir, ar reoleiddio piblinellau ar dir. Ystyr gweithfeydd yn y môr mawr yw'r gweithfeydd hynny sy'n ymwneud ag olew a nwy sydd wedi'u lleoli ar ochr y môr i waelodlin mewnol y môr tiriogaethol.

c. trwyddedu morol i'r graddau y mae'n ymwneud â chwilio am ddyddodion olew a nwy ac elwa ohonynt. Mae hyn yn cynnwys trwyddedu gweithgareddau ar y môr i'r graddau y maent yn ymwneud â chwilio am ddyddodion olew a nwy ac elwa ohonynt mewn dyfroedd tiriogaethol. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn darparu mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ar y môr ar gyfer unrhyw beth a wneir yn ystod unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â chwilio am betrolewm neu ei gynhyrchu. Mae Deddf 2009 hefyd yn esemptio gweithgareddau penodol sy'n drwyddedadwy o dan Ddeddf Petrolewm 1998 rhag yr angen i gael trwydded forol. Ar wahân i'r mater hwn, nid yw'r amgylchedd morol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl ar y cyfan;

d. cyfyngiadau ar fordwyo, pysgota a gweithgareddau eraill i sicrhau bod gweithgareddau yn y môr mawr yn gweithredu'n ddiogel. Ystyr gweithgareddau yn y môr mawr yw'r gweithgareddau hynny sy'n ymwneud ag olew a nwy sydd wedi'u lleoli ar ochr y môr i waelodlin mewnol y môr tiriogaethol. Mae Rhan 3 o Ddeddf Petrolewm 1987 yn darparu ar gyfer parthau diogelwch lle cyfyngir ar fordwyo yng nghyffiniau gweithfeydd mewn dyfroedd tiriogaethol neu ar y Sgafell Gyfandirol;

e. hylifo ac ailnwyeiddio nwy; mae hyn yn cynnwys ailnwyeiddio Nwy Naturiol Hylifedig cyn ei storio neu ei drawsgludo i'r grid cenedlaethol a hylifo Nwy Naturiol i'w gludo neu ei storio.

f. cynhyrchu neu weithgynhyrchu nwy;

g. cludo nwy, ei gario ar long a'i gyflenwi. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, bwnc Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986, sy'n darparu ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â nwy gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan.

208 Nid oes cyfyngiad ym mharagraffau (e) i (g) i nwy naturiol yn unig. Effaith hyn yw y gall y paragraffau hyn fod yn gymwys i'r un graddau i nwy a weithgynhyrchwyd i wneud tanwydd, yn cynnwys bionwy (a wneir drwy drin deunydd planhigion neu wastraff mewn proses treulio anaerobig) neu biomethan (bionwy a broseswyd i'w chwistrellu i'r grid nwy).

209 Yr eithriadau i'r mater a gedwir yn ôl yw: rhoi a rheoleiddio trwyddedau i chwilio a thurio am betrolewm a'i gael ar y tir yng Nghymru, ac eithrio unrhyw swm sy'n daladwy am drwyddedau o'r fath; a mynediad i dir er mwyn chwilio neu durio am betrolewm neu ei gael o dan drwydded petrolewm ar dir.

**<u>Adran D3 - Glo</u>**

210 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran glo, gan gynnwys rheoleiddio diwydiant glo'r DU. Mae pwerau ar gyfer adfer tir wedi'u heithrio.

211 Mae cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol cyffredinol wedi'i gadw'n ôl mewn perthynas â diwydiant glo'r DU, gan gynnwys perchenogaeth ar gronfeydd glo wrth gefn, rheoleiddio cloddio am lo ar ddyfnder ac mewn glofeydd brig, ymsuddiant a gollwng dŵr mewn perthynas â glofeydd.

212 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cwmpasu'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â glo, gan gynnwys yn benodol berchenogaeth ac elwa, cloddio am lo ar ddyfnder ac mewn glofeydd brig, ymsuddiant a gollwng dŵr. Parheir i ddelio â pholisi ar ddiwydiant glo y DU ar sail y DU, drwy ymgynghori â Gweinidogion Cymru pan fo'n briodol. Mae materion gweithredol

sy’n ymwneud â chronfeydd glo wrth gefn a rhoi trwyddedau cloddio yn gyfrifoldeb i’r Awdurdod Glo, sy’n gorff ar gyfer Prydain Fawr ac yn cael cymorth grant gan Lywodraeth y DU.

213 Mae’r eithriadau i’r mater a gedwir yn ôl yn ymwneud â phwnc adrannau 53 a 54 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 sy’n trafod dyletswyddau amgylcheddol mewn perthynas â chymeradwyo ceisiadau cynllunio a rhwymedigaethau i adfer tir y mae gweithrediadau cloddio am lo wedi effeithio arno.

**Adran D4 - Ynni niwclear**

214 Mae’r adran hon yn cadw’r holl faterion sy’n ymwneud ag ynni niwclear a gweithfeydd niwclear gan gynnwys diogelwch niwclear, diogeledd a mesurau diogelwch niwclear ac atebolrwydd am ddigwyddiadau niwclear. Y meysydd sy’n dod o dan y mater a gedwir yn ôl yw datblygu, cynhyrchu a defnyddio ynni niwclear, trwyddedu safleoedd niwclear, diogelwch niwclear, atebolrwydd am ddigwyddiadau niwclear ac yswiriant mewn perthynas ag atebolrwydd o’r fath a mesurau diogelu niwclear sy’n ofynnol o dan gytuniadau rhyngwladol.

215 Mae’r adran hon yn cadw’r Swyddfa dros Reoli Niwclear (“ONR”) sy’n gorff statudol a sefydlwyd o dan adran 77, ac Atodlen 7, Deddf Ynni 2013. Yn rhinwedd paragraff 198 o Atodlen 7A, mae’r ONR yn awdurdod penodol fel y bo ei gyfansoddiad wedi’i gadw’n ôl. Mae’r cymhwysedd dros roddi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau ONR, neu swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas ag ef, wedi cael ei gadw.

**Adran D5 - Gwres ac aerdymheru**

Mae’r adran hon yn cadw'r cymhwysedd o ran cynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi gwres ac aerdymheru yn yr un modd ag y mae cynhyrchu, cyflenwi a dosbarthu trydan a nwy wedi’i cadw mewn rhannau eraill o’r Bil. Mae systemau gwres a phŵer cyfunedig (a elwir yn gyd-gynhyrchu) yn weithfeydd sy’n cynhyrchu pŵer trydanol yr un pryd a hefyd yn dal gwres i’w ddefnyddio. Mae rhwydweithiau gwres ac aerdymheru a chynlluniau cymhelliad gwres adnewyddadwy wedi’u diffinio yn y mater a gedwir, a byddent yn cynnwys, er enghraifft, rhwydweithiau gwres (gwresogi ardal), y cynllun Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig (CPH QA); yr Uned Cyflenwi Rhwydweithiau Gwres (HNDU); a’r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI).

**Adran D6 - Arbed ynni**

216 Mae’r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran arbed ynni. Mae hyn yn cynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni sy’n cael eu gweithredu drwy wahardd neu reoleiddio. Mae mesurau sydd heb eu rheoleiddio i hybu effeithlonrwydd ynni wedi cael eu datganoli. Mae’r adran hon hefyd yn cynnwys pwnc Deddf Ynni 1976. Mae Deddf 1976 yn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchmynion i reoleiddio neu wahardd y defnydd o wahanol danwyddau, neu drydan, os yw’n ymddangos bod hynny’n ddymunol er mwyn arbed ynni, ac i roi cyfarwyddiadau ar gyfer cadw stociau tanwydd.

217 Mae Deddf 1976 hefyd yn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchmynion i reoleiddio neu wahardd cynhyrchu, cyflenwi neu gaffael gwahanol danwyddau neu drydan tra bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor mewn grym. Gellir gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor pan fo angen y pwerau llawnach y mae’n eu caniatáu er mwyn cyflawni rhwymedigaeth ryngwladol neu ddelio ag argyfwng gwirioneddol neu fygythiad o argyfwng. Mae Deddf 1976 hefyd yn caniatáu esemptiadau rhag gofynion cyfreithiol penodol tra bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor mewn grym.

**Pennawd E - Trafnidiaeth**

**Adran E1 - Trafnidiaeth ffyrdd**

218 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd o ran gwasanaethau cludo nwyddau ar ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys trwyddedu gweithredwyr cerbydau nwyddau a'r comisiynwyr traffig (i'r graddau y maent yn rheoleiddio'r diwydiant cludo nwyddau).

219 Mae'r adran hon yn cadw'r rheoleiddio ar wneuthur a chyfarparu cerbydau modur ac ôl-gerbydau a'r rheoleiddio ar y defnydd o gerbydau modur ac ôl-gerbydau ar ffyrdd. Mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill, ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwneuthur a defnyddio cerbydau modur ac ôl-gerbydau yn ogystal â rheolau'r ffordd sy'n gymwys i gerbydau modur ac ôl-gerbydau gan gynnwys, ymysg pethau eraill, rheolau'r ffordd fawr, gwisgo gwregysau diogelwch a helmedau ar feiciau modur, llwytho cerbydau ac ôl-gerbydau a phwysau ar blatiau cerbydau.

220 Nid yw hyn yn cadw'r materion a ganlyn:

- agweddau datganoledig ar reoli a rheoleiddio traffig;

- gosod cyfyngiadau cyflymder;

- arwyddion traffig;

- croesfannau i gerddwyr.

221 Mae'r adran hon yn cadw troseddau traffig ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys:

-y troseddau eu hunain,

-y cosbau am y troseddau hynny

-system y pwyntiau cosb, anghymhwyso a chosbau eraill sy'n ymwneud â thraffig ffyrdd yn benodol;

-y gweithdrefnau llys a chosb benodedig penodol sy'n gymwys i droseddau traffig ffyrdd

Nid yw'r mater hwn a gedwir yn atal Gweinidogion Cymru rhag newid y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol nac arwyddion traffig ar ffyrdd yng Nghymru.

222 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran trwyddedu gyrwyr. Mae hyn yn cynnwys:

-cyfyngiadau meddygol;

-profion gyrru;

-hyfforddiant gyrru gorfodol (cyn ac ar ôl rhoi trwydded)

- tystysgrifau cymhwysedd proffesiynol (CPC) gyrwyr.

223 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran hyfforddiant gyrru. Mae hyn yn cadw pob agwedd ar reoleiddio hyfforddiant gyrru ar gyfer pob dosbarth o gerbydau modur.

224 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran oriau gyrwyr. Mae hyn yn cynnwys uchafswm yr oriau gyrru, isafswm y seibiannau gorffwys a'r defnydd o dacograffau ac offer eraill i fonitro cydymffurfiaeth.

225 Mae'r adran hon yn cadw pwerau dros reoleiddio traffig, heblaw terfynau cyflymder, arwyddion traffig neu groesfannau i gerddwyr ar ffyrdd arbennig. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â rheoleiddio traffig ar draffyrdd.

226 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i esemptio cerbydau rhag unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n gosod terfyn cyflymder. Mae hefyd yn cadw'n ôl y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch

hyfforddiant i yrwyr cerbydau sy'n teithio ar gyflymder mawr.

227 Mae'r mater a gedwir ym mharagraff 109 yn gysylltiedig â'r mater a gedwir mewn perthynas ag esemptiad rhag cyfyngiadau cyflymder ym mharagraff 108, ac mae'n cadw arwyddion traffig a chroesfannau i gerddwyr mewn perthynas â cherbydau a ddefnyddir i ddiben ag esemptiad cyflymder.

228 Mae'r adran hon yn cadw'r holl faterion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau trafnidiaeth ffyrdd rhyngwladol ar gyfer teithwyr a nwyddau.

229 Mae'r adran hon yn cadw cyfrifoldeb dros Drwyddedu Gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'n ofynnol bod gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (bysiau a choetsys) yn cael trwydded gweithredwr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau'r comisiynwyr traffig wrth reoleiddio'r diwydiant.

230 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran dogfennau sy'n ymwneud â cherbydau a gyrwyr at ddibenion teithio mewn gwledydd tramor ar gyfer defnydd preifat a masnachol o gerbydau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

a. hawlenni gyrru rhyngwladol,

b. trwyddedau amlochrog ar gyfer cludo ar y ffyrdd yr ECMT (Cynhadledd Ewrop Gweinidogion Trafnidiaeth),

c. hawlenni cludo nwyddau sydd wedi'u rhoi a'u cydnabod o dan gytuniadau dwyochrog.

231 Mae paragraff 113 yn cadw cymhwysedd dros reoleiddio a chofrestru cerbydau newydd ac ail-law ac yswiriant cerbydau modur.

232 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddf Pontydd Hafren 1992 i'r graddau y mae'n gymwys i ail groesfan Hafren, ac eithrio'r darpariaethau yn Neddf 1992 sy'n ymwneud ag adeiladu ail groesfan Hafren. Mae'r groesfan arall a grybwyllir yn Neddf 1992 wedi'i lleoli'n llwyr yn Lloegr felly mae wedi ei chadw yn rhinwedd adran 108A(2)(b) o DLlC.

**Adran E2 - Trafnidiaeth rheilffyrdd**

233 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros wasanaethau rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys darparu a rheoleiddio gwasanaethau rheilffyrdd a diogelwch rheilffyrdd.

234 Mae'r ddarpariaeth ar ddehongli o dan adran E2 yn diffinio "railway services" yn fwy penodol, drwy gyfeirio at adran 82 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993. Mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys:

- gwasanaethau mewn perthynas â chludo teithwyr, bagiau, parseli, post a nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â gorsafoedd,

- cyfleusterau cynnal, a

darparu a gweithredu'r rhwydwaith rheilffyrdd ei hun.

235 Fodd bynnag, nid yw'r ystyr ehangach i "railway" yn adran 81(2) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 wedi'i gynnwys yn y diffiniad. Mae hyn yn golygu bod tramffyrdd a systemau trafnidiaeth tywysedig wedi cael eu datganoli.

236 Mae'r pwnc sydd wedi'i restru o dan yr eithriad i adran E2 wedi'i ddatganoli hefyd, sef cymorth ariannol i'r graddau y mae'n ymwneud â gwasanaethau rheilffyrdd. Mae hyn yn golygu bod y Cynulliad yn gallu deddfu mewn perthynas â grantiau cyfalaf a refeniw ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â chludo teithwyr, gorsafoedd, cyfleusterau cynnal a'r rhwydwaith rheilffyrdd ei hun.

237 Fodd bynnag, mater sydd wedi'i ddyrannu o'r eithriad hwn ac sydd felly wedi'i gadw yw cymorth mewn cysylltiad â'r canlynol:

- cludo nwyddau,

- gorchymyn gweinyddu rheilffyrdd, sy'n cynnwys cymorth ariannol gan lywodraeth o dan adran 63 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 lle mae gorchmynion gweinyddu rheilffyrdd wedi'u gwneud, neu

- Reoliad (CE) Rhif 1370/2007 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wasanaethau cludo teithwyr cyhoeddus ar reilffyrdd a ffyrdd. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer digolledu gweithredwr gwasanaethau teithwyr y mae'n ofynnol iddo redeg gwasanaeth na fyddai'n fasnachol hyfyw.

238 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddf Twnnel y Sianel 1987 sy'n darparu ar gyfer adeiladu a gweithredu Twnnel y Sianel, ac ar gyfer rhedeg y gwasanaethau Gwennol a gwasanaethau eraill drwyddo, a diogelwch a diogeledd o fewn system y twnnel.

**Adran E3 - Trafnidiaeth forol a dyfrffyrdd etc.**

239 Mae'r adran hon yn cadw hawliau a rhyddidau mordwyol llongau (sef llestrau a ddefnyddir wrth fordwyo). Mae hawliau a rhyddidau mordwyol yn gymwys yn y môr (dan gyfraith ryngwladol arferol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr neu UNCLOS) ac mewn dyfroedd llanw a dyfroedd nad ydynt yn rhai llanw (dan y gyfraith gyffredin, defnydd cyn cof, deddfwriaeth neu roddiad neu gyflwyniad penodol). Mae ymyrryd â hawliau a rhyddidau mordwyol yn dod o dan y mater a gedwir, heblaw fod y cyfrifoldeb dros reoleiddio gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyo wedi cael ei gadw dim ond yn achos gwaith sydd ar gyfer neu sy'n ymwneud ag adeiladu porthladdoedd neu harbyrau ymddiriedolaeth a gedwir nad ydynt yn gyfan gwbl yng Nghymru.

240 Mae'r adran hon yn cadw morgludiant, a safonau diogelwch a thechnegol llestrau nad ydynt yn llongau (pa un a yw'r llestr yn gallu mordwyo neu beidio) gan gynnwys yr holl bynciau yn:

241 (a) adran 2 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, sy'n ymwneud â llongddrylliadau sy'n achosi perygl i longau a nofwyr tanddwr;

242 (b) Deddf Cychod a Llongau Peryglus 1985, sy'n ymwneud â chychod a llongau peryglus mewn harbyrau;

243 (c) Deddf Llongau Masnach 1995, sy'n cwmpasu amrywiaeth fawr o faterion sy'n ymwneud â morgludiant.

244 Mae'r mater a gedwir mewn perthynas â morgludiant yn gymwys i longau ar y môr neu mewn unrhyw ddyfrffordd arall. Mae'n cynnwys pob agwedd ar forgludiant, er enghraifft rheoleiddio llongau a gwasanaethau morgludiant, gan gynnwys llongau mewn harbyrau, cofrestru llongau, safonau technegol a diogelwch llongau, diogelwch tân ar longau, niwed i'r amgylchedd sydd wedi'i achosi gan longau, cludo nwyddau a theithwyr, cyflogi a chymryd ymlaen morwyr, yswiriant risgiau rhyfel, achub a llongddrylliadau, diogelu buddiannau morgludiant a masnachu, goleudai a chymhorthion mordwyo, gweithredu Confensiynau morol rhyngwladol, cyrff morol rhyngwladol a chymorth ariannol. O ran llestrau nad ydynt yn llongau, cedwir y safonau technegol a diogelwch.

245 Mae eithriad ar gyfer cymorth ariannol i wasanaethau morgludiant i Gymru, o Gymru neu oddi mewn i Gymru ac eithriad ar gyfer rheoleiddio cludiant anifeiliaid ar gychod a llongau er mwyn diogelu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd, gan adlewyrchu materion sydd wedi'u datganoli.

246 Mae'r adran hon yn cadw porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir, sydd wedi'u diffinio yng nghymal 32 o'r Bil, a harbyrau nad ydynt yn gyfan gwbl yng Nghymru. Mae'r mater a gedwir yn cynnwys datblygu, gweithredu, cynnal a chadw, a rheoli porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir a harbyrau nad ydynt yn gyfan gwbl yng Nghymru a'u hawdurdodau harbwr.

247 Mae'r adran hon yn cadw gwasanaethau peilot heblaw am wasanaethau peilot datganoledig. Y diffiniad o wasanaeth peilot datganoledig yw gwasanaeth peilot sy'n ymwneud â harbwr sy'n gyfan gwbl yng Nghymru heblaw am borthladd ymddiriedolaeth a gedwir ac sy'n cael ei ddarparu mewn awdurdodaeth peilotiaeth o dan adran 2(1) o Ddeddf Peilotiaeth 1987 nad yw'n ymestyn y tu hwnt i Gymru. Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys pwnc Deddf Peilotiaeth 1987 (heblaw mewn cysylltiad â gwasanaethau peilot datganoledig).

248 Mae'r adran hon yn cadw gwasanaethau gwylwyr y glannau a gwasanaethau chwilio ac achub morol ac eithrio'r pwnc yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

249 Mae gwasanaethau chwilio ac achub morol yn ofynnol o dan Gonfensiynau morol rhyngwladol ac yn cael eu cychwyn a'u cydgysylltu gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), asiantaeth weithredol i'r Adran Drafnidiaeth. Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn galluogi awdurdodau tân ac achub i ddarparu gwasanaethau chwilio ac achub ac, o dan adran 20, mae awdurdod tân ac achub sydd â phŵer i weithredu y tu allan i ardal yr awdurdod yn gallu arfer y pŵer ar y môr neu dan y môr. Mae darparu gwasanaethau chwilio ac achub morol wedi'i gadw ac eithrio bod eu darparu gan awdurdodau tân ac achub dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'i ddatganoli gan yr eithriad.

250 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros hofrenfadau. Nid yw hofrenfadau'n llongau a gellir eu gweithredu dros y tir yn ogystal â dŵr. Mae Deddf Hofrenfadau 1968 yn caniatáu rheoleiddio hofrenfadau o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â llongau, awyrennau, cerbydau modur neu fathau eraill o drafnidiaeth. Yn ymarferol, mae hofrenfadau'n cael eu rheoleiddio fel pe baent yn llongau. Mae deddfwriaeth morgludiant, er enghraifft, deddfwriaeth yn ymwneud ag amodau gweithio morwyr, niwed a diogelwch amgylcheddol, yn cael ei chymhwyso'n gyffredinol at hofrenfadau. Mae'r mater a gedwir yn cynnwys hofrenfadau pa un a ydynt yn gweithredu dros ddŵr neu dros dir.

**Adran E4 - Trafnidiaeth awyr**

Mae'r mater a gedwir yn ymwneud ag awyrennau, cludiant awyr, meysydd awyr a meysydd glanio. Mae hyn yn cynnwys darparu a rheoleiddio gwasanaethau hedfan a diogelwch awyrennau, trwyddedu, pwerau i osod rheolaethau sŵn mewn meysydd awyr, y trefniadau ar gyfer digolledu teithwyr a'u dychwelyd i'w gwlad eu hunain wedi i weithredwr fynd yn fethdalwr a rheoleiddio economaidd ar hedfan. Mae'r mater a gedwir yn sicrhau bod deddfwriaeth ryngwladol yn cael ei gweithredu'n gyson ledled y Deyrnas Unedig gan y rheoleiddiwr dynodedig a hefyd yn cadw cyffredinedd ar safonau a manylebau ledled Prydain Fawr/y Deyrnas Unedig. Mae tair eithriad iddo, sy'n adlewyrchu'r eithriadau yn DLlC.

(a).

**Adran E5 – Diogeledd trafnidiaeth**

251 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddiogeledd trafnidiaeth mewn perthynas â materion trafnidiaeth. Mae hyn yn golygu bod diogeledd trafnidiaeth ffyrdd, diogeledd trafnidiaeth rheilffyrdd, diogeledd ar y môr (gan gynnwys diogeledd mewn porthladdoedd a harbyrau), a diogeledd awyrennau i gyd yn faterion a gedwir.

252 Mae'r eithriad i adran E5 yn darparu bod rheoleiddio diogeledd trafnidiaeth mewn perthynas â chludo oedolion sy'n goruchwylio personau sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i'r mannau y maent yn cael addysg neu hyfforddiant, yn fater datganoledig. Mae hyn yn ei gwneud yn glir bod

diogeledd personau o’r fath yn fater addysg datganoledig ac nid yn fater trafnidiaeth a gedwir.

**Adran E6 – Materion eraill**

253 Mae’r adran hon yn cadw manylebau technegol ar gyfer trafnidiaeth teithwyr gyhoeddus i bersonau anabl gan gynnwys pwnc adran 125(7) a (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 a Rhan 12 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae adran 125(7) ac (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 gyda’i gilydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Trafnidiaeth Pobl Anabl cyn cyhoeddi cyfarwyddyd ar y mesurau gyda’r bwriad o wneud mynediad at wasanaethau cludiant cyhoeddus ar y ffordd yn haws i bobl anabl a gwneud cludiant o’r fath yn fwy addas i anghenion pobl anabl. Mae Rhan 12 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â safonau hygyrchedd ar gyfer cludo pobl anabl mewn tacsi, bws neu drên, ac mae’n nodi mesurau i’w gwneud yn ofynnol i fabwysiadu safonau o'r fath gan y gweithredwyr perthnasol.

254 Mae’r adran hon yn cadw’r cymhwysedd dros reoleiddio manylebau technegol ar gyfer tanwydd neu ffynonellau neu brosesau ynni eraill a ddefnyddir mewn trafnidiaeth ar ffyrdd, rheilffyrdd, ar fôr, ar ddyfrffyrdd a thrafnidiaeth awyr. Mae hyn yn ymdrin ag unrhyw fanyleb dechnegol a nodir yn y gyfraith ddomestig, Ewropeaidd neu ryngwladol ar gyfer tanwydd neu ffynonellau ynni eraill neu brosesau a ddefnyddir ymhob dull cludo.

255 Mae’r adran hon yn cadw cymhwysedd dros reoleiddio cludiant nwyddau peryglus (yn cynnwys cludo deunydd ymbelydrol).

**Pennawd F – Nawdd Cymdeithasol, Cynnal Plant, Pensiynau a Digolledu**

**Adran F1 – Cynlluniau nawdd cymdeithasol**

256 Mae’r adran hon yn cadw cynlluniau sy’n cael eu cynnal gan gronfeydd cyhoeddus canolog neu leol sy’n darparu cymorth ariannol at ddibenion nawdd cymdeithasol i unigolion neu mewn perthynas â nhw. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy’n gymwys mewn gwahanol ffyrdd sydd wedi’u disgrifio yn y rhestr anghyflawn yn y paragraff dehongli.

257 Mae’r mater a gedwir yn ôl yn ymwneud â budd-daliadau nawdd cymdeithasol, pensiynau’r wladwriaeth, lwfansau, grantiau, benthyciadau ac unrhyw fath arall o gymorth ariannol (fel taliadau o’r Gronfa Gymdeithasol, credyd pensiwn, credyd cynhwysol a budd-daliadau anabledd) sy’n cael eu gweinyddu’n uniongyrchol a’u hariannu gan lywodraeth ganolog neu leol, yn llwyr neu’n rhannol.

258 Mae’r mater a gedwir yn ôl hefyd yn cwmpasu cynlluniau digolledu, gan gynnwys cynlluniau cyfandaliadau, sy’n gwneud taliadau oherwydd damwain, anaf neu afiechyd.

259 Mae’r mater a gedwir hefyd yn cynnwys pob agwedd ar sefydlu, ariannu a gweinyddu budd-daliadau o’r fath a gweithgarwch sy’n gysylltiedig â nhw (fel penderfynu, apelau a gweithgarwch gwrth-dwyll). Nid yw’r ffaith bod y mater wedi’i gadw’n ôl yn atal Gweinidogion Cymru rhag darparu budd-daliadau neu lwfansau at ddibenion eraill sydd o fewn ei chymhwysedd, fel grantiau cynhaliaeth addysg neu lwfansau maethu, cymorth ariannol i ymorol am gostau gofal plant, neu gynlluniau i ostwng y dreth gyngor sydd wedi’u caniatáu o dan bwerau gweithredol a roddwyd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

260 Mae’r eithriad yn esemptio maes datganoledig lles cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, gofal a chymorth i’r graddau bod y mater a gedwir yn ôl yn ymwneud â chymorth ariannol. Felly, mae’r eithriad yn gyfyngedig i ddarparu cymorth gan awdurdod lleol mewn perthynas â chostau gofal neu gymorth y byddai’r awdurdod lleol yn eu darparu fel arall drwy wasanaethau.

261 Mae’r adran hon yn cadw pwerau i’w gwneud yn ofynnol i bersonau heblaw llywodraeth

ganolog (yn cynnwys cwmnïau, cyflogwyr ac awdurdodau lleol neu awdurdodau eraill) sefydlu a gweinyddu cynlluniau at ddibenion nawdd cymdeithasol, gwneud taliadau i'r cynlluniau hynny neu mewn perthynas â nhw, a chadw cofnodion a darparu gwybodaeth mewn cysylltiad â'r cynlluniau ac mewn cysylltiad ag unrhyw daliadau a wnaed.

262 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys taliadau a gweithgareddau sy'n ymwneud ag Yswiriant Gwladol, fel y gofyniad i unigolion dalu ac i gyflogwyr gasglu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hefyd yn cwmpasu mathau eraill o ddarpariaeth nawdd cymdeithasol sy'n gweithredu drwy'r gofynion i gyflogwyr ac eraill wneud taliadau'n unol â fframwaith rheoleiddio (fel tâl salwch statudol a thâl mamolaeth statudol) yn hytrach na'u gwneud yn uniongyrchol gan lywodraeth ganolog neu leol.

**Adran F2 – Cynnal Plant**

263 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddfau Cynnal Plant 1991 a 1995 fel y'u diwygiwyd ac unrhyw ddeddfwriaeth bellach yn y maes hwn sy'n ymwneud â buddiant y wladwriaeth mewn rhwymedigaethau rhieni i gynnal eu plant a'i phŵer i gadarnhau neu dybio tadolaeth. Un o ddarpariaethau'r Deddfau Cynnal Plant yw dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a oes atebolrwydd i dalu cynhaliaeth mewn perthynas â phlentyn nad yw'n byw gyda'r ddau riant, i asesu a chasglu unrhyw symiau sy'n ddyledus ac i orfodi eu talu. Mae'r mater a gedwir hefyd yn cwmpasu deddfwriaeth ynghylch awdurdodaeth a phwerau'r llysoedd i wneud penderfyniadau unigol ar gynhaliaeth plant.

264 Mae'r adran hon yn cadw adran 30(1) a (2) o Ddeddf Cynnal Plant 1991.

265 Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gasglu taliadau cyfnodol heblaw taliadau cynnal plant (er enghraifft, taliadau a wneir o dan orchymyn i dalu am gostau addysg neu hyfforddiant; i gwrdd â chostau y gellir eu priodoli i anabledd; neu daliadau cynhaliaeth ychwanegol sy'n briodol mewn achosion lle mae incwm uchel), sy'n daladwy er lles y plentyn neu unrhyw berson arall.

**Adran F3 – Pensiynau Galwedigaethol a Phersonol**

266 Mae'r adran hon yn cynnwys yr holl faterion a darpariaethau statudol sy'n ymwneud â phensiynau galwedigaethol a phersonol, gan gynnwys pensiynau gwasanaeth cyhoeddus sy'n gategori penodol mewn pensiynau galwedigaethol.

267 Rhoddir i gynlluniau pensiwn yn y categorïau hyn yr ystyron sydd iddynt yn adran 1 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993.

268 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys rheoleiddio pensiynau a chynlluniau pensiwn, sydd wedi'u diffinio ymhellach yn y paragraff dehongli; mae'r rheini sy'n cael eu rheoleiddio'n ffurfio rhestr anghyflawn sy'n cynnwys ymddiriedolwyr, rheolwyr, cyflogwyr ac aelodau. Rheoleiddir gweithgareddau'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (a/neu unrhyw gorff rheoleiddio arall a sefydlir) a'r fframwaith statudol ar gyfer pensiynau. Mae'r fframwaith hwnnw'n cynnwys gofynion sy'n effeithio ar weinyddiad cynlluniau, y rheolaeth ariannol ar gynlluniau, yn cynnwys rheolau ar fuddsoddi, cyfrannu a solfedd, a hawliau aelodau unigol o gynlluniau mewn perthynas â throsglwyddo buddion a'u derbyn, mynegrifo hawliau, gofynion am drin dynion a menywod yn gyfartal, a rheolau ar ddatgelu gwybodaeth i aelodau cynlluniau.

269 Mae'r eithriad yn ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad i wneud darpariaeth ar gyfer talu pensiynau a sefydlu a gweinyddu cynlluniau mewn perthynas ag Aelodau Cynulliad, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, o dan adrannau 20 a 53 o DLlC ac aelodau o awdurdodau lleol, sydd wedi'i ddiffinio ymhellach yn y paragraff dehongli.

270 Yn yr holl achosion hyn, bydd y ddarpariaeth yn parhau'n ostyngedig i'r gofynion cyffredinol mewn deddfwriaeth ar bensiynau ac i'r corff rheoleiddio perthnasol. Mae'r diffiniad o bensiynau'n cwmpasu arian rhodd a lwfansau. Mae'r cyfeiriad at ddiogelu pensiynau'n cynnwys trefniadau i ddarparu rhywfaint o ddiogelwch (yn cynnwys taliadau a digollediadau) i aelodau rhag ofn na fydd cynlluniau'n gallu cyflawni eu rhwymedigaethau, fel y Gronfa Diogelu Pensiynau a'r Cynllun Cymorth Ariannol, ac unrhyw gorff neu gynllun arall a sefydlir i ddiogelu pensiynau aelodau.

**<u>Adran F4 – Digolledu yn y sector cyhoeddus</u>**

271 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros ddigolledu yn y sector cyhoeddus, boed ar ffurf cynllun digolledu neu fel rhan o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys taliadau a wneir i weithwyr sector cyhoeddus o ganlyniad i analluogrwydd neu farwolaeth o ganlyniad i anaf neu salwch a thaliadau a wneir i weithwyr sector cyhoeddus o ganlyniad i adael cyflogaeth neu swydd. Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys rheoleiddio taliadau a wneir o ganlyniad i adael swydd neu gyflogaeth.

272 Gwneir eithriad mewn perthynas â thaliadau i Aelodau Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Weinidogion Cymru, aelodau awdurdodau lleol (yn cynnwys aelodau Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parc Cenedlaethol a byrddau cadwraeth ar gyfer ardal o harddwch naturiol eithriadol).

**<u>Adran F5 – Digolledu yn y lluoedd arfog etc.</u>**

273 Mae'r adran hon yn cwmpasu taliadau digolledu, lwfansau a budd-daliadau eraill a ddarperir i aelodau presennol a blaenorol y Lluoedd Arfog (rhai parhaol a rhai wrth gefn), eu priod, partneriaid sifil a dibynyddion penodol eraill, a sifiliaid sydd â hawliau o dan gynlluniau y darparwyd ar eu cyfer mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu'r Cyngor Amddiffyn o dan bwerau statudol neu uchelfreiniol.

274 Mae taliadau o dan y gwahanol gynlluniau pensiwn galwedigaethol i'r Lluoedd Arfog wedi'u cynnwys o dan y mater a gedwir yn ôl yn adran F3 (pensiynau galwedigaethol a phersonol).

275 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cynnwys penderfynu ar hawliadau, darparu a gweinyddu digollediad, pensiynau rhyfel a budd-daliadau ategol, a sefydlu a rheoleiddio cyrff cyhoeddus, yn cynnwys tribiwnlysoedd a chyrff cynghorol a gweithredol sydd â swyddogaethau cysylltiedig.

276 Gwneir taliadau digolledu mewn perthynas â salwch, anaf, anabledd a marwolaeth personél gwasanaeth, personél gwasanaeth blaenorol ac ystod ehangach o bersonél ategol ac wrth gefn a phersonél eraill, yn cynnwys (mewn amgylchiadau penodol) sifiliaid. Gyda golwg ar y prif gynllun ar gyfer talu digollediadau o ganlyniad i wasanaeth yn y lluoedd arfog cyn 6 Ebrill 2005, mae hwn wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Pensiynau Gwasanaeth y Lluoedd Morol, Milwrol ac Awyr Etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006. Mae hawl yn codi pan fydd anabledd neu farwolaeth aelod o'r lluoedd arfog yn digwydd neu'n codi yn ystod y cyfnod hwn.

277 Lle'r oedd anaf neu salwch wedi'i achosi neu ei waethygu gan, neu farwolaeth wedi'i hachosi gan, wasanaeth yn y lluoedd arfog ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005, mae digollediad yn daladwy ar hyn o bryd o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011. Mae cyfandaliadau digolledu'n daladwy yn ogystal â thaliadau rheolaidd ychwanegol am anafiadau mwy difrifol a marwolaeth.

278 Ymhlith y buddion digolledu eraill sy'n cael eu cadw o dan y mater hwn mae grantiau adsefydlu, cynlluniau diswyddo, taliadau fel y rheini a wneir o dan Reoliadau Cynllun Taliadau Ymadael Cynnar y Lluoedd Arfog 2014 a Gorchymyn Cynllun Taliadau Ymadael

Cynnar y Lluoedd Arfog 2005 a thaliadau i helpu personél gwasanaeth a phersonél gwasanaeth blaenorol i ymgymryd â hyfforddiant neu addysg ychwanegol fel y rheini a delir o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog (Cynllun Credydau Dysgu Uwch a Chynllun Ymrwymiad Addysg Uwch) 2012.

279 Mae ail ben y mater a gedwir yn ôl yn adlewyrchu ail ben F4 (digolledu yn y sector cyhoeddus) er mwyn sicrhau bod rheoleiddio'r cynlluniau digolledu wedi'i gadw.

280 Mae trydydd pen y mater a gedwir yn ôl yn adlewyrchu'r pwnc mewn nifer o gynlluniau penodol a wnaed o dan y deddfiadau canlynol sy'n rhoi'r gallu i wneud darpariaeth heblaw ar gyfer neu mewn perthynas ag aelodau o'r lluoedd arfog. sef:

(a) Deddf Anafiadau Personol (Darpariaethau Brys) 1939. Mae Deddf 1939 yn darparu ar gyfer cynllun i wneud taliadau mewn perthynas ag anafiadau personol penodol a gafodd gwirfoddolwyr amddiffyn sifil a sifiliaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd;

(b) Deddf Pensiynau (y Llynges, y Fyddin, y Llu Awyr a Mercantilaidd Morol) 1939, adrannau 3 i 5 a 7. Mae adran 3 yn darparu ar gyfer talu dyfarndaliadau i neu mewn perthynas â morwyr mewn llongau Prydeinig a gafodd anaf cysylltiedig â rhyfel neu eu cadw'n gaeth. Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer peilotiaid, criwiau cychod peilotiaid, goleudai etc., ac adran 5 ar gyfer personau penodol sy'n gwasanaethu ar longau'r llynges, ac adran 7 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer y cynlluniau hyn;

(c ) Deddf Adsefydlu Pwyliaid 1947. Mae Deddf 1947 yn darparu ar gyfer rhoddi pensiynau rhyfel a thaliadau a chymorth arall i luoedd arfog a morol Pwylaidd a oedd o dan reolaeth Brydeinig yn ystod yr Ail Ryfel Byd a lluoedd adsefydlu Pwylaidd a'u dibynyddion.

**<u>Pennawd G - Proffesiynau</u>**

**<u>Adran G1 - Penseiri, archwilwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a milfeddygon</u>**

281 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros reoleiddio pedwar categori o weithwyr proffesiynol.

(a) Penseiri.

282 Darperir ar gyfer cadw'r cymhwysedd dros reoleiddio proffesiwn pensaer yn Neddf Penseiri 1997, sy'n gymwys i'r DU gyfan.

283 Mae'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'n gorwedd gyda'r Bwrdd Cofrestru Penseiri, sef corff statudol, ac mae'n cynnwys yn benodol gynnal a chadw'r gofrestr, cymwysterau proffesiynol, a rheolaeth dros safonau cymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol.

(b) Archwilwyr

284 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cadw'r cymhwysedd dros reoleiddio proffesiwn yr archwilwyr yn cynnwys yn benodol gymwysterau proffesiynol, cymhwystra i ymarfer a rheolaeth dros safonau cymhwysedd proffesiynol ac ymddygiad.

(c) Proffesiynau Iechyd

285 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cadw'r rheoleiddio ar weithwyr iechyd proffesiynol yn cynnwys y rheini sydd wedi'u diffinio yn yr adran dehongli o dan wyth prif ddeddfiad sy'n gymwys i'r DU gyfan neu i Brydain Fawr ac unrhyw broffesiwn arall sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion.

286 Mae wyth corff statudol annibynnol yn gyfrifol am reoleiddio'r proffesiynau hyn. Y rhain yw'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol

Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

287 Amcan cyffredin y cyrff rheoleiddio hyn wrth arfer eu swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd.

288 Y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y set hon o ddeddfiadau yw: meddygon, deintyddion, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig, nyrsys, bydwragedd, ceiropractegwyr, osteopathiaid, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, optegwyr, optometryddion, optegwyr cyflenwi, therapyddion celf, gwyddonwyr biomeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, deietegwyr, cyflenwyr cymhorthion clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptyddion, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicoleg, prosthetyddion/orthotyddion, radiograffwyr a therapyddion iaith a lleferydd. Mae paragraff (b) o'r cymal dehongli yn ymdrin ag unrhyw grŵp o ymarferwyr sydd heb eto fod yn destun rheoleiddiad statudol penodol, gan gadw felly broffesiynau iechyd a allai fod angen rheoleiddiad o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddai'r mater hwn a gedwir yn atal y Cynulliad rhag rheoleiddio, am resymau iechyd y cyhoedd, ymarferwyr a busnesau (fel tatŵyr a thyllwyr cyrff) nad yw eu gwasanaethau'n cael eu darparu am resymau'n ymwneud ag iechyd, ac nad ydynt felly'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion.

289 Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn Lloegr yn unig yn cael eu rheoleiddio o dan y fframwaith deddfwriaethol hwn hefyd. Nid yw gwaith cymdeithasol yng Nghymru'n cael ei reoli gan yr un set o ddeddfiadau ac mae'n eithriad i'r mater a gedwir. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn broffesiwn a reoleiddir yng Nghymru, ond nid yn Lloegr, ac felly maent hwythau hefyd yn eithriad i'r mater a gedwir.

290 Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd yn rheoleiddio myfyrwyr optometreg ac opteg cyflenwi.

291 Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol hefyd yn arfer cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoleiddio busnesau a mangreoedd sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol, optegol neu fferyllol.

(d) Milfeddygon

292 Mae'r rheoleiddio ar broffesiwn y milfeddygon wedi'i gadw'n ôl heb eithriad.

**<u>Pennawd H - Cyflogaeth</u>**

**<u>Adran H1 – Cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol</u>**

293 Mae'r adran hon yn cadw hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, ac eithrio ar gyfer gosod cyflogau ar gyfer gweithwyr amaethyddol i'r graddau y mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn ymwneud â hyn.

294 Mae'r adran hon yn cadw hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, gan gynnwys pynciau'r canlynol:

a. Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yswirio rhag atebolrwydd am anaf neu afiechyd y mae cyflogeion yn eu cael ac sy'n codi o ganlyniad i ac yng nghwrs eu cyflogaeth;

b. Deddf Asiantaethau Cyflogaeth 1973 sy'n rheoleiddio asiantaethau cyflogaeth a busnesau cyflogaeth;

c. Deddf Niwmoconiosis etc. (Digolledu Gweithwyr) 1979 sy'n darparu ar gyfer talu cyfandaliadau gan y Wladwriaeth i neu mewn perthynas â phersonau sydd wedi cael eu gwneud yn anabl gan afiechydon ysgyfaint diwydiannol a achoswyd gan wahanol fathau o

lwch niweidiol yn y gwaith;

d. Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Mae'r Ddeddf hon yn cwmpasu amrywiaeth fawr o faterion sy'n ymwneud â chysylltiadau llafur ar y cyd gan gynnwys undebau llafur, cymdeithasau cyflogwyr, cysylltiadau diwydiannol a gweithredu diwydiannol;

e. Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth;

f. Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae'r Ddeddf hon yn cydgrynhoi deddfiadau ynghylch hawliau cyflogaeth gan gynnwys diogelu cyflogau, hawliau mamolaeth, diswyddo annheg a dileu swyddi;

g. Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer gosod isafswm cyflog ym mron pob sector cyflogaeth;

h. Rheoliadau Oriau Gwaith 1998. Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu agweddau ar Gyfarwyddebau'r UE ar oriau gwaith: mewn perthynas â diogelu pobl ifanc yn y gwaith; gwyliau blynyddol, seibiannau, a chyfnodau gorffwys; mesurau i ddiogelu gweithwyr nos; a rheolau ar gyfer wythnos waith hwyaf o 48 awr gan gynnwys hawl yr unigolyn i optio allan;

i. Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999. Roedd y Ddeddf hon wedi cyflwyno newidiadau mewn deddfwriaeth undebau llafur a gweithredu diwydiannol gan gynnwys cydnabod a datgydnabod undebau llafur gan gyflogwyr. Roedd hefyd yn cyflwyno hawliau newydd a newidiadau mewn gwahanol hawliau cyflogaeth gan gynnwys hawliau cyflogaeth cysylltiedig â'r teulu a hawliau newydd i weithwyr gael rhywun gyda nhw mewn gwrandawiadau penodol;

j. Rheoliadau Gwybodaeth Drawswladol ac Ymgynghori â Chyflogeion 1999. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynrychioli hawliau cyflogeion y DU gan Gyngor Gwaith Ewropeaidd;

k. Deddf Cyflogaeth 2002. Mae'r Ddeddf hon yn cyflwyno hawliau cyflogaeth newydd i unigolion a/neu'n diwygio rhai presennol mewn perthynas â thadolaeth, absenoldeb mabwysiadu a thâl mamolaeth, gweithio hyblyg a gwaith cyfnod penodol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd cyflogaeth a datrys anghydfodau rhwng cyflogwyr a chyflogeion;

l. Deddf Meistri Gangiau (Trwyddedu) 2004, a sefydlodd yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau sy'n rheoleiddio darparwyr llafur, asiantaethau cyflogaeth a busnesau sy'n darparu gweithwyr ('meistri gangiau') yn y sectorau a reoleiddir ym mhob man yn y DU, yn cynnwys gwely'r môr, y glannau, ac unrhyw aber neu afon lanw sy'n gyfagos i'r DU. Roedd hefyd yn creu troseddau mewn perthynas â gweithredu fel meistr gang heb ei drwyddedu a defnyddio meistr gang heb ei drwyddedu;

m. Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 2004. Roedd y Ddeddf hon wedi gwneud newidiadau pellach mewn cyfraith sy'n ymwneud â gweithredu diwydiannol a chydnabod undebau llafur. Roedd hefyd wedi gwneud newidiadau yn y gweithdrefnau gorfodi sy'n ymwneud â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Amaethyddol;

n. Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006. Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch hawliau statudol i gael gwyliau a thâl mewn cysylltiad â geni neu fabwysiadu plant; ymestyn yr hawl i wneud cais am weithio hyblyg; newidiadau mewn hawliau i gael gwyliau blynyddol; a chodiadau yn uchafswm y tâl wythnosol ar gyfer cyfrifo rhwymedïau penodol mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth;

o. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 sy'n darparu ar gyfer diogelu hawliau cyflogeion wrth drosglwyddo ymgymeriad, er enghraifft, wrth werthu neu waredu busnes;

p. Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gweithwyr asiantaeth yn elwa o hawliau cyfartal o ran amodau gwaith a chyflogaeth sylfaenol;

q. Mae Rhan 2 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 wedi gwneud newidiadau ym mhroses y tribiwnlysoedd cyflogaeth gan gynnwys darparu ar gyfer cytuno ar anghydfodau heb yr angen am benderfyniad mewn tribiwnlys a chosbau ariannol am dorri rheoliadau gan gyflogwyr. Roedd hefyd yn cyflwyno mwy o amddiffyniad i chwythwyr chwiban.

295 Mae pwnc Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 wedi'i eithrio o'r mater a gedwir. Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth i Gymru sydd â phŵer i bennu isafswm cyflog, hawliau o ran gwyliau a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Ar wahân i'r eithriad hwn ar gyfer cyflogau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru, bydd materion sy'n ymwneud â chyflogau'n cael eu cadw. Felly, er enghraifft, nid yw'r Cynulliad yn gallu deddfu i osod isafswm cyflog cenedlaethol.

**<u>Adran H2 – Byrddau hyfforddi diwydiannol</u>**

296 Mae Deddf Hyfforddi Diwydiannol 1982 yn darparu ar gyfer sefydlu Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol (BHD), a phwerau BHD i osod ardoll statudol, y mae'r telerau ar ei chyfer wedi'u nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Mae'r adran hon yn cadw'r tri BHD sy'n bodoli ar hyn o bryd, sef Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Ffilm, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu neu Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianneg.

**<u>Adran H3 – Chwilio am swyddi a chymorth</u>**

297 Mae'r mater a gedwir yn yr adran hon yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i helpu pobl i ddewis, hyfforddi ar gyfer, cael a chadw cyflogaeth neu i helpu pobl i gael cyflogeion addas, gan gynnwys cymorth o'r fath ar gyfer pobl anabl. Y bwriad wrth gadw'r mater hwn yw cadw cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r holl raglenni cysylltiedig â gwaith y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol amdanynt o dan Ddeddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1944 ac adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 (e.e. Mynediad i Waith a Dewis Gwaith). O dan Ddeddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1944, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud trefniadau i helpu pobl anabl i gael cyflogaeth neu waith ar eu liwt eu hunain ac i hyfforddi ar gyfer cyflogaeth o'r fath.

298 Yr hyn sydd wedi'i eithrio o'r mater a gedwir yw cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â hyfforddiant galwedigaethol, materion yn ymwneud â gwasanaethau gyrfaoedd ac addysg yn gyffredinol. Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) yn ymestyn swyddogaethau gweithredol cydredol mewn perthynas â Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973, ac eithrio adrannau 2,4, 5 ac 11. Gellir arfer y rhain gan Weinidogion Cymru yn gydredol â Gweinidogion y Goron, gan fod y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Cynulliad wedi'u trosi'n swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru drwy weithredu paragraff 30 o Atodlen 11 i DLlC 2006. Fodd bynnag, nid yw'r swyddogaethau y gellir eu harfer gan y Cynulliad o dan adran 2 yn cynnwys y swyddogaeth o wneud trefniadau i'r prif ddiben o helpu pawb o'r rheini (yn hytrach na rhan benodol o boblogaeth Cymru) sydd heb waith i ddod o hyd i gyflogaeth a helpu cyflogwyr i lenwi swyddi gwag, neu unrhyw swyddogaeth sy'n ategu'r swyddogaeth honno. Yn ogystal â hyn, gellir arfer y swyddogaethau o dan adran 2, 5(3) a 11(1) (sydd wedi'u diddymu bellach) gan y Cynulliad yn rhydd o'r gofyniad am gymeradwyaeth gan y Trysorlys a gellir arfer y swyddogaeth o dan adran 5(2)(b) gan y Cynulliad yn rhydd o'r gofyniad am gymeradwyaeth

gan "Minister for the Civil Service".

**Pennawd J – Iechyd, Diogelwch a Meddyginiaethau**

**Adran J1 - Erthylu**

299 Mae'r adran hon yn cynnwys y pŵer i ddeddfu mewn perthynas ag erthylu (ar hyn o bryd Deddf Erthylu 1967 a rheoliadau a wneir o dani). Mae pŵer eisoes gan Weinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau yn y sector annibynnol ar gyfer cyflawni erthyliadau ac i wneud rheoliadau ynghylch gofynion am hysbysu. Maent hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau erthylu o fewn Cymru.

300 Mae'r Adran Iechyd yn prosesu hysbysiadau am erthyliadau a gyflawnwyd yng Nghymru ac yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar ran Gweinidogion Cymru.

**Adran J2 – Senotrawsblannu**

301 Senotrawsblannu yw trawsblannu organau hyfyw neu feinweoedd eraill (e.e. esgyrn neu gelloedd) o anifeiliaid i bobl, neu ddefnyddio meinweoedd anifeiliaid hyfyw y tu allan i'r corff, yn rhan o ddyfais feddygol efallai.

302 Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth sy'n rheoleiddio senotrawsblannu'n benodol, ond mae darpariaethau statudol eraill sy'n cyffwrdd ag ef. Er enghraifft, mae lles anifeiliaid sydd wedi'u haddasu'n enetig i ddibenion senotrawsblannu yn dod o dan Ddeddf Anifeiliaid (Triniaethau Gwyddonol) 1986. Mae pwnc y Ddeddf honno, sy'n rheoleiddio'r defnydd o anifeiliaid at ddibenion arbrofol neu wyddonol (yn cynnwys bywddyrannu), wedi'i gadw gan adran B20. Mae corff anstatudol, Awdurdod Rheoleiddio Dros Dro Senotrawsblannu y DU (UKXIRA) wedi'i sefydlu i fonitro a rheoleiddio datblygiadau ym maes senotrawsblannu.

303 Mae holl faes senotrawsblannu wedi'i gadw gan gynnwys y rheoleiddio ar unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â senotrawsblannu.

**Adran J3 - Embryoleg, benthyg croth a geneteg**

304 Mae materion penodol ym maes iechyd, sy'n codi materion moesegol pwysig a/neu sy'n galw am rannu arbenigedd ar lefel y Deyrnas Unedig er mwyn eu rheoleiddio'n foddhaol, wedi cael eu cadw. Wrth gadw cymhwysedd ym maes benthyg y groth, cedwir trefniadau ar gyfer benthyg y groth fel y maent wedi'u diffinio gan Ddeddf Trefniadau Benthyg y Groth 1985, gan gynnwys pwnc Deddf 1985.

305 Mae Deddf 1985 yn diffinio trefniadau ar gyfer benthyg croth drwy gyfeirio at 'surrogate mother', sef menyw sy'n cario plentyn yn unol â threfniant a wnaed cyn iddi ddechrau cario'r plentyn ac a wnaed gyda'r bwriad o drosglwyddo'r plentyn hwnnw i berson arall, ac i'r hawliau rhieni gael eu harfer gan y person hwnnw. Mae'r trefniant yn drefniant benthyg croth os byddai menyw, pe byddai'n cario plentyn yn unol â'r trefniant hwnnw, yn fam benthyg croth.

306 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwahardd trydydd partïon rhag cychwyn neu negodi unrhyw drefniadau benthyg croth ar sail fasnachol, rhag derbyn unrhyw daliadau oddi wrth y fam benthyg croth neu'r person y mae'n cario'r plentyn ar ei ran a rhag hysbysebu mewn cysylltiad â threfniadau benthyg croth.

307 Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn ymdrin â chyfreithlondeb trefniadau benthyg croth o dan y gyfraith gyffredin. Nid yw'n drosedd o dan y gyfraith gyffredin na Deddf 1985 i bersonau wneud trefniant preifat. Mae adran 36(1) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990 ("Deddf 1990") wedi diwygio Deddf 1985 fel na ellir gorfodi unrhyw drefniant benthyg croth ac mae Deddf 1990 yn gwneud darpariaeth hefyd o ran pwy yw rhieni plant a anwyd o

ganlyniad i drefniadau benthyg croth.

308 Ni fydd y Cynulliad yn gallu deddfu mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â threfniadau benthyg croth o fewn ystyr Deddf 1985, gan gynnwys cyfreithlondeb trefniadau benthyg croth i ddibenion cyfraith trosedd neu'r gallu i orfodi unrhyw drefniadau o'r fath i ddibenion cyfraith sifil. Ni fydd y Cynulliad ychwaith yn gallu diwygio darpariaethau Deddf 1985.

309 Mae'r mater a gedwir ynghylch embryoleg yn cadw pwnc Deddf 1990, fel y'i diwygiwyd, sy'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- rheoleiddio trefniadau ar gyfer creu, cadw neu ddefnyddio embryonau neu gametau dynol y tu allan i'r corff;

- rheoleiddio neu wahardd unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â chreu, cadw neu ddefnyddio embryonau neu gametau dynol y tu allan i'r corff, gan gynnwys ymchwil a darparu gwasanaethau triniaeth anffrwythlondeb;

- y diffiniad o rieni unrhyw blentyn sy'n cael ei gario neu sydd wedi cael ei gario gan fenyw o ganlyniad i osod embryo neu wyau a sberm ynddi neu ei ffrwythloni drwy ddull artiffisial.

310 Roedd Deddf 1990 hefyd wedi sefydlu'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol, sy'n rheoleiddio ymchwil neu driniaeth sy'n ymwneud â chreu, cadw a defnyddio embryonau dynol y tu allan i'r corff, neu storio neu roddi wyau a sberm dynol.

311 Roedd Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008 wedi diwygio Deddf 1990 i wneud darpariaeth ynghylch pwy yw rhieni plant a anwyd o ganlyniad i drefniadau benthyg croth ac mae'n rhoi pŵer i'r Llysoedd i wneud Gorchymyn yn darparu y bydd plentyn a anwyd o ganlyniad i drefniant benthyg croth yn cael ei drin o dan y gyfraith fel plentyn y cwpl a gomisiynodd y fam benthyg croth i gario'r plentyn.

312 Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â geneteg ddynol nad ydynt eisoes wedi'u cadw ym mhwnc Deddf 1990 yn cael eu cadw'n ôl. Mae hyn yn cynnwys ymchwil, profion neu driniaeth sy'n ymwneud â'r genom dynol neu anhwylderau genetig gan gynnwys ymchwil therapi genynnau a'r holl faterion sy'n ymwneud â'r canlyniadau cymdeithasol, moesegol ac economaidd i eneteg ddynol, fel darparu profion genetig i ddibenion yswiriant neu gyflogaeth neu batentu deunydd genetig.

**<u>Adran J4 - Meddyginiaethau, cyflenwadau meddygol, sylweddau biolegol etc.</u>**

313 Mae'r adran hon yn cadw Cynhyrchion Meddyginiaethol. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio prisiau ac elw.

314 Mae'r ddarpariaeth dehongli o dan adran E2 yn datgan bod yr un ystyr i "Medicinal Products" ag sydd iddo yn Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (OS 2012/1916).

315 Mae hefyd yn cwmpasu rheoleiddio meddyginiaethau gan gynnwys gweithgynhyrchu, trwyddedu, masnachu cyfanwerthol, hysbysebu a rheoleiddio treialon clinigol.

316 Mae'r adran hon yn cadw Cyflenwadau Meddygol, ac yn cynnwys rheoleiddio prisiau. Mae i "Medical Supplies" yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 260 o Ddeddf y GIG 2006.

317 Mae'r adran hon yn cadw safonau biolegol gan gynnwys profi sylweddau biolegol.

318 Yng nghyd-destun gwaith Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Rheolaethau Biolegol /Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, ystyr penodol "biological substances" yw "biological medicines". Mae'r rhain yn ddosbarth penodol o sylweddau meddyginiaethol sy'n cael eu gweithgynhyrchu o ddeunydd cychwynnol sy'n dod o

ffynonellau biolegol. Enghreifftiau o'r rhain yw meddyginiaethau a wneir o waed dynol (ee albwmin neu imiwnoglobwlinau), o ficrobau (ee brechlynnau), neu o brosesau biotechnolegol fel celloedd wedi'u haddasu (ee gwrthgyrff).

319 Mae'r adran hon yn cadw cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol gan gynnwys eu gweithgynhyrchu, awdurdodi eu defnyddio a rheoleiddio prisiau.

320 O ganlyniad i hyn cedwir cymhwysedd dros fonitro a chymryd camau mewn perthynas ag adroddiadau am ddrwgeffeithiau meddyginiaethau milfeddygol; profi am weddillion meddyginiaethau milfeddygol neu sylweddau anghyfreithlon mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid; asesu a phrosesu ceisiadau am awdurdod i werthu cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol (yn cynnwys cynhyrchion homeopathig) yn y DU; rheoli'r ffordd y mae meddyginiaethau milfeddygol yn cael eu gwneud a'u dosbarthu yn y DU; cynghori Gweinidogion ar ddatblygu polisi meddyginiaethau milfeddygol; a gwneud, diweddaru a gorfodi deddfwriaeth y DU ar feddyginiaethau milfeddygol.

321 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ychwanegion bwyd penodol. O ganlyniad i hyn, cedwir cymhwysedd dros gymeradwyo ac arolygu gweithredwyr busnes bwyd sy'n dymuno gweithgynhyrchu a dosbarthu mathau penodol o borthiant sy'n cynnwys ychwanegion bwyd penodol. Mae'r cymeradwyo ac arolygu'n cynnwys cynhyrchu, labelu, meddiant, cyflenwi, gofynion o ran cadw cofnodion a samplu porthiant sy'n cynnwys ychwanegion bwyd penodol ac yn sicrhau bod gofynion Rheoliad 1831/2003 yr UE wedi'u bodloni. Mae hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o gymryd camau gorfodi mewn achosion lle na chydymffurfiwyd â gofynion y Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol.

322 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gymeradwyo ac arolygu gweithredwyr busnes bwyd sy'n dymuno gweithgynhyrchu a dosbarthu mathau penodol o borthiant anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol. Mae'r cymeradwyo ac arolygu'n cynnwys cynhyrchu, labelu, meddiant, cyflenwi, gofynion o ran cadw cofnodion a samplu porthiant sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol. Mae hefyd yn sicrhau bod presgripsiynau am borthiant sy'n cynnwys meddyginiaethau milfeddygol yn cael eu llenwi'n gywir a bod y bwyd a gynhyrchir yn cyfateb i'r presgripsiwn. Mae hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o gymryd camau gorfodi mewn achosion lle na chydymffurfiwyd â gofynion y Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol.

323 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros y Cynllun Taliadau Niwed trwy Frechiad. Mae'r Cynllun yn darparu un cyfandaliad di-dreth (£120,000 ar hyn o bryd) i bobl sydd wedi cael anabledd difrifol o ganlyniad i frechu yn erbyn y clefydau hynny sydd wedi'u rhestru yn Neddf Taliadau Niwed trwy Frechu 1979. Yr Adran Iechyd sy'n gyfrifol am bolisi ar ddeddfwriaeth y Cynllun, a'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweinyddu'r Cynllun, yn gwneud taliadau ac yn cymryd cyngor meddygol proffesiynol ar bob achos unigol.

324 Ym Mhrydain Fawr yr un yw'r dull o asesu lefel yr anabledd ar gyfer y Cynllun Taliadau Niwed trwy Frechiad â hwnnw a ddefnyddir i ddibenion adran 103 o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau 1992. Yng Ngogledd Iwerddon mae'r dull yr un fath â hwnnw a ddefnyddir i ddibenion adran 103 o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau (Gogledd Iwerddon) 1992.

**<u>Adran J5 – Bwydydd lles</u>**

325 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros fwydydd lles. Mae Llywodraeth y DU yn darparu ar gyfer cynlluniau bwydydd lles mewn rheoliadau a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 (sy'n ymwneud â buddion o dan gynlluniau ar gyfer gwella maeth ar gyfer menywod beichiog, mamau a phlant). Y cynlluniau presennol yw'r Cynllun Llaeth Meithrin a'r Cynllun Cychwyn Iach. Mae'r Cynllun Llaeth Meithrin yn darparu ar gyfer ad-

dalu am gost meintiau penodol o laeth a ddarperir i blant dan 5 oed sy'n cael gofal am gyfnod a ragnodwyd gan ddarparwyr gofal dydd a gymeradwyir. Mae'r Cynllun Cychwyn Iach yn darparu talebau bwyd y gellir eu cyfnewid am fwyd Cychwyn Iach gyda manwerthwyr sydd wedi'u cofrestru i dderbyn y talebau, a thalebau fitaminau, y gellir eu cyfnewid ar safleoedd y GIG. Mae'r hawl i gael talebau Cychwyn Iach yn gysylltiedig â hawl y derbynnydd neu, yn ôl y digwydd, hawl aelod o'i deulu i dderbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol penodol sy'n dibynnu ar brawf modd neu gredyd treth plant.

**Adran J6 - Iechyd a diogelwch**

326 Mae'r adran hon yn cadw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ("HSE"), sy'n gorff statudol a sefydlwyd o dan Ran 1 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ("Deddf 1974 "). Yn rhinwedd y mater a gedwir ym mharagraff 198 o Atodlen 7A ar gyfer awdurdodau penodol, mae cyfansoddiad yr HSE wedi'i gadw'n ôl. Mae'r cymhwysedd dros roddi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau HSE, neu swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas ag ef, wedi cael ei gadw.

327 Yn ogystal â hyn, mae'r adran hon yn cadw gweddill y pwnc yn Rhan 1 o Ddeddf 1974. Mae'r Rhan honno'n darparu ar gyfer y dibenion cyffredinol o sicrhau iechyd, diogelwch a lles personau yn y gwaith, yn diogelu personau heblaw personau yn y gwaith rhag risgiau i iechyd neu ddiogelwch sy'n codi o weithgareddau personau yn y gwaith, neu sy'n gysylltiedig â nhw, ac yn rheoli'r cadw a'r defnyddio ar sylweddau ffrwydrol neu fflamadwy iawn neu sylweddau sy'n beryglus fel arall, ac yn atal yn gyffredinol gamau i gaffael, meddu a defnyddio sylweddau o'r fath yn anghyfreithlon. Mae'r mater a gedwir ym mhwnc Rhan 1 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn cynnwys rhagofalon tân ar gyfer prosesau, rhagofalon tân mewn perthynas â phetrolewm a gwirod petrolewm a diogelwch tân ar longau a hofrenfadau, mewn mwyngloddiau a gweithfeydd ar y môr mawr. Mae pob agwedd arall ar ddiogelwch tân yng Nghymru, yn cynnwys rheoleiddio a gwahardd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

328 Mae'r adran hon yn cadw'r Gwasanaeth Cynghori Meddygol ar Gyflogaeth (EMAS), a sefydlwyd gan Ran II o Ddeddf 1974. Mae EMAS yn arfer swyddogaethau ar gyfer cynghori Gweinidogion, cyflogwyr a chyflogeion ar iechyd mewn perthynas â chyflogaeth. Yn rhinwedd y mater a gedwir ym mharagraff 198 o Atodlen 7A yn ymwneud ag awdurdodau penodol, yr effaith o gadw'r mater hwn yw nad yw'r Cynulliad yn gallu deddfu ynghylch swyddogaethau EMAS, neu swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas ag ef, ond fe all, er enghraifft, ddeddfu ynghylch hybu iechyd yn y gweithle.

329 Mae'r adran hon yn cwmpasu camau i ddiogelu'r cyhoedd yng Nghymru rhag ymbelydredd (boed yn ymbelydredd ïoneiddio neu beidio). Byddai camau o'r fath yn gallu cynnwys camau i gynnal ymchwil neu gamau eraill i hyrwyddo gwybodaeth neu ddealltwriaeth; darparu gwasanaethau technegol; darparu gwasanaethau ar gyfer atal, diagnosis neu driniaeth mewn perthynas â salwch sy'n codi o fod yn agored i ymbelydredd; darparu hyfforddiant; darparu gwybodaeth a chyngor; a threfnu i wasanaethau fod ar gael gan unrhyw berson neu unrhyw gyfleusterau. Mae swyddogaethau o'r fath yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y Ganolfan Ymbelydredd, Peryglon Cemegol ac Amgylcheddol, sy'n rhan o Public Health England.

**Pennawd K - Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon**

**Adran K1 - Cyfryngau**

330 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddarlledu a chyfryngau eraill.

331 Bydd yr holl gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud â darlledu drwy deledu a radio yn cael eu cadw gan gynnwys swyddogaethau Ofcom (y rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol).

332 Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â chynnwys cyfryngau, gan gynnwys y wasg a chyfryngau digidol, a materion cysylltiedig fel rhyddid newyddiadurol, yn faterion a gedwir.

333 Mae'r holl gyfrifoldebau o dan yr UE a'r holl gyfrifoldebau rhyngwladol sy'n ymwneud â darlledu a chyfryngau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n codi o dan wahanol gyfarwyddebau'r UE a chytundebau rhyngwladol eraill yn faterion a gedwir.

334 Mae'r adran hon yn cadw'r BBC yn ôl. Yn rhinwedd y mater a gedwir ym mharagraff 198 o Atodlen 7A ar gyfer awdurdodau penodol, mae cyfansoddiad y BBC wedi'i gadw'n ôl. Mae'r cymhwysedd dros roddi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau ONR, neu swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas ag ef, wedi cael ei gadw.

**Adran K2 - Hawl benthyg i'r cyhoedd**

335 Mae'r adran hon yn cadw'r Hawl Benthyg i'r Cyhoedd, fel y bydd hawl gan awduron, darlunwyr a deiliaid hawliau eraill i gael eu talu am fenthyg eu llyfrau gan lyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU.

**Adran K3 - Cynllun Indemniad y Llywodraeth**

336 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i ddeddfu i roi indemniadau Llywodraeth ar gyfer gwrthrychau, fel peintiadau a hynafiaethau, sydd wedi'u rhoi ar fenthyg i amgueddfeydd, orielau celf etc.

337 Mae'r Cynllun Indemniad y Llywodraeth presennol wedi'i sefydlu o dan bwerau a roddwyd gan adrannau 16 a 16A o Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i roi indemniadau o blaid benthycwyr, am golli neu ddifrodi gwrthrychau sydd wedi'u rhoi ar fenthyg i sefydliadau, cyrff neu bersonau penodol, gan gynnwys amgueddfeydd, orielau celf, llyfrgelloedd, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Adran K4 – Derbyn eiddo i gwrdd â gofynion treth**

338 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i ddeddfu mewn perthynas â thaliadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas ag eiddo a dderbynnir i gwrdd â gofynion treth, a gwaredu eiddo o'r fath.

**Adran K5 – Meysydd chwaraeon**

339 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddiogelwch meysydd chwaraeon. Mae hyn yn sicrhau dull cyson o ddelio â diogelwch meysydd chwaraeon ledled Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau diogelwch gwylwyr.

340 Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- dynodi meysydd chwaraeon gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Meysydd Chwaraeon 1975 yn rhai y mae angen tystysgrif diogelwch awdurdod lleol ar eu cyfer;
- rheoleiddio eisteddleoedd a reoleiddir o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelwch Tân a Diogelwch Mannau Chwaraeon 1987;
- y cynllun trwyddedu pêl-droed a sefydlwyd gan Ddeddf Gwylwyr Pêl-droed 1989 i reoleiddio mannau gwylio ar gyfer gwylwyr, yn cynnwys gofynion am fannau eistedd yn unig ar feysydd yr Uwchgynghrair a Phencampwriaeth y Gynghrair Bêl-droed.

341 Mae Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon yn gweithredu cynllun trwyddedu ac yn monitro tystysgrifau diogelwch awdurdodau lleol.

**Pennawd L - Cyfiawnder**

**Adran L1 – Y proffesiwn cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau rheoli hawliadau**

342 Mae'r mater hwn a gedwir yn ymdrin â gwasanaethau cyfreithiol a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pob mater o fewn pwnc Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, sy'n darparu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a darpariaethau'n ymwneud â rheoleiddio'r proffesiwn cyfreithiol; ynghyd â sefydlu, pwerau a swyddogaethau cynllun Ombwdsmon y Gyfraith, drwy'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol.

343 Mae hyn yn cadw'r cymhwysedd dros reoleiddio personau ac endidau awdurdodedig a restrir isod, ac mae'n cynnwys swyddogaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, fel rheoleiddiwr goruchwylio, a'r rheoleiddwyr unigol, sydd eu hunain yn cael eu llywodraethu gan wahanol ddeddfwriaeth sylfaenol neu Siarter mewn rhai achosion). Y Rheoleiddwyr Cymeradwy a awdurdodir ar hyn o bryd ac sy'n weithredol yw:

Cymdeithas y Cyfreithwyr (drwy'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr)

Cyngor y Bar (drwy Fwrdd Safonau'r Bar)

Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (drwy Reoleiddiad CILEX)

Sefydliad Siartredig Twrneiod Patentau (drwy'r Bwrdd Rheoleiddio Eiddo Deallusol)

Sefydliad Twrneiod Nodau Masnach (drwyr Bwrdd Rheoleiddio Eiddo Deallusol)

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (drwy eu Pwyllgor Profiant)

Cymdeithas Cyfreithwyr Costau (drwy Fwrdd Safonau Cyfreithwyr Costau)

Cyngor Trawsgludwyr Trwyddedig

Meistr Cyneddfau

**Adran L2 – Cymorth cyfreithiol**

344 Mae cyfrifoldeb dros ddarparu cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr wedi'i roi i'r Arglwydd Ganghellor o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (a'r ddeddfwriaeth a'i rhagflaenodd, Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999, sy'n parhau'n gymwys i nifer o achosion hŷn).

345 Gweinyddir y cynllun cymorth cyfreithiol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Llywodraeth y DU. Felly mae'r adran hon yn darparu bod cymorth cyfreithiol yn fater a gedwir.

**Adran L3 - Crwneriaid**

346 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Rhan 1 o Ddeddf 2009. Mae hyn yn golygu bod materion fel dyletswyddau statudol crwneriaid; eu penodi a'u talu; ac ardaloedd lle mae crwneriaid yn eistedd yn faterion a gedwir.

347 O dan Atodlen 2 i Ddeddf 2009, os yw'r Arglwydd Ganghellor yn ystyried newid ardaloedd crwneriaid yng Nghymru, yna rhaid iddo ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac unrhyw berson arall y mae'n credu sy'n briodol.

348 O dan adran 24 o Ddeddf 2009, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ariannu gwasanaethau crwneriaid lleol.

**Adran L4 - Cymrodeddu**

349 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gymrodeddu. Mae'r mater hwn wedi'i gadw er

mwyn darparu ar gyfer unrhyw gytundeb i gyflwyno anghydfod, heblaw drwy ymgyfreitha, i berson neu bersonau i gael penderfyniad. Mae bwriad hefyd i'r mater a gedwir weithredu lle mae rhwymedigaeth statudol i gymrodeddu mewn anghydfod. Nid oes bwriad i'r mater a gedwir ddarparu ar gyfer dulliau amgen eraill o ddatrys anghydfodau fel cyfryngu neu gymodi.

**<u>Adran L5 – Galluedd meddyliol</u>**

350 Mae'r adran hon yn cadw'r pwnc sydd yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae Deddf 2005 yn darparu fframwaith statudol i rymuso a diogelu pobl sy'n agored i niwed sydd heb allu i benderfynu drostynt eu hunain. Mae'n ei gwneud yn glir pwy a all wneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ynghylch hynny. Mae'n galluogi pobl i gynllunio ar gyfer cyfnod pan allent golli galluedd. Mae hefyd yn sefydlu'r Llys Gwarchod, ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn achosion sy'n ymwneud â phobl sydd heb alluedd, a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud yn benodol ag Atwrneiaethau Arhosol a goruchwylio dirprwyon a benodwyd i wneud penderfyniadau ar ran personau sydd heb alluedd.

351 Mae pwnc Deddf 2005 yn cynnwys colli rhyddid. Mae Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'u gwneud i ddiogelu unigolion sydd heb alluedd ac sydd wedi'u cartrefu mewn cartref gofal a/neu ysbyty ac sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau ar eu rhyddid i symud a dewis a all olygu eu bod yn colli rhyddid.

352 Mae awdurdodau rheoli ("managing authorities") (cartrefi gofal ac ysbytai) yn ymgeisio i gyrff goruchwylio ("supervisory bodies") (awdurdodau lleol) sy'n comisiynu asesiadau annibynnol ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch caniatáu iddynt golli rhyddid neu beidio os dangosir mai hynny yw'r gofal / triniaeth briodol sy'n lleiaf cyfyngol ac sydd er y budd pennaf i'r person cysylltiedig.

**<u>Adran L6 – Data personol</u>**

353 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddiogelu data personol. Deddf Diogelu Data 1998 yw'r fframwaith statudol presennol ar gyfer diogelu data personol. Mae Deddf 1998 yn trosi Cyfarwyddeb 95/46/EC yn ddeddfwriaeth y DU.

**<u>Adran L7 – Hawliau gwybodaeth</u>**

354 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd o ran hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus. Mae gwybodaeth a ddelir gan y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cymru neu unrhyw awdurdod cyhoeddus Cymreig wedi'i heithrio o'r mater a gedwir. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a ddarparwyd gan un o Weinidogion y Goron neu adran llywodraeth ac sy'n cael ei dal yn gyfrinachol gan unrhyw un o'r cyrff hynny yn parhau'n fater a gedwir. Fodd bynnag, o dan yr amod hwnnw gall y Cynulliad ddeddfu ynghylch hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan unrhyw un o'r cyrff sydd wedi'u heithrio.

**<u>Adran L8 – Gwybodaeth sector cyhoeddus</u>**

355 Mae'r adran hon yn cadw cymhwyedd dros bwnc Rheoliadau Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd 2009 (O.S. 2009 Rhif 3157). Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2007/2/EC, sy'n sefydlu Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd.

356 Nod y Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd yw hwyluso gwell polisi amgylcheddol ar draws yr Undeb Ewropeaidd drwy wella'r ddarpariaeth ar gyfer cydgysylltu a chael gafael ar y data gofodol presennol ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Yn ôl y

diffiniad o'r data hyn yn y Rheoliadau, data gofodol yw unrhyw ddata sy'n cyfeirio'n uniongyrchol neu anuniongyrchol at leoliad neu ardal ddaearyddol benodol. Mae Rheoliadau Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sefydlu a gweithredu gwasanaethau rhwydwaith mewn perthynas ag unrhyw set data gofodol neu wasanaeth data gofodol y maent yn ei ddal neu ei weithredu. Mae hyn yn rhoi'r gallu i ddarparu setiau data gofodol a gwasanaethau data gofodol i'w defnyddio gan awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae'r Rheoliadau'n darparu mecanwaith hefyd i'r cyhoedd gael gweld setiau data gofodol a defnyddio gwasanaethau data gofodol, o dan gyfyngiadau.

357 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros y pwnc yn Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015 (OS 2015 Rhif 1415). Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2013/37/EU, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2003/98/EC, ac yn rheoli ail ddefnydd o wybodaeth sector cyhoeddus.

358 Pwrpas y fframwaith cyfreithiol ar gyfer ailddefnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus yw hwyluso ail ddefnydd (gan aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau) o ddogfennau y mae cyrff sector cyhoeddus wedi'u casglu neu eu cynhyrchu er mwyn cyflawni tasgau cyhoeddus, at ddibenion heblaw'r tasgau cyhoeddus hynny.

**Adran L9 – Cofnodion cyhoeddus**

359 Mae paragraff 171 yn cadw pwnc Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ("Deddf 1958"). Mae Deddf 1958 yn darparu ar gyfer cadw, gofal am, a chyfrifoldeb dros gofnodion cyhoeddus ac yn darparu sail ar gyfer cadw archifau gan sefydliad archifol statudol neu gorff arall.

360 Ceir diffiniad o "public records" yn Atodlen 1 i Ddeddf 1958, ac maent yn cynnwys cofnodion adrannau llywodraeth a chyrff cyhoeddus anadrannol penodol.

361 Mae cofnodion cyhoeddus Cymreig ("Welsh public records") hefyd yn dod o dan Ddeddf 1958 ar hyn o bryd yn rhinwedd adran 146 o DLlC. Mae cofnodion cyhoeddus Cymru yn cynnwys cofnodion llywodraeth Cymru (y Swyddfa Gymreig o 1964 hyd 1999; Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fis Mai 1999 i fis Mehefin 2007; Llywodraeth Cynulliad Cymru o fis Mehefin 2007 i fis Mai 2011) a nifer o gyrff a noddir sy'n gysylltiedig â hi.

**Adran L10 – Digolledu personau y mae troseddu a chamweinyddu cyfiawnder yn effeithio arnynt**

362 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddigolledu personau y mae troseddu'n effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan Ddeddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995 a'r Cynllun Dioddefwyr Terfysgaeth mewn Gwledydd Tramor a wnaed o dan adran 47 o Ddeddf Troseddu a Diogeledd 2010. Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol sy'n gweinyddu'r ddau gynllun.

363 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros ddigolledu os oes camweinyddiad cyfiawnder. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn parhau i weinyddu'r cynllun o dan A.133 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

**Adran L11 – Carchardai a rheoli troseddwyr**

364 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros garchardai a rheoli troseddwyr.

365 Mae is-baragraff (1) yn amlinellu'r mater a gedwir yn ôl mewn perthynas â charchardai a sefydliadau eraill ar gyfer cadw personau a gyhuddwyd neu a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau. Dylid ei ddarllen gyda'r eithriad mewn perthynas â llety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol i'r diben o gyfyngu ar ryddid plant neu bobl ifanc.

366 Mae is-baragraff (2) yn cadw cymhwysedd dros reoli personau a gyhuddwyd neu a gafwyd yn euog o gyflawni troseddau (pa un a ydynt yn cael eu cadw yn y ddalfa neu beidio), a rheoli personau eraill y mae'n ofynnol eu cadw yn y ddalfa. Mae hyn yn cynnwys yr holl faterion sy'n ymwneud â chadw personau o'r fath neu reoli personau o'r fath yn y gymuned, er enghraifft, lle y caiff person ei gadw, sut y caiff person ei drin, mesurau disgyblu, rhyddhau person o'r ddalfa dros dro ac amodau trwydded person.

367 Mae is-baragraff (3) yn nodi materion sydd o fewn cwmpas y mater a gedwir ac nid yw'n rhestr gyflawn. Mae dau eithriad i hyn. Mae'r cyntaf yn cyfeirio at lety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol i'r diben o gyfyngu ar ryddid plant neu bobl ifanc. Mae'r ail yn cyfeirio at ddarparu gofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg neu hyfforddiant yng nghyd-destun carchardai a rheoli troseddwyr.

**<u>Adran L12 – Cysylltiadau teuluoedd a phlant</u>**

368 Mae'r mater a gedwir yn cynnwys pedwar maes sy'n ymwneud â chyfraith teulu (mae cyfraith ac achosion teulu wedi'u heithrio'n benodol o'r mater lles cymdeithasol sydd wedi'i roi o dan Atodlen 7 i DLlC). Y meysydd hynny yw:

(1) Priodas, partneriaeth sifil a chyd-fyw, yn cynnwys natur y berthynas a'i ffurf; dilysrwydd ffurfiol a sylweddol yn cynnwys gofynion ffurfiol fel cofrestru a'r galluedd o ran ffurfio'r berthynas; nodweddion cyfreithiol y berthynas (fel y ddyletswydd i gynnal rhwng y ddau briod neu bartner sifil, a'r effaith ar hawliau eiddo); a diddymu yn cynnwys y sail a'r broses ar gyfer ysgaru neu fath arall o ddiddymu, a'r ddarpariaeth ariannol a setliad eiddo ar ôl ysgariad neu fath arall o ddiddymu;

(2) Bod yn rhiant, cyfrifoldeb rhieni, trefniadau ar gyfer plentyn a mabwysiadu, yn cynnwys pwy sy'n rhiant, natur cyfrifoldeb rhieni a sut y'i ceir a sut y gellir ei golli neu gyfyngu ar yr arfer arno; trefniadau cyfraith preifat ar gyfer plant (fel y gwahanol faterion a all ddod o dan orchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn arall o dan Ran 2 o dan Ddeddf Plant 1989); a mabwysiadu (yn cynnwys natur ac effaith mabwysiadu), a mabwysiadu trawswladol yn ogystal â mabwysiadu domestig, ond nid asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau, sy'n dod o dan eithriad i'r mater a gedwir hwn sy'n adlewyrchu'r ffaith bod yr agwedd hon wedi'i dyrannu o'r eithriad i'r mater lles cymdeithasol sydd wedi'i roi o dan Atodlen 7 gyfredol i DLlC;

(3) Gorchmynion ac achosion plant o dan gyfraith gyhoeddus, fel achosion ynghylch gorchmynion gofal neu oruchwylio ac achosion eraill sy'n ymwneud â goruchwylio, amddiffyn neu ofalu am blant;

(4) Rhwymedïau sifil mewn perthynas â thrais domestig, cam-drin domestig ac anffurfio organau cenhedlu benywod, fel gorchmynion peidio ag ymyrryd, gorchmynion meddiannaeth, gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod a gorchmynion amddiffyn eraill sydd wedi'u haseinio i'r llys teulu neu Adran Deulu'r Uchel Lys.

Yn y mater a gedwir hwn, mae'r term 'adoption' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mabwysiadu domestig a thrawswladol. Nid yw swyddogaethau'r Awdurdod Canolog o dan Gonfensiwn yr Hag ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu mewn perthynas â mabwysiadu trawswladol wedi'u cynnwys yn yr eithriad ar gyfer asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau.

**<u>Adran L13 – Cydnabod rhywedd</u>**

369 Mae paragraff 178 yn cadw cymhwysedd dros gydnabod rhywedd. Hon yw'r broses y mae rhywun yn ei defnyddio i newid ei rywedd cyfreithiol a goblygiadau cyfreithiol a chofrestru'r newid hwnnw.

370 Mae hyn yn golygu bod pwnc Deddf Cydnabod Rhyw 2004 a gweithrediad a swyddogaethau'r Panel Cydnabod Rhyw yn faterion a gedwir.

**Adran L14 – Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a mannau addoli**

371 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gofrestru genedigaethau (yn cynnwys marw-enedigaethau) a marwolaethau a'u swyddogaethau cysylltiedig. Mae ardystio marwolaethau yn rhan annatod o gofrestru marwolaethau dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 (sy'n gymwys i Gymru a Lloegr), ac felly mae'n fater wedi'i gadw. Mae cofrestru priodasau a mabwysiadau hefyd wedi'i gadw gan y materion a gedwir yn barhaol.

372 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gofnodi adeiladau a ddefnyddir fel mannau addoli crefyddol gan y Cofrestrydd Cyffredinol o dan adran 2 o Ddeddf Cofrestru Mannau Addoli 1855.

**Pennawd M – Tir ac Asedau Amaethyddol**

**Adran M1 – Cofrestru tir a phridiannau tir**

373 Mae'r adran hon yn cadw pwnc Deddf Pridiannau Tir 1972, sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r holl swyddogaethau a phwerau sy'n ymwneud â phridiannau tir a chofrestrau o gamau gweithredu arfaethedig, gwritiau a gweithredoedd cymodi ac yn cynnwys swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan y Prif Gofrestrydd Tir (a'i staff), yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Arglwydd Ganghellor a Thrysorlys EM.

374 Mae hefyd yn cadw'r pwnc yn Neddf Cofrestru Tir 2002 sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r holl swyddogaethau a phwerau sy'n ymwneud â chofrestru tir a darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â thir neu eiddo arall, a gweithrediad Cofrestrfa Tir EM ac yn cynnwys swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan y Prif Gofrestrydd Tir (a'i staff), yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a Thrysorlys EM.

375 Mae'r adran hon hefyd yn cadw Rhan 1 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r holl swyddogaethau a phwerau sy'n ymwneud â chofrestru tir ac unedau cyfunddaliadol ac yn cynnwys swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan y Prif Gofrestrydd Tir (a'i staff), yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor.

**Adran M2 – Pridiannau tir lleol**

376 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros bridiannau tir lleol. Mae Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chadw cofrestrau pridiannau tir lleol a chofrestru materion ynddynt. Mae'r mater hwn a gedwir yn ymdrin â'r hyn a allai fod yn bridiannau tir lleol, lle maent i gael eu cofrestru a materion cysylltiedig a nodir yn Neddf 1975 a'r rheolau a wnaed o dani. Mae'r mater wedi'i gadw'n ôl o dan eithriad ar gyfer ffioedd. Trosglwyddwyd y pŵer i osod ffioedd mewn perthynas â phridiannau tir lleol i'r Cynulliad yn 2004. Nid yw'r mater a gedwir yn effeithio ar greu, gan Ddeddfau Cynulliad, bridiannau tir lleol unigol gan awdurdodau lleol ac eraill yng Nghymru i orfodi neu fel arall roi effaith i ddarpariaeth i ddiben datganoledig.

**Adran M3 – Cofrestru pridiannau a dyledebau amaethyddol**

377 Mae'r adran hon yn cadw pwnc adrannau 9 a 14 o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928 sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r holl swyddogaethau a phwerau sy'n ymwneud â phridiannau a dyledebau amaethyddol ar stoc ffermio. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan y Prif Gofrestrydd Tir (a'i staff), yr Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys EM.

**Adran M4 – Datblygu ac adeiladau**

378 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gynllunio gan gynnwys pwnc Rhannau 2 ac 8 o Ddeddf Cynllunio 2008, ond dim ond mewn perthynas â mathau penodol o ddatblygu.

379 Fel arfer mae ceisiadau am ganiatâd cynllunio'n cael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol yn yr ardal lle cynigir y datblygiad er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu ymwneud â'r broses. Oherwydd natur leol y system, mae'r system cynllunio gwlad a thref wedi'i datganoli'n gyffredinol.

380 Mae'r adran hon yn cadw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ("CIL") Mae'r CIL yn bridiant cynllunio a ddefnyddir ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i helpu i ddarparu seilwaith i gynnal datblygu yn eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, sy'n darparu y gellir bod yn atebol am dalu Ardoll Seilwaith Cymunedol am ddatblygiad os yw'r priod awdurdod cynllunio lleol wedi dewis gosod tâl yn ei ardal.

381 Mae'r adran hon yn cadw'r pŵer i brynu tir yn orfodol. Mae'r pŵer i brynu tir yn orfodol yn cynnwys y broses ar gyfer gwneud a chadarnhau gorchmynion prynu gorfodol; y broses ar gyfer cael mynediad a meddiannu tir ar ôl cael pwerau gorfodol; a digolledu.

382 Mae'r adran hon yn cadw'r cymhwysedd dros ddylunio ac adeiladu adeiladau, dymchwel adeiladau, a gwasanaethau, ffitiadau a chyfarpar a ddarperir mewn neu mewn cysylltiad ag adeiladau. Mae'r rhain i gyd yn bwnc i Ddeddf Adeiladu 1984. Fodd bynnag, mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf honno wedi cael eu trosglwyddo gan mwyaf i Weinidogion Cymru. Mae swyddogaethau penodol ychwanegol yn cael eu trosglwyddo gan gymal 47 (trosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir) o'r Bil.

**Pennawd N - Amrywiol**

**Adran N1 – Cyfle cyfartal**

383 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros gyfle cyfartal ac yn amlinellu'r eithriadau iddo, er mwyn egluro cwmpas cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar gyfle cyfartal, sy'n cael ei ddiffinio yn y cymal dehongli.

384 Yn benodol, gall y Cynulliad hybu cyfle cyfartal yng Nghymru, gan gynnwys anogaeth i gyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith cyfle cyfartal drwy ffyrdd heblaw deddfu ar gyfer gwaharddiadau neu wneud rheoliadau.

385 Gall y Cynulliad hefyd osod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus Cymreig i'w gwneud yn ofynnol iddynt roi trefniadau ar waith i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n rhoi sylw dyledus i'w rhwymedigaethau i gwrdd â gofynion cyfraith cyfle cyfartal yng Nghymru a Phrydain Fawr.

386 Mae'r eithriad yn pennu hefyd y gall y Cynulliad ddeddfu ynghylch penodi'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, (fel y maent wedi'u diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010) i benodiadau anweithreol ar fyrddau awdurdodau cyhoeddus Cymreig.

387 Yn ogystal â hyn, gall y Cynulliad gyflwyno, ar gyfer awdurdodau cyhoeddus Cymreig, fesurau diogelu a gofynion sy'n ategu ond nid yn addasu darpariaethau presennol Deddf Cydraddoldeb 2010 ac er hwylustod ac effeithiolrwydd gall ddefnyddio rhannau o'r Ddeddf honno wrth ffurfio deddfwriaeth newydd, ar yr amod nad yw hyn yn effeithio ar y ffordd y mae testun o'r fath yn gymwys i ddibenion gwreiddiol arfaethedig y Ddeddf.

**Adran N2 – Rheoli arfau**

388 Mae'r adran hon yn cadw rheolaeth ar arfau distryw mawr.

389 Mae tri deddfiad presennol yn ymwneud â materion sy'n dod o dan y mater a gedwir yn yr Adran hon: Deddf Arfau Biolegol 1974, sy'n gwahardd datblygu, cynhyrchu, caffael a meddu cyfryngau a gwenwynau biolegol penodol ac arfau biolegol; Deddf Arfau Cemegol 1996, sy'n ymwneud â rheoli arfau cemegol a chemegion gwenwynig penodol; a Deddf Ffrwydradau Niwclear (Gwahardd ac Arolygiadau) 1998. Mae materion penodol yn ymwneud ag arfau tanio wedi cael eu cadw hefyd.

390 Mae hyn yn cadw'r rheolaeth ar arfau niwclear, biolegol a chemegol ac unrhyw arfau distryw mawr eraill, gan wahaniaethu rhyngddynt ac arfau eraill, fel arfau tanio sy'n dod o dan adran B13.

**Adran N3 – Arolwg Ordnans**

391 Yr Arolwg Ordnans yw asiantaeth mapio genedlaethol Prydain Fawr ac mae'n gwmni sy'n eiddo i lywodraeth y DU. Nid yw mapio'n fater a gedwir yn gyffredinol ond drwy gadw'r Arolwg Ordnans yn ôl ei enw yn Rhan 2 o Atodlen 7A, mae hyn yn golygu bod paragraff 198 o Atodlen 7A o dan y teitl 'particular authorities' yn gymwys a'i fod yn cadw swyddogaethau a chyfansoddiad yr Arolwg Ordnans.

**Adran N4 - Amser**

392 Mae'r mater a gedwir gan yr Adran hon yn cynnwys:

- dynodi'r graddfeydd amser a chylchfaoedd amser a ddefnyddir yn y DU a materion sy'n ymwneud â nhw fel Amser Safonol Greenwich neu Amser Cyffredinol cydgysylltiedig;

- pennu amser yr haf, o dan Ddeddf Amser yr Haf 1972;

- pennu unedau amser fel munudau, oriau, diwrnodau, misoedd a blynyddol a'r calendr yn gyffredinol;

- pennu gwyliau banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

- pennu dyddiad y Pasg.

393 Mae cyfrifo cyfnodau wedi'i eithrio o'r mater a gedwir. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, a yw diwrnodau penodol i'w cynnwys wrth gyfrifo cyfnodau. Hefyd, wrth ddeddfu ar fater datganoledig, bydd gan y Cynulliad gymhwysedd i ragnodi pryd daw rhwymedigaeth i ben neu pryd daw'n amhosibl i'w gorfodi ar gyfer y ddeddfwriaeth honno.

**Adran N5 – Pellafoedd y gofod**

394 Mae'r adran hon yn cadw'r holl faterion sy'n gysylltiedig â phellafoedd y gofod. O dan Ddeddf Pellafoedd y Gofod 1986, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am roi trwyddedau i unrhyw gorff neu berson yn y DU sy'n bwriadu ymgymryd â gweithgareddau ym mhellafoedd y gofod. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod atebolrwydd dichonol gan Lywodraeth y DU o dan gyfraith ryngwladol am ddifrod a achosir drwy weithgareddau o'r fath. Mae trwyddedu gweithgareddau o'r fath, a'r holl faterion eraill sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau o'r fath, wedi'i gadw.

395 Mae'r mater a gedwir yn ôl yn cwmpasu'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau ym mhellafoedd y gofod. Yn ogystal â hyn, byddai negodi cytundebau rhyngwladol yn ymwneud â phellafoedd y gofod yn dod o dan y mater a gedwir ar gyfer materion tramor o dan baragraff 8 o Atodlen 7A.

396 Mae adran 108A yn gosod y paramedrau ar gyfer cymhwysedd y Cynulliad, ac mae'n datgan na all deddfwriaeth y Cynulliad ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr ac ni all fod y gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru (ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn adran 108A(3)). Mae hyn oherwydd fod Cymru'n rhan o un awdurdodaeth gyfreithiol. Mae'r materion hyn a gedwir yn wahanol i'r rhai yn Neddf yr Alban 1998 gan fod gan yr Alban awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, sy'n golygu bod Senedd yr Alban yn gallu deddfu ar gyfer gweithgareddau a gynhelir y tu allan i'r awdurdodaeth honno. Gall Senedd y DU wneud yr un fath ar gyfer Cymru a Lloegr. Felly, mewn perthynas â Chymru, mae'r mater hwn a gedwir yn cydio mewn gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yng Nghymru mewn perthynas â phellafoedd y gofod. Mae'r un ystyriaethau'n gymwys i'r mater a gedwir mewn perthynas ag Antarctica isod.

**Adran N6 - Antarctica**

397 Mae'r adran hon yn cwmpasu'r holl faterion sy'n gysylltiedig ag Antarctica. Mae Deddfau Antarctig 1994 a 2013 yn gweithredu rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o dan y Cytuniad Antarctig a Phrotocol Amgylcheddol y Cytuniad (y Protocol). O dan Ddeddf 1994 mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am roi trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer pob taith Brydeinig i Antarctica, ar gyfer llongau ac awyrennau Prydeinig sy'n mynd i Antarctica ac ar gyfer gweithgareddau penodol yn Antarctica gan wladolion y Deyrnas Unedig. Mae Deddf 2013 yn gweithredu Atodiad VI i'r Protocol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr Antarctig (llywodraethol ac anllywodraethol) gymryd mesurau ataliol i leihau'r risg o argyfyngau amgylcheddol yn Antarctica, i wneud cynlluniau wrth gefn ac i gymryd camau prydlon ac effeithiol mewn ymateb i argyfyngau amgylcheddol sy'n codi o'u gweithgareddau. Mae negodi cytundebau rhyngwladol a ffurfio polisi yn ymwneud ag Antarctica yn dod o dan y mater a gedwir ar gyfer materion tramor o dan baragraff 8 o Atodlen 7A.

**Adran N7 – Cloddio gwelyau môr dwfn**

398 Mae'r adran hon yn cadw gweithgareddau i ddibenion gweithrediadau cloddio gwelyau môr dwfn. Mae Rhan XI o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr, fel y'i haddaswyd gan Gytundeb ar Weithredu Rhan XI a fabwysiadwyd ym 1994 ("y Confensiwn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio cloddio yng ngwely'r môr dwfn. Yn fras, o dan y system bydd contractwr yn cael ei noddi gan Wladwriaeth sy'n Barti, y bydd yn rhaid iddi hi yn ei thro allu arfer rheolaeth effeithiol ar y contractwr hwnnw o dan ei chyfraith ei hun. Wedyn rhaid i gontractwr wneud contract ag Awdurdod Rhyngwladol Gwely'r Môr cyn y gall ddechrau chwilio am adnoddau mwynol yng ngwely'r môr dwfn neu elwa ohonynt. Mae Deddf Cloddio Môr Dwfn 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cloddio Môr Dwfn 2014) yn gweithredu rhwymedigaethau'r DU o dan y Confensiwn. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i roi trwyddedau ar gyfer chwilio neu elwa a fydd yn caniatáu i bersonau chwilio am neu elwa o adnoddau mwynol o fath penodedig mewn ardal benodedig ar wely'r môr dwfn. Mae'r mater a gedwir yn cwmpasu'r holl faterion at ddibenion gweithrediadau cloddio môr dwfn. Mae negodi cytundebau rhyngwladol yn ymwneud â gwely'r môr dwfn yn dod o dan y mater a gedwir ar gyfer materion tramor o dan baragraff 8 o Atodlen 7A.

**Adran N8 – Tâl ac amodau athrawon ysgol**

399 Mae'r adran hon yn cadw cymhwysedd dros benderfynu tâl athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir ac amodau eraill ar eu cyflogaeth sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol ac oriau gwaith.

## RHAN 3 – DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

400 Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rhai o awdurdodau cyhoeddus Cymru, cadw awdurdodau penodol sydd wedi'u crybwyll neu eu disgrifio yn

Rhan 2 o'r Atodlen, swyddogaethau o ran y Gymraeg a dehongli'r Atodlen.

401 Effaith paragraff 195 yw nad yw cadw'r cymhwysedd dros bynciau gan Atodlen 7A yn cadw'r cymhwysedd dros gyfansoddiad awdurdod cyhoeddus yng Nghymru os oes gan yr awdurdod hwnnw swyddogaethau a gedwir. Ac nid yw ychwaith yn cadw'r swyddogaethau sydd i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdod o'r fath (megis penodiadau i'r bwrdd) na swyddogaethau cyfrifyddu neu gaffael sydd gan awdurdod o'r fath. Ceir rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru yn Atodlen 3.

402 Yn rhinwedd paragraff 196, nid yw'r mater a gedwir ar gyfer y Goron yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd heb swyddogaethau a gedwir. Un enghraifft gyfredol o awdurdod o'r fath yw'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn).

403 Mae paragraff 197 yn ymestyn paragraff 195 i gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig.

404 Mae paragraff 198 yn cadw cymhwysedd dros gyfansoddiad awdurdodau penodol a'u swyddogaethau. Yr awdurdodau penodol yw'r rhai y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2). Nid ystyrir y byddai unrhyw amgylchiadau'n bodoli pryd y byddai'n briodol i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â'r awdurdodau dan sylw, er y gallai'r corff fod â rhai swyddogaethau'n ymwneud â phwnc datganoledig, er enghraifft, swyddogaethau addysgol y BBC. Felly, nid yw'r cydsyniad Gweinidogol ym mharagraffau 8 a 10 o Atodlen 7B yn gymwys i'r awdurdodau penodol. Fodd bynnag, mae'r paragraff yn ddarostyngedig i baragraff 199.

405 Dylid darllen paragraff 199 ar y cyd â pharagraff 198. Mae paragraff 199 yn darparu nad yw Atodlen 7A (a pharagraff 198 yn benodol) yn cadw'r cymhwysedd dros osod swyddogaethau Cymraeg ar awdurdodau penodol (ac eithrio pan ydynt yn ymwneud â llys). Er bod paragraff 199 yn darparu nad yw gosod swyddogaethau Cymraeg yn fater a gedwir i ddibenion Atodlen 7A, rhaid darllen y ddarpariaeth hon ar y cyd â pharagraffau 8(1)(a) a 11(1)(b) o Atodlen 7B. Mae'r paragraffau hyn yn gosod amod ar gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol cyn y caiff y Cynulliad osod swyddogaethau i'w harfer mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Enghraifft o hyn yw gosod safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg 2001. Yn ei hanfod, mae paragraff 199 yn darparu y dylid trin awdurdodau penodol fel awdurdodau a gedwir mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

406 Mae paragraff 200 yn darparu, pan fo mater a gedwir yn Atodlen 7A yn cael ei fynegi yn nhermau "subject-matter" Deddf benodol, y dylid pennu ei bwnc fel a ganlyn:

a. ar y prif ddydd penodedig (caiff dyddiad hwnnw ei nodi mewn rheoliadau a wneir dan gymal 55),

b. (os caiff ei ddiddymu cyn y prif ddydd penodedig) fel y bodolai'n union cyn ei ddiddymu, neu

c. (os nad yw eto mewn grym ar y prif ddydd penodedig) fel y mae'n bodoli ar y prif ddydd penodedig, h.y. fel petai mewn grym ar y diwrnod hwnnw.

407 Y bwriad yw na fydd diwygiadau i Ddeddfau ar ôl cychwyn Bil Cymru yn amharu ar y setliad datganoli fel y nodir yn y Bil.

## Atodlen 2: Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

408 Mae adran 108A(2)(d) newydd (fel y mewnosodir gan gymal 3(1) o'r Bil) yn cyfeirio at Rannau 1 a 2 o Atodlen 7B wrth greu un o'r profion cymhwysedd ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad. Mae Rhan 1 yn nodi'r cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac mae Rhan 2 yn nodi'r eithriadau i'r cyfyngiadau hynny. Mae cymal 3(2) yn darparu bod yr Atodlen hon, ynghyd ag Atodlen 7A, yn disodli Atodlen 7 i DLlC.

409 Mae Atodlen 7B yn rhan o brawf cymhwysedd deddfwriaethol ar wahân i Atodlen 7A. Mae Atodlen 7A yn rhestru'r materion a gedwir ac felly mae'n rhan o brawf adran 108A(2)(c) drwy restru'r pynciau y gall ac na all Deddf Cynulliad ymwneud â nhw (gan gymhwyso prawf dibenion adran 108A(6)). Fodd bynnag, hyd yn oed lle mae darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn bodloni'r prawf yn adran 108A(2)(c) drwy beidio ag ymwneud â mater a gedwir yn Atodlen 7A, fe all fod y tu allan i'w gymhwysedd oherwydd prawf adran 108A(2)(d), drwy dorri'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B, sydd eu hunain yn gymwys oherwydd yr eithriadau yn Rhan 2 o Atodlen 7B.

410 Mae paragraff 1 o Atodlen 7B yn atal darpariaeth mewn Deddf Cynulliad rhag addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir. Mae "the law on reserved matters" wedi'i ddiffinio ym mharagraff 1(2) o Atodlen 7B i olygu deddfiad gan Senedd y DU neu unrhyw reol yn y gyfraith gyffredin, y mae eu pwnc yn fater a gedwir. Nid yw'r cyfeiriad at ddeddfiadau wedi'i gyfyngu i'r deddfiadau a restrir yn ôl eu henwau yn Atodlen 7A; felly mae'n cynnwys yr holl gyfraith (deddfiadau a'r gyfraith gyffredin) ynglŷn â mater a gedwir.

411 Er mai bwriad Atodlen 7A yw gosod paramedrau Deddfau Cynulliad yn y dyfodol yn nhermau materion a gedwir na all ddeddfu yn eu cylch, bwriad y cyfyngiadau ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 7B yw darparu math gwahanol o amddiffyniad i'r ddeddfwriaeth bresennol a'r gyfraith gyffredin y mae ei phwnc yn fater a gedwir.

412 Er y gall pwrpas darpariaeth mewn Deddf Cynulliad fod heb ei gadw (gan olygu nad yw darpariaeth o'r fath yn groes i adran 108A(2)(c) ac Atodlen 7A), fe all addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir, er hynny, er enghraifft i orfodi neu weithredu'r ddarpariaeth honno mewn ffordd arall.

413 Mae paragraff 2 yn cynnwys eithriad i baragraff 1 sydd mewn termau tebyg iawn i'r eithriad yn yr adran 108A(3). Mae paragraff 2(1) yn darparu bod darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn gallu addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir lle mae addasu o'r fath:

a. yn ategol (fel y mae wedi'i ddiffinio yn yr adran 108A(7) newydd) i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir, a

b. heb effaith ar faterion a gedwir na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni pwrpas y ddarpariaeth honno.

414 Mewn geiriau eraill, gellir addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir mewn modd atodol i ddiben datganoledig, ar yr amod nad yw addasu o'r fath yn mynd yn bellach nag sydd ei angen, er mwyn cyflawni'r amcan datganoledig. Y bwriad yw caniatáu digon o ryddid i'r Cynulliad addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir at ddiben nad yw'n ymwneud â mater a gedwir, ar yr amod nad yw'r addasu'n mynd yn bellach na'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r nod polisi. Bwriad y cyfyngiadau a grëir gan y gyfraith ar ddarpariaethau ar faterion a gedwir yw dangos pa mor bell y mae'r Senedd yn fodlon i'r Cynulliad fynd wrth addasu deddfwriaeth sy'n gyfrifoldeb i Senedd y DU. Lle mae angen addasiadau y tu hwnt i'r cyfyngiadau ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 7B, a bod cytundeb rhwng y gweinyddiaethau, Gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 150 o DLlC yw'r cyfrwng priodol i sicrhau'r canlyniad arfaethedig.

415 Er enghraifft, gellid cael Bil Cynllunio (Cymru) a oedd yn ceisio addasu Deddf Cyfathrebiadau 2003 er mwyn gweithredu polisi cynllunio datganoledig. Byddai darpariaeth o'r fath yn gallu bodloni'r prawf adran 108A(2)(c) drwy gymhwyso'r prawf pwrpas a dod i'r casgliad nad yw'n ymwneud â'r mater a gedwir ar gyfer telathrebu yn Adran C9 o Atodlen 7A, a'i bod yn hytrach yn ymwneud â phwnc cynllunio datganoledig. Er hynny, fe allai fod yn groes i adran 108A(2)(d), er enghraifft, hyd yn oed os oedd yr addasiadau i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ategol (ac felly'n bodloni paragraff 2(1)(a) o Atodlen 7B), am eu bod yn cael mwy o effaith nag

sydd ei hangen i weithredu'r polisi datganoledig (gan fethu â bodloni paragraff 2(1)(b) o Atodlen 7B). Mewn geiriau eraill, gellid cyflawni'r un amcan polisi cynllunio ond bod yr effaith ar Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn llai.

416 Mae paragraff 2(2) yn egluro nad yw'n berthnasol, wrth benderfynu beth sy'n angenrheidiol ("necessary") i ddibenion paragraff 2(1)(b), y byddai Senedd y DU ei hun wedi gallu deddfu i wneud y ddarpariaeth.

417 Mae paragraff 3 yn darparu nad yw darpariaethau mewn Deddfau Cynulliad yn gallu addasu'r gyfraith breifat.

418 Y diffiniad o'r gyfraith breifat yw cyfraith contract, asiantaeth, mechnïad, camwedd, cyfoethogi anghyfiawn a gwneud iawn, eiddo, ymddiriedolaethau ac etifeddu. Nid yw'r cyfyngiad yn cynnwys hawliau eiddo deallusol sy'n ymwneud ag amrywogaethau planhigion neu hadau.

419 Mae paragraff 3(4) yn creu eithriad i'r cyfyngiad ym mharagraff 3(1), fel y gall y Cynulliad addasu'r gyfraith breifat at ddiben nad yw'n ymwneud â mater a gedwir. Fodd bynnag, mae'r geiriau "other than a modification of the private law" ym mharagraff 3(4) yn atal y Cynulliad rhag addasu'r gyfraith breifat er ei fwyn ei hun. Mewn geiriau eraill, ni all y ddarpariaeth fod â'r pwrpas o addasu'r gyfraith breifat; rhaid iddi fod at ddiben sydd heb ei gadw.

420 Mae paragraff 4 yn gwahardd y Cynulliad rhag deddfu i addasu neu greu trosedd yn y categorïau o droseddau sydd wedi'u rhestru isod:

(a) bradwriaeth a throseddau cysylltiedig;

(b) troseddau dynladdiad (yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â hunanladdiad) a throseddau eraill yn erbyn y person (yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â thrais neu fygwth trais) y gellir eu profi ar dditiad yn unig. Troseddau ditiol yn unig yn erbyn y person, er enghraifft, cipio, camgarchariad, anafu â bwriad i wneud niwed corfforfol difrifol yn groes i adran 18 o Ddeddf Troseddau'n erbyn Person 1861, a lladrad. Mae elfen o orgyffwrdd yma oherwydd nid yn unig y mae troseddau ditiol yn unig y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad dan y paragraff hwn, ond y maent hefyd y tu allan i'r cymwysedd am eu bod yn faterion a gedwir. Er enghraifft, mae bod ym meddiant arf tanio gyda'r bwriad o niweidio yn dditiol yn unig yn erbyn person dan adran 16 o Ddeddf Arfau Tanio 1967 ac mae hefyd yn fater a gedwir dan adran B13 o Atodlen 7A;

(c) troseddau rhywiol (yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus neu bornograffig);

(d) troseddau o'r math sy'n cael eu trafod drwy Ddeddf Anudon 1911.

421 Mae'r ddarpariaeth hefyd yn gwahardd y Cynulliad rhag addasu'r gyfraith ynghylch:

(a) cyfrifoldeb a galluedd troseddol,

(b) ystyr bwriad, byrbwylltra, anonestrwydd ac elfennau meddyliol eraill mewn troseddau,

(c) atebolrwydd troseddol cychwynnol ac eilaidd, (er enghraifft, mae atebolrwydd cychwynnol yn ymdrin â phwnc Rhan 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (annog neu gynorthwyo trosedd), ymgais neu gynllwynio), neu

(d) dedfrydau a gorchmynion a gwarediadau eraill mewn perthynas â diffynyddion mewn achosion troseddol, neu mewn perthynas fel arall ag ymddygiad troseddol, a'u heffaith a'u gweithrediad.

422 Mae hyn yn golygu, er y gall y Cynulliad ddeddfu ar gyfer troseddau mewn perthynas â

materion sydd heb eu cadw'n ôl, nad yw'r Cynulliad yn gallu addasu troseddau sydd o fewn y categorïau o droseddau a restrwyd (yn cynnwys amddiffyniadau), na chreu troseddau newydd a fyddai'n dod o fewn y categorïau hyn. Er enghraifft, gall y Cynulliad bennu elfen feddyliol sydd i'w chynnwys mewn trosedd mewn maes a ddatganolwyd ond byddai paragraff 4(3)(b) yn atal y Cynulliad rhag rhoi ystyr gwahanol i gysyniadau o elfennau meddyliol fel "intention", "recklessness" neu "dishonesty" heblaw hynny sy'n gymwys yn gyffredinol. Yn yr un modd, gall y Cynulliad greu troseddau ymgais newydd mewn maes sydd heb ei gadw ond byddai paragraff 4(3)(c) yn atal y Cynulliad rhag addasu ystyr "attempt".

423 Mae'r agweddau ar gyfraith trosedd a restrwyd ym mharagraff 4(3) yn sicrhau na all y Cynulliad newid yr elfennau sylfaenol hyn yng nghyfraith trosedd sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr. Er hynny, mae'r Cynulliad yn gallu cymhwyso'r fframweithiau presennol hyn at droseddau y mae'n eu creu.

424 Mae'r cyfeiriad at ddedfrydau ym mharagraff 4(3)(d) yn diogelu'r set o ddedfrydau, gwarediadau a gorchmynion eraill sydd ar gael i'r llys, sy'n amrywio o ryddhau diamod, i orchymyn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, i orchmynion ategol fel gorchymyn digolledu. Mae effaith a gweithrediad dedfrydau'n ymwneud â pha bryd y bydd dedfrydau o'r fath ar gael (er enghraifft, nid yw Dedfryd Benodol Estynedig ond ar gael ar gyfer troseddau sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 15 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003), a'r gorchmynion sydd ar gael yn rhan o'r gorchymyn cymunedol; y trefniadau rhyddhau ar gyfer dedfryd garcharol, a all gynnwys rhyddhau gan y Bwrdd Parôl; y gallu i atal dedfrydau carcharol; sut y mae dedfrydau cyd-olynol a chydredol yn gweithio; galw'n ôl ac ailryddhau; ac anfon troseddwyr yn ôl i'w gwlad eu hunain. Mae'r cyfeiriad at "disposals…otherwise in respect of criminal conduct" hefyd yn cynnwys gwarediadau y tu allan i'r llys (fel rhybuddiadau, rhybuddion a hysbysiadau cosb).

425 Mae paragraff 4(5) yn cadarnhau nad yw diogelu'r categorïau penodol o droseddau ym mharagraff 4 yn effeithio ar y ffaith bod cymhwysedd wedi'i gadw yn rhinwedd Atodlen 7A ar greu neu addasu troseddau mewn perthynas â materion a gedwir.

426 Mae paragraffau 5 a 6 yn darparu nad yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn gallu addasu rhai darpariaethau penodol mewn deddfiadau penodol ("deddfiadau gwarchodedig").

427 Mae paragraff 5 yn cynnwys tabl o ddeddfiadau gwarchodedig. Mae'r rhain yn ddeddfiadau nad yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn gallu eu haddasu, o ran testun neu fel arall, o dan unrhyw amgylchiadau. Mae i ddeddfiadau gwarchodedig statws gwahanol i'r deddfiadau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 7A. Mae materion a gedwir yn gallu cynnwys pwnc ("subject matter of") deddfiad sydd, o dan brawf pwrpas adran 108A(6), yn cadw'n gyffredinol yr hyn y mae deddfiad yn ymwneud ag ef, yn hytrach na'i union dermau. Er enghraifft, mae paragraffau 1 a 2 o Atodlen 7B yn caniatáu addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir mewn ffyrdd bach. Ar y llaw arall, er nad yw deddfiadau gwarchodedig yn faterion a gedwir fel y cyfryw, mae eu hunion gynnwys wedi'i ddiogelu'n llwyr rhag ei addasu gan baragraff 5. Nid oes eithriadau i'r gwaharddiad hwn.

428 Mae paragraff 6 yn darparu nad yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn gallu addasu Deddf Seneddol (heblaw DLlC) os yw hynny'n galw am godi symiau sydd eu hangen i ad-dalu symiau a fenthyciwyd gan Weinidogion Cymru ar Gronfa Gyfunol Cymru.

429 Mae paragraff 7 yn nodi pa ddarpariaethau yn DLlC sydd wedi'u diogelu. Er bod paragraff 7(1) yn creu gwaharddiad cyffredinol ar addasu DLlC gan ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad, mae paragraff 7(2)-(7) yn amodi'r gwaharddiad hwnnw fel y gall y Cynulliad addasu darpariaethau yn DLlC sy'n ymwneud â'r meysydd lle mae cymhwysedd deddfwriaethol gan y Cynulliad.

430 Mae paragraff 8 yn creu rheol gyffredinol nad yw darpariaeth mewn Deddf Cynulliad, heb gael cydsyniad gan y Gweinidog priodol, yn gallu (a) rhoi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir, (b) addasu cyfansoddiad awdurdodau a gedwir neu (c) newid swyddogaethau sydd i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir. Un enghraifft o ddarpariaeth a fyddai'n cael ei dal gan (c) yw creu pwer i benodi personau i awdurdod a gedwir. Mewn geiriau eraill, creu swyddogaeth sy'n ymwneud â'r awdurdod hwnnw; yn hytrach na chreu swyddogaeth *i'r* awdurdod hwnnw.

431 Mae paragraff 8(3) yn diffinio awdurdodau a gedwir ("reserved authorities") i'r dibenion hyn fel a ganlyn:

- un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau llywodraeth y DU;

- unrhyw awdurdod cyhoeddus (ac eithrio Gweinidog y Goron neu adran o lywodraeth y DU) nad yw'n un o awdurdod cyhoeddus Cymru.

432 I gael ystyr awdurdod cyhoeddus Cymru ("Wales public authority") yn y cyd-destun hwn, gweler y nodyn ar gymal 4.

433 Mae paragraff 8(4) yn diffinio awdurdod cyhoeddus ("public authority") i ddibenion paragraff 8(3), yn gorff, swyddfa neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.

434 Mae paragraff 8(5) yn darparu mai'r Gweinidog priodol i ddibenion paragraff 8(1) yw'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ymarferol, mae'n debygol mai Ysgrifennydd Gwladol Cymru fydd hwn), oni bai fod y swyddogaethau perthnasol yn ymwneud â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Os felly, y Trysorlys fydd y Gweinidog priodol.

435 Mae paragraff 9 yn creu eithriadau i'r rheol gyffredinol sydd wedi'i datgan ym Mharagraff 8. Mae'n datgymhwyso'r amod am gydsyniad Gweinidogol ar gyfer rhoi swyddogaethau i awdurdodau penodol a gedwir neu newid eu cyfansoddiad.

436 Mae paragraff 10 yn gosod amod pellach i gael cydsyniad Gweinidogol y DU ar gyfer deddfwriaeth y Cynulliad. Yn wahanol i baragraff 8(1)(a), sy'n ymwneud â darpariaethau Deddf Cynulliad sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau a gedwir, mae paragraff 10 yn ymwneud â darpariaethau Deddf Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir. Yn eu hanfod, mae'r awdurdodau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt yr un rhai â'r rhai y mae paragraff 8 yn gymwys iddynt, ond mae Gweinidog y Goron wedi cael eu heithrio. Y rheswm am hyn yw bod paragraff 11 yn gwneud darpariaeth benodol ynglŷn â dileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron. Mae paragraff 10 yn destun eithriadau tebyg i'r rhai sy'n bodoli dan baragraff 8.

437 Mae paragraff 11 yn gosod gofyniad i gael cydsyniad gan y Gweinidog priodol cyn y caiff y Cynulliad ddileu neu addasu swyddogaethau penodol un o Weinidogion y Goron. Caiff y swyddogaethau hyn eu categoreiddio'n "qualified devolved functions" a'r rhai sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, dŵr yn y diffiniad lletaf ohono, rheolaeth forol a chymorth ariannol i'r rheilffyrdd. Mae swyddogaeth ddatganoledig amodol yn swyddogaeth sydd:
- wedi'i rhoi i neu ei gosod ar neu ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol gan neu o dan unrhyw Ddeddf; ac
- sydd yn un y gellir ei harfer i unrhyw raddau'n gydredol neu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron neu ddim ond gyda chydsyniad neu gytundeb un o Weinidogion y Goron, neu ar ôl ymgynghori ag ef (ceir rhestr o'r swyddogaethau hyn yn Atodlen 4 i'r Bil).

438 Mae paragraff 11(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Gweinidog y Goron cyn y gall darpariaeth Deddf Cynulliad addasu unrhyw un neu ragor o swyddogaethau datganoledig sy'n bodoli eisoes gan Weinidog y Goron (ac eithrio'r rhai sydd eisoes angen cydsyniad dan baragraff 11(1)). Mae llawer o'r swyddogaethau a roddwyd gan

ddeddfwriaeth Seneddol ar Weinidogion y Goron cyn i'r setliad datganoli gael effaith eisoes wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan orchmynion trosglwyddo swyddogaeth a wnaed gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 58 o DLlC a phwerau eraill. Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i DLlC yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol cyn y gellir addasu un neu ragor o swyddogaethau Gweinidog y Goron. Caiff y ddarpariaeth hon ei diddymu gan y Bil hwn pan fydd Atodlen 7A a 7B yn disodli Atodlen 7. Caiff gweddill swyddogaethau datganoledig Gweinidogion y Goron eu trosglwyddo drwy orchymyn trosglwyddo swyddogaethau ar ôl i'r Bil hwn ddod yn ddeddf gan ddefnyddio pwerau estynedig adran 58, fel y'i diwygiwyd. Rhag ofn nad yw pwerau o'r fath wedi cael eu nodi a'u trosglwyddo yn y gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau, bydd paragraff 11(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â Senedd y DU cyn y gall darpariaeth mewn Deddf y Cynulliad addasu swyddogaeth o'r fath.

439 Mae paragraff 12(1) yn darparu y dylid darllen y cyfeiriadau at gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad sy'n ymddangos drwy'r llyfr statud i gyd heb gymhwyso mecanweithiau cydsyniad Gweinidog y Goron ym mharagraffau 8-11 o Atodlen 7B (neu mewn rhannau eraill, er enghraifft paragraff 7(5)(b) o Atodlen 7B). Mae hyn oherwydd nad yw mecanweithiau cydsyniad o'r fath ond yn berthnasol i gymhwysedd deddfwriaethol Deddfau'r Cynulliad. Felly, nid ydynt yn berthnasol wrth ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yng nghyd-destun deddfwriaeth Senedd y DU oherwydd ni fyddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron fyth ar gyfer deddfwriaeth o'r fath.

440 Fodd bynnag, mae paragraff 12(2) yn darparu y dylid cynnwys y gofyniad am ymgynghoriad ym mharagraff 11(2) wrth ddehongli cyfeiriadau o'r fath.

441 Mae Rhan 2 o Atodlen 7B yn nodi'r eithriadau cyffredinol i Ran 1 o'r Atodlen honno.

442 Mae paragraff 13 yn darparu nad yw'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B yn atal darpariaeth mewn Deddf Cynulliad rhag ailddatgan y gyfraith bresennol neu ddiddymu neu ddirymu deddfiadau sydd wedi darfod. Mae paragraff 13(2) yn egluro bod y cyfyngiad ar y gyfraith ar faterion a gedwir ym mharagraff 1 o Atodlen 7B yn cynnwys unrhyw ailddatgan ar y gyfraith ar faterion a gedwir os yw pwnc yr ailddatgan yn fater a gedwir. Mae hyn yn sicrhau bod y Senedd yn gallu cydgrynhoi neu godeiddio'r gyfraith.

443 Mae paragraff 14 yn sicrhau nad yw'r cyfyngiadau yn Rhan 1 yn cyfyngu'n ormodol ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ynghylch ei weithdrefn is-ddeddfwriaeth ei hun.

## Cymal 4: Awdurdodau cyhoeddus Cymru

444 Mae cymal 4 yn diffinio'r ymadrodd "Wales public authority" i ddibenion DLlC. Defnyddir yr ymadrodd mewn gwahanol ddarpariaethau yn y Ddeddf honno, gan gynnwys y rheini sy'n creu eithriadau i'r amod am gydsyniad Gweinidogol ar gyfer Deddfau Cynulliad sy'n ymwneud â swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus (gweler y nodyn ar Atodlen 2 i'r Bil). Mae "Wales public authority" yn cynnwys awdurdod cyhoeddus y mae ei swyddogaethau:-

- yn rhai y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru'n unig; ac

- yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud yn llwyr neu'n bennaf â materion a gedwir.

445 Wrth benderfynu a yw pen cyntaf y prawf hwn wedi'i fodloni, ni ystyrir unrhyw swyddogaeth y gellid ei rhoi neu ei gosod gan ddarpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd adran 108A(3). Pwrpas hyn yw caniatáu i awdurdodau fel awdurdodau lleol gael eu dynodi'n awdurdodau cyhoeddus Cymru, er y gallent fod â swyddogaethau datganoledig penodol y gellir eu harfer mewn ardaloedd sy'n agos i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

446 Bydd awdurdodau'n awdurdodau cyhoeddus Cymru hefyd yn rhinwedd y ffaith eu bod

wedi'u henwi yn Atodlen 9A newydd a fewnosodir i DLlC gan Atodlen 3. Y bwriad yw y dylai'r rhestr yn Atodlen 9A gyflawni rôl gadarnhau yn rhannol er mwyn cynyddu tryloywder cyfreithiol. Felly, mae'r ffaith na ddylid cymryd bod corff a enwir ar restr yn golygu nad yw hefyd yn bodloni'r amodau yn adran 157A(2) newydd. Gwneir darpariaeth ar gyfer diwygio'r Atodlen 9A newydd gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a gymeradwyir gan y Senedd a'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae adran 157A(1)(a) wedi'i chynnwys yn y Bil er mwyn caniatáu i'r Cynulliad sefydliad awdurdodau cyhoeddus newydd yng Nghymru.

# Pennod 4: Etholiadau

## Cymal 5: Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch etholiadau

447 Mae is-adran (1) o gymal 5 yn amnewid adran 13 newydd yn DLlC.

448 Mae is-adran (1) o'r adran 13 newydd yn rhoi pŵer gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau Cynulliad, cwestiynu etholiadau o'r fath ac ethol aelod Cynulliad yn ffurfiol heblaw mewn etholiad.

449 Mae is-adran (2) o'r adran 13 newydd yn egluro cwmpas pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch cynnal etholiadau Cynulliad ac yn ei gwneud yn glir ei bod yn rhoi'r gallu i wneud darpariaeth:

a. ynghylch cofrestru etholwyr,

b. ar gyfer diystyru newidiadau mewn cofrestr o etholwyr,

c. ynghylch cyfyngu treuliau etholiad ymgeiswyr a chreu troseddau mewn cysylltiad â chyfyngu treuliau o'r fath,

d. ar gyfer cyfuno pleidleisiau,

e. i addasu gweithrediad adrannau 6 ac 8(2) o DLlC, sy'n darparu ar gyfer penderfynu ethol aelodau etholaeth yn ffurfiol cyn y gellir symud ymlaen â'r broses o ddyrannu aelodau rhanbarthol, lle rhoddwyd y gorau i etholiad etholaeth (neu lle diddymwyd hysbysiad etholiad) fel y gellir gwneud darpariaeth arbennig yn rhoi'r gallu i ethol aelodau rhanbarthol yn ffurfiol er nad yw'r holl aelodau etholaeth wedi'u hethol yn ffurfiol; a

f. i addasu effaith adran 9(7) o DLlC i sicrhau bod y nifer cywir o seddau wedi'u dyrannu.

450 Mae is-adran (3) o'r adran 13 newydd yn ei gwneud yn glir y bydd pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch ethol aelod Cynulliad yn ffurfiol heblaw mewn etholiad, yn cynnwys addasu adrannau 11(3) i (5) o DLlC 2006, sy'n ymwneud â'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan fydd sedd Cynulliad ranbarthol yn wag.

451 Mae is-adrannau (4) a (5) o'r adran 13 newydd yn ategu ac yn ymhelaethu ar gwmpas is-adran (1) ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chymhwyso ac addasu cyfraith etholiadol.

452 Mae is-adran (6) o'r adran 13 newydd yn darparu mai'r unig ffordd o gwestiynu ethol aelod Cynulliad yn ffurfiol yw o dan Ran 3 (achosion cyfreithiol) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y mae wedi'i chymhwyso neu ei hymgorffori mewn gorchymyn o dan yr adran hon.

453 Mae is-adran (7) o'r adran 13 newydd yn darparu y bydd unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol y Cynulliad.

454 Mae is-adran (1) yng Nghymal 5 hefyd yn mewnosod adran 13A newydd yn DLlC.

455 Mae is-adrannau (1) i (4) o’r is-adran 13A newydd yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth i gyfuno’r pleidleisiau mewn etholiadau Cynulliad penodol â’r pleidleisiau mewn etholiadau penodol ar gyfer Senedd y DU a Senedd Ewrop. Rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol gael cytundeb Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o’r fath.

456 Mae is-adrannau (5) a (6) o’r adran 13A newydd yn ategu ac yn ymhelaethu ar y pŵer gwneud rheoliadau ac yn rhoi pwerau i’r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chymhwyso ac addasu cyfraith etholiadol yn ogystal â phŵer i ddiwygio ffurflenni a geir yn Neddfau Cynrychiolaeth y Bobl neu mewn rheoliadau neu reolau a wneir o danynt.

457 Mae is-adran (2) o’r cymal yn mewnosod is-adran (5D) newydd yn adran 15 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, yn ei gwneud yn ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheolau cyfuno o dan adran 15(5), lle mae un o’r etholiadau’n etholiad llywodraeth leol yng Nghymru.

## Cymal 6: Amseriad etholiadau

458 Mae cymal 6 yn ymwneud ag amseriad etholiadau Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru. Mae is-adrannau (1) i (3) yn diwygio adran 3 o DLlC drwy ddarparu bod adran 3(1) yn ddarostyngedig i is-adran (1A) newydd. Mae is-adran (1A) yn atal y bleidlais mewn etholiadau cyffredinol arferol i’r Cynulliad rhag cael ei chynnal ar yr un diwrnod â’r bleidlais mewn etholiad cyffredinol arferol i Senedd y DU neu etholiad cyffredinol i Senedd Ewrop. Mae is-adran (2) hefyd yn diwygio adran 3(1) yn dilyn diwygio adran 4 o DLlC a wnaed gan is-adran (7) o gymal 6. O ganlyniad i hynny, gallai dyddiad y bleidlais mewn etholiad cyffredinol arferol i'r Cynulliad hefyd gael ei amrywio gan broclamasiwn dan adran 4 o DLlC.

459 Mae is-adran (3) hefyd yn mewnosod is-adran (1B) newydd sy’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i symud dyddiad y bleidlais mewn etholiadau cyffredinol arferol i’r Cynulliad os byddai fel arall yn cael ei chynnal ar yr un dyddiad â’r bleidlais mewn etholiad cyffredinol arferol i Senedd y DU neu etholiad cyffredinol i Senedd Ewrop, oni bai fod diwrnod y bleidlais yn cael ei bennu gan broclamasiwn dan adran 4 o DLlC, fel y’i diwygir gan is-adran (7). Mae is-adran (5) yn darparu bod gorchymyn a wneir gan ddefnyddio’r pŵer hwnnw’n ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol y Cynulliad.

460 Mae is-adran (4) yn diwygio adran 3(2) o DLlC fel y bydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu’n awtomatig ar ddechrau’r cyfnod gofynnol (“minimum period”), a ddaw i ben, os yw’r bleidlais i’w chynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai, ar y dyddiad hwnnw ac, fel arall, ar y diwrnod a bennwyd gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn o dan is-adran (1B).

461 Mae is-adrannau (6) i (14) yn diwygio adran 4 a 5 o DLlC i drosglwyddo pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i amrywio dyddiad pleidlais mewn un o etholiadau cyffredinol arferol y Cynulliad o dan yr adran honno i'w Mawrhydi yn dilyn cynnig gan y Llywydd. Gall y Llywydd gynnig dyddiad newydd ar gyfer y bleidlais ond ni all hwn fod yr un dyddiad â’r bleidlais mewn etholiad cyffredinol i Senedd y DU neu etholiad cyffredinol i Senedd Ewrop.

462 Mae is-adran (7) yn diwygio adran 4 i ddarparu, pan fo’r Llywydd yn cynnig diwrnod ar gyfer y bleidlais mewn etholiad cyffredinol arferol i'r Cynulliad, y gall Ei Mawrhydi, drwy broclamasiwn dan y Sêl Gymreig, ddiddymu’r Cynulliad, mynnu’r bleidlais yn yr etholiad ar y diwrnod a gynigir, a mynnu bod y Cynulliad yn cyfarfod o fewn y cyfnod o saith niwrnod sy’n dechrau’n union ar ôl dyddiad y bleidlais.

463 Mae is-adran (7) hefyd yn gwneud darpariaeth, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn dan adran 3(1B) o DLlC i bennu dyddiad etholiad, a bod y Llywydd yn cynnig dyddiad newydd ar gyfer etholiad dan adran 4(1) o'r Ddeddf honno, y cynhelir yr etholiad ar y dyddiad a gynigir gan adran 4(1).

464 Mae is-adrannau (9) i (11) yn diwygio adran 4(4) a (6) ac yn dileu adran 4(5) i ddarparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer deddfiadau etholiadau penodol i gael effaith gydag addasiadau neu eithriadau o'r fath, fel yr ystyriant yn briodol mewn cysylltiad â newid dyddiad y bleidlais gan y Llywydd. Gwneir gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Cynulliad.

465 Mae is-adrannau (12) i (14) yn diwygio adran 5 o DLlC i drosglwyddo pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnig dyddiad y bleidlais mewn un o etholiadau cyffredinol eithriadol y Cynulliad o dan yr adran honno i'r Llywydd.

466 Effaith y diwygiadau hyn yw pan fo'r Llywydd yn cynnig dyddiad o'r fath, gall Ei Mawrhydi, drwy broclamasiwn dan y Sêl Gymreig, ddiddymu'r Cynulliad, mynnu'r bleidlais yn yr etholiad ar y diwrnod a gynigir, a mynnu bod y Cynulliad yn cyfarfod o fewn y cyfnod o saith niwrnod sy'n dechrau'n union ar ôl dyddiad y bleidlais.

467 Mae is-adrannau (15) i (17) yn diwygio adran 37 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac yn mewnosod adran 37ZA newydd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae'r is-adran 37ZA newydd yn darparu nad yw'r bleidlais ar gyfer etholiad llywodraeth leol arferol yng Nghymru yn gallu digwydd ar yr un diwrnod â'r bleidlais ar gyfer etholiad cyffredinol arferol i'r Cynulliad ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i symud dyddiad y bleidlais ar gyfer etholiad llywodraeth leol arferol yng Nghymru lle byddai hynny'n digwydd fel arall.

468 Mae is-adrannau (18) i (20) yn diwygio adran 37B o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel na fydd pŵer Gweinidogion Cymru i newid dyddiad pleidlais ar gyfer etholiad llywodraeth leol arferol yng Nghymru i'r un dyddiad â phleidlais mewn etholiad cyffredinol i Senedd Ewrop yn gymwys os yw dyddiad yr etholiad cyffredinol i Senedd Ewrop ar yr un dyddiad ag etholiad cyffredinol arferol i'r Cynulliad.

## Cymal 7: Cofrestru etholiadol: y Gwasanaeth Digidol

469 Mae is-adrannau (1) i (4) yn diwygio adran 10ZC o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"), sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau i'r gofrestr etholwyr, er mwyn darparu bod swyddogaethau penodol sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Statudol, yn rhai y gall Gweinidogion Cymru eu harfer yn gydredol ag un o Weinidogion y Goron. Gall Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaethau: (a) mewn perthynas ag etholiadau i'r Cynulliad neu etholiadau llywodraeth leol; (b) drwy gael cytundeb gan un o Weinidogion y Goron yn unig, ac (c) yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau eraill o dan yr adran hon, ac eithrio eu bod yn agored i'w dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

470 Mae is-adrannau (5) i (8) yn diwygio adran 10ZD o Ddeddf 1983, sy'n ymwneud â newid enw neu gyfeiriad person ar y gofrestr, i ddarparu bod swyddogaethau penodol sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Digidol yn rhai y gall Gweinidogion Cymru eu harfer yn gydredol ag un o Weinidogion y Goron. Mae'r swyddogaethau hyn yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau ag sy'n gymwys i is-adrannau (2) i (5).

471 Mae is-adrannau (9) i (12) yn diwygio adran 53 o Ddeddf 1983, sy'n ymwneud â'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cofrestru, i ddarparu bod swyddogaethau penodol sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Digidol yn rhai y gall Gweinidogion Cymru eu harfer yn gydredol ag un o Weinidogion y Goron. Mae'r swyddogaethau hyn yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau ag sy'n gymwys i is-adrannau (1) i (4) a (5) i (8).

472 Mae'r swyddogaethau hynny a drosglwyddir i Weinidogion Cymru y gellir eu harfer yn gydredol â Gweinidogion y Goron yn ychwanegol i'r rheini sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 3A fel y mewnosodwyd gan Atodlen 4 i'r Bil ac sydd wedi'u trosglwyddo drwy orchmynion trosglwyddo swyddogaethau a wnaed o dan adran 58 o DLlC.

## Cymal 8: Etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddu

473 Mae is-adrannau (2) i (4) yn diwygio adran 50 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2001 ("PRSRA 2011"), sy'n ymwneud ag etholiadau arferol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, i ddarparu bod amseriad etholiadau arferol ar gyfer Comisiynwyr yng Nghymru a Lloegr yn rhoi'r gorau i ddilyn amseriad etholiadau lleol arferol yng Nghymru a Lloegr. Yn hytrach, mae'r newid yn darparu bod etholiadau arferol ar gyfer Comisiynwyr yn cael eu cynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai ym mlwyddyn etholiad, yn hytrach nag ar ddiwrnod etholiadau lleol.

474 Ar hyn o bryd, mae etholiadau lleol arferol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai, ac felly nid fydd y diwygiadau'n newid y dyddiad a drefnwyd ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod amseriad etholiadau'r Comisiynwyr, sydd wedi'u cadw dan y Bil, yn parhau'n fater i Senedd y DU benderfynu yn ei gylch.

475 Mae is-adran (5) yn diwygio adran 51 o PRSRA 2011, sy'n ymwneud â chynnal etholiadau i lenwi swydd wag Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dan adran 51, rhaid i ddyddiad etholiad o'r fath beidio â bod yn fwy na 35 niwrnod ar ôl y "relevant event" sef, yn ôl y diffiniad, pryd y mae'r Uchel Lys neu'r swyddog priodol wedi datgan bod y swydd yn wag ac, yn unrhyw achos pryd y rhoddir hysbysiad o'r swydd wag i'r swyddog priodol gan ddau neu ragor o etholwyr perthnasol. Mae is-adran (5) yn ychwanegu diffiniad newydd o "relevant elector" yng Nghymru i ddilyn y darpariaethau ynghylch yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Comisiynwyr yng Nghymru a fewnosodwyd gan is-adran (8).

476 Mae is-adrannau (6) i (8) yn diwygio adran 52 o'r PRSRA 2011, sy'n ymwneud â'r etholfraint ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, i ddarparu bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr yng Nghymru yn peidio â chyfateb yn uniongyrchol i'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

477 Mae is-adran (8) yn mewnosod is-adran newydd (1B) sy'n darparu y bydd yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr yng Nghymru yn cyfateb yn hytrach i'r etholfraint seneddol, ac eithrio etholwyr dramor. Mae is-adran (8) hefyd yn mewnosod is-adran (1C) newydd sy'n darparu y bydd etholfraint ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr yng Nghymru hefyd yn cynnwys arglwyddi a dinasyddion yr UE dros 18 mlwydd oed sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

478 Mae is-adrannau (9) i (11) yn diwygio adran 64 o'r PRSRA 2011, sy'n ymwneud ag anghymwyso o etholiad fel Comisiynydd. Mae adran 64 yn darparu nad yw person yn gymwys i sefyll fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru oni bai ei fod yn 18 mlwydd oed pan gaiff ei enwebu'n ymgeisydd, a'i fod ar y dyddiad pryd caiff y person ei enwebu ac ar ddyddiad y bleidlais wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn perthynas â chyfeiriad o fewn ardal yr heddlu lle mae'r person yn sefyll fel ymgeisydd. Mae'r diwygiadau'n diwygio'r cyfeiriadau at y gofrestr etholiadol y mae'n rhaid i ymgeisydd yng Nghymru fod wedi ei gofrestru arni, o ganlyniad i'r darpariaethau newydd ynghylch yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a fewnosdwyd gan is-adran (8).

# Pennod 5: Darpariaethau eraill ynghylch deddfu gan y Cynulliad

## Cymal 9: Gofyniad am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai mathau o ddeddfwriaeth

479 Mae Cymal 9 yn mewnosod adrannau 111A a 111B newydd yn DLlC i'w gwneud yn ofynnol bod mathau penodol o ddeddfwriaeth etholiadol yn cael eu pasio gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cynulliad.

480 Mae is-adran (2) o'r adran 111A newydd yn nodi o dan ba amgylchiadau y mae darpariaeth mewn Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig i ddiben y cymal hwn. Ceir amgylchiadau o'r fath pan fyddai darpariaeth yn addasu'r gyfraith sy'n ymwneud â'r materion penodedig canlynol, neu'n rhoi'r gallu i newid y gyfraith yn ymwneud â'r materion canlynol drwy is-ddeddfwriaeth oni bai fod darpariaeth yn atodol neu'n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Bil. Y materion penodedig hyn, mewn perthynas ag etholiadau i'r Cynulliad, yw: yr etholfraint ar gyfer yr etholiadau hynny; y system ar gyfer ethol aelodau Cynulliad yn ffurfiol; pennu nifer yr etholaethau a rhanbarthau neu ardaloedd eraill o'r fath a nifer yr aelodau sydd i'w hethol yn ffurfiol ym mhob etholaeth neu ranbarth neu ardaloedd eraill o'r fath. Yn ogystal â hyn, byddai darpariaeth yn newid enw'r Cynulliad hefyd yn ymwneud â phwnc gwarchodedig ac yn galw am fwyafrif o ddwy ran o dair cyn ei phasio.

Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd benderfynu cyn y cam olaf lle gellir pleidleisio ar Fil Cynulliad a yw darpariaethau'r Bil, yn ei farn ef, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Rhaid i'r Llywydd wneud datganiad i'r diben hwn.

481 Mae is-adran (4) yn darparu na ellir pasio Bil y mae'r Llywydd wedi penderfynu ei fod yn ymwneud â phwnc gwarchodedig oni bai fod nifer yr aelodau sy'n pleidleisio o'i blaid, ar ei gam olaf, yn ddwy ran o dair o leiaf o gyfanswm y seddau yn y Cynulliad.

482 Mae'r adran 111B newydd yn darparu ar gyfer cyfeirio'r cwestiwn o ba un a yw unrhyw ddarpariaeth mewn Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig neu beidio at y Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol.

483 Mae is-adran (2) o'r adran 111B newydd yn darparu bod rhaid cyfeirio unrhyw fater o'r fath mewn amgylchiadau penodol o fewn 4 wythnos ar ôl pasio neu wrthod Bil ar ei gam terfynol, neu o fewn 4 wythnos ar ôl cymeradwyo Bil yn dilyn ei ailystyried ar ôl penderfyniad gan y Goruchaf Lys.

484 Mae is-adran (3) yn darparu na ellir cyfeirio mater o'r fath at y Goruchaf Lys gan y Cwnsler Cyffredinol os yw wedi hysbysu'r Llywydd cyn hynny na fydd yn cyfeirio mater neu gan y Twrnai Cyffredinol os yw wedi hysbysu'r Llywydd cyn hynny na fydd yn cyfeirio mater. Mae is-adran (4) a adran 111B yn sicrhau na fydd y cyfyngiad hwn yn gymwys, ar ôl rhoi hysbysiad o'r fath, os yw Bil wedi'i gymeradwyo neu ei wrthod gan y Cynulliad yn dilyn ei ailystyried ar ôl penderfyniad gan y Goruchaf Lys.

## Cymal 10: Gofyniad am uwch-fwyafrif: diwygiadau'n ymwneud â gweithdrefnau etc.

485 Mae cymal 10 yn diwygio adrannau 111 a 112 o DLlC i adlewyrchu'r prosesau newydd sy'n ofynnol o ganlyniad i gyfeirio mater at y Goruchaf Lys.

486 Mae is-adran (2) yn mewnosod paragraff (za) newydd yn is-adran (6) o adran 111 i'w gwneud yn ofynnol bod y rheolau sefydlog yn darparu ar gyfer ailystyried Bil os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu bod unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo'n ymwneud â phwnc gwarchodedig (wedi i'r Llywydd ardystio nad oes unrhyw ddarpariaeth yn ymwneud â phwnc gwarchodedig).

487 Mae is-adran (3) yn mewnosod is-adran (6A) newydd yn adran 111 i'w gwneud yn ofynnol bod y rheolau sefydlog yn darparu ar gyfer ailystyried Bil os yw wedi cael ei wrthod gan y Cynulliad, a bod y Goruchaf Lys wedi penderfynu nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig (yn dilyn penderfyniad gan y Llywydd fod y Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig).

488 Mae is-adran (4) yn amnewid is-adran (7) yn adran 111 ag is-adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y rheolau sefydlog yn sicrhau bod unrhyw Fil a ailystyriwyd yn dilyn cyfeirio

mater sy'n ymwneud â phwnc gwarchodedig yn mynd drwy gam cymeradwyo terfynol yn y Cynulliad.

489 Mae is-adran (5) yn diwygio adran 111 i sicrhau bod is-adran (8) yn adlewyrchu'r prosesau newydd ar gyfer ailystyried.

490 Mae is-adran (6) yn diwygio adran 112 i'w gwneud yn glir bod yr adran yn ymwneud yn unig â chyfeirio materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol at y Goruchaf Lys (gan wahaniaethu rhyngddi a'r adran newydd ar gyfeirio materion yn ymwneud â phwnc gwarchodedig at y Goruchaf Lys). Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyfeirio mater yn ymwneud â chymhwysedd ar ôl ailystyried Bil Cynulliad.

491 Mae is-adran (7) yn diwygio adran 114 o DLlC i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd ar ôl ailystyried Bil Cynulliad.

492 Mae is-adran (8) yn diwygio adran 115 o DLlC i atal y Llywydd rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol os nad yw'r Goruchaf Lys wedi penderfynu eto ar fater a gyfeiriwyd ato ynghylch pwnc gwarchodedig neu os nad yw'r Bil wedi'i gymeradwyo eto ar ôl ei ailystyried gan y Cynulliad wedi i'r Goruchaf Lys benderfynu ar fater o'r fath sydd wedi'i gyfeirio ato.

### Cymal 11: Cyflwyno Biliau: asesiad o'r effaith ar gyfiawnder

493 Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 110A yn DLlC i ddarparu ar gyfer gwneud asesiadau o'r effaith ar gyfiawnder mewn perthynas â Biliau Cynulliad. Mae'n gwneud hynny drwy ei gwneud yn ofynnol bod rheolau sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth yn mynnu bod y person sy'n gyfrifol am Fil Cynulliad yn amlinellu'r effaith ddichonol o ddarpariaethau'r Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. I'r dibenion hyn, mae'r "system gyfiawnder" yn cynnwys yr effaith ar erlynwyr fel Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Swyddfa Twyll Difrifol, llysoedd a charchardai. Rhaid i'r rheolau sefydlog ragnodi beth fydd ffurf a dull yr asesiad a rhaid cyhoeddi'r asesiad.

### Cymal 12: Cyflwyno Biliau ar gyfer Cydsyniad Brenhinol: rôl y Llywydd

494 Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 115 o DLlC i ddarparu mai'r Llywydd, yn hytrach na Chlerc y Cynulliad, ddylai gyflwyno deddfwriaeth y Cynulliad ar gyfer Cydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn darparu bod y Llywydd yn hytrach na Chlerc y Cynulliad i'w hysbysu lle bydd Bil yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys a lle nad yw'r Twrnai Cyffredinol neu'r Cwnsler Cyffredinol yn bwriadu cyfeirio mater. Mae hyn yn adlewyrchu'r broses yn Senedd yr Alban.

## Pennod 6: Darpariaethau eraill ynghylch y Cynulliad

### Cymal 13: Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio

495 Mae'r cymal hwn yn darparu bod rhaid gwneud darpariaeth gan neu o dan Ddeddf Cynulliad ("Welsh legislation") mewn perthynas â rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio. Mae hyn yn cymryd lle trefniadau blaenorol ar gyfer rheolaethau ariannol yn DLlC.

496 Mae is-adran (1) yn dileu'r gofyniad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud datganiad ysgrifenedig blynyddol i Senedd y DU a'r Cynulliad ynglŷn â grantiau a roddwyd i Gymru a gwariant arall.

497 Mae is-isadran (2) yn mewnosod darpariaeth yn adran 124 o DLlC sy'n cyfateb i adran 65(3) o Ddeddf yr Alban 1998, fel na all y swm a delir allan o Gronfa Gyfunol Cymru gael ei defnyddio ar gyfer unrhyw beth ac eithrio'r hyn y cafodd ei godi ar ei gyfer neu ei dalu allan.

498 Mae is-adran (3) yn mewnosod adran 130A newydd yn DLlC. O dan is-adrannau (1) a (2) o'r

adran hon, rhaid i'r ddeddfwriaeth Gymreig ddarparu ar gyfer:

- paratoi cyfrifon gan Weinidogion Cymru ac eraill y telir symiau iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru o'u gwariant a'u derbyniadau;

- paratoi cyfrif o Gronfa Gyfunol Cymru gan Weinidogion Cymru;

- trefniadau ar gyfer archwilio ac astudio gwerth am arian gan neu o dan oruchwyliaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru (sydd wedi'u disgrifio ymhellach yn is-adran (2) o'r ddarpariaeth hon)

- mynediad gan archwilwyr at y dogfennau hynny a all fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer archwilio;

- dynodi aelodau o staff y Weinyddiaeth Gymreig i fod yn atebol i'r Cynulliad (Swyddogion Cyfrifyddu);

- cyhoeddi cyfrifon ac adroddiadau amdanynt yn unol â'r rheolau ac ar gyfer gosod cyfrifon ac adroddiadau o'r fath gerbron y Cynulliad.

499 Mae is-adran (3) o adran 130A newydd yn darparu bod rhaid i Reolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys ystyriaeth i Gyfrifon ac Adroddiadau Cynulliad.

500 Mae is-adran (4) o adran 130A newydd yn sicrhau annibyniaeth personau sy'n arfer swyddogaethau dan is-adran (2) neu swyddogaethau tebyg eraill.

501 Mae is-adran 5 o adran 130A newydd yn darparu na all deddfwriaeth Gymreig ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau a gedwir yn darparu cyfrifon lle mae deddfwriaeth eisoes yn gwneud hynny'n ofynnol.

502 Mae is-adrannau (6) a (7) o adran 130A newydd yn diffinio hyd a lled yr adran honnol

503 Mae is-adran (4) o Gymal 13 yn tynnu oddi ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yr hawl i gynnal archwiliadau yn ymwneud â thaliadua i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac allan ohoni, a'r pŵer i gynnal astudiaethau gwerth am arian mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus Cymru (gweler Atodlen 3 yn eu cylch).

504 Mae is-adran (5) yn sicrhau nad yw pŵer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau gwerth am arian yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus Cymru pan nad oes ganddo mwyach gyfrifoldebau archwilio drostynt.

## Cymal 14: Cyfansoddiad pwyllgorau'r Cynulliad

505 Mae cymal 14 yn diddymu adran 29 o DLlC i ddileu'r cyfyngiadau ar gyfansoddiad pwyllgorau ac yn caniatáu eu diwygio drwy newidiadau yn rheolau sefydlog y Cynulliad.

## Cymal 15: Trafodion y Cynulliad: cymryd rhan gan Weinidogion y DU etc

506 Mae cymal 15 yn diddymu adrannau 32 a 33 o DLlC. Drwy ddiddymu adran 32 dilëir hawl Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad (nid yw'r pŵer hwn erioed wedi cael ei arfer). Drwy ddiddymu adran 33, dilëir y gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn bresennol yn y Cynulliad fel rhan o'r broses o ymgynghori ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

507 Roedd y darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn DLlC pan oedd y Cynulliad yn dechrau cael ei draed dano, a'r gwahaniaeth rhwng rôl ddeddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd) heb gael ei weithredu eto. Mae'r Cynulliad wedi hen ymsefydlu bellach, gyda llinellau ymgysylltu clir rhyngddo a Llywodraeth y DU. Nid oes angen y darpariaethau hyn bellach yn y cyd-destun hwnnw.

### Cymal 16: Newid enw'r Cynulliad etc: trosi cyfeiriadau

508 Mae cymal 16 yn mewnosod adran 150A newydd yn DLlC i sicrhau y bydd cyfeiriadau mewn deddfwriaeth arall at y Cynulliad a chyrff eraill yn cael eu diwygio'n awtomatig os bydd y Cynulliad yn arfer ei bŵer i newid ei enw (neu enw Comisiwn y Cynulliad neu enw Deddfau'r Cynulliad). Mae newidiadau o'r fath mewn enwau wedi'u gwneud yn bosibl gan baragraff 7(2)(a)(i) a (xii) a pharagraff 7(2)(c)(i) o'r Atodlen 7B newydd a fewnosodir yn DLlC gan Atodlen 2 i'r Bil, sy'n golygu nad yw'r cyfyngiad ar y Cynulliad ynghylch diwygio DLlC ei hun yn cynnwys diwygio'r enwau hynny fel y darperir gan adrannau 1(1), 27(1) a 107(1) yn y drefn honno. Mae is-adran (2) o'r a.150A newydd yn sicrhau y bydd unrhyw gyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad neu Ddeddf y Cynulliad mewn deddfwriaeth arall yn adlewyrchu'r enw newydd os caiff ei newid.

509 Mae is-adran (2) o gymal 16 yn sicrhau bod y diffiniad o ddeddfiad yn yr adran 150A newydd yn cynnwys Deddfau Senedd yr Alban ("DSAau) neu offerynnau a wneir o dan DSAau, felly os bydd y Cynulliad yn newid ei enw, bydd cyfeiriadau ato yn DSAau yn cael eu diweddaru'n awtomatig hefyd.

## Pennod 7: Cyfraddau treth incwm Cymreig: dileu'r gofyniad am refferendwm

### Cymal 17: Cyfraddau treth incwm Cymreig: dileu'r gofyniad am refferendwm

510 Mae cymal 17 yn diwygio Deddf Cymru 2014 i ddileu'r gofyniad am gynnal refferendwm cyn datganoli cyfran o dreth incwm.

511 Mae is-adran (2) yn dileu adrannau 12 a 13 ac Atodlen 1 yn Neddf Cymru 2014. Mae adran 12 yn gwneud darpariaeth am y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a fyddai'n peri cynnal y refferendwm. Mae adran 13 yn darparu ar gyfer y ffordd y gellir cychwyn refferendwm arfaethedig gan Brif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru, ei gymeradwyo gan benderfyniad yn y Cynulliad, a'i weithredu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae Atodlen 1 yn darparu manylion am y ffordd y byddai'r refferendwm yn cael ei gynnal. Gan fod y gyfradd treth incwm Gymreig i'w datganoli i Gymru bellach heb fod angen cynnal refferendwm, gellir diddymu'r holl ddarpariaethau hyn.

512 Mae is-adran (3) yn dileu adran 14(1) yn Neddf Cymru 2014 ac yn diwygio pennawd adran 14. Mae adran 14 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cychwyn y darpariaethau ar gyfer treth incwm drwy orchymyn Trysorlys. Gan nad oes angen cynnal refferendwm bellach cyn y gellir datganoli cyfran o dreth incwm i Gymru, gellir dileu'r cyfeiriadau at y refferendwm yn adran 14(1) ac ym mhennawd adran 14.

513 Mae is-adran (4) yn dileu adran 23(8) yn Neddf Cymru 2014. Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn gwneud adroddiad blynyddol ar weithredu a gweithrediad y mesurau ariannol yn Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014. Mae adran 23(8) yn darparu na fydd angen i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am weithredu'r darpariaethau ar dreth incwm nes bydd mwyafrif wedi pleidleisio o blaid y darpariaethau hyn mewn refferendwm. Gan fod y cymal hwn yn dileu'r gofyniad am gynnal refferendwm, nid oes angen adran 23(8) bellach. Felly bydd angen cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn y dyfodol o dan adran 23 am gamau a gymerwyd, neu gamau y bwriedir eu cymryd, tuag at weithredu'r cyfraddau treth incwm Cymreig.

514 Mae is-adran (5) yn diwygio'r darpariaethau cychwyn yn adran 29 o Ddeddf Cymru 2014 i ddileu cyfeiriadau eraill at y refferendwm sydd bellach yn ddiangen.

# Pennod 8: Cymhwysedd gweithredol

## Cymal 18: Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

515 Mae cymal 18 (1) yn mewnosod adran 58A newydd yn DLlC sy'n rhoi pwerau o'r math a geir yn y gyfraith gyffredin i Weinidogion Cymru; gelwir y pwerau hyn yn swyddogaethau gweinidogol a gellir eu harfer mewn perthynas â swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau ategol i rai gweithredol a roddwyd i Weinidogion Cymru mewn meysydd a gedwir. Mae is-adran (5) yn diffinio beth a olygir wrth swyddogaeth weithredol; nid yw hyn yn cynnwys unrhyw swyddogaethau uchelfreiniol.

516 Mae is-adran (3) yn darparu bod y pwerau hyn i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru yn unig oni bai fod y math o swyddogaethau wedi'i restru yn is-adran (4) fel y gellir ei arfer yn gydredol gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Goron. Y mathau o swyddogaeth a restrir yn is-isadran (4) yw:

a. rhai sy'n ategol at unrhyw swyddogaeth sydd gan Weinidogion Cymru ac a fynegir ei bod i'w harfer yn gydredol neu ar y cyd (boed o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig neu'r tu allan) (gweler adran 59A ac Atodlen 3A fel y mewnosodir gan Atodlen 4 i'r Bil am restr o swyddogaethau o'r fath).

b. rhai sy'n atodol i'r arfer gan un o Weinidogion y Goron ar swyddogaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig,

c. rhai sy'n sefyll ar eu pen eu hunain yn y modd nad ydynt yn ategol at unrhyw swyddogaeth arall

d. yn ymwneud â dilyn neu weithredu cyfraith yr UE.

517 Ceir diffiniad o'r term "ancillary" yn is-adran (6).

518 Mae cymhwysedd datganoledig ("devolved competence") wedi'i ddiffinio yn is-adrannau (7)-(8).

519 Mae is-adran (7) yn darparu mai camau sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig yw gwneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a fyddai y tu allan i gymhwysedd datganoledig. Mewn geiriau eraill, mae darpariaeth y byddai adran 108A yn ei gwahardd rhag ymddangos mewn Deddf Cynulliad yn cael ei gwahardd yn yr un modd gan yr adran hon rhag ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth.

520 Mae is-adran (8) yn gymwys i swyddogaethau heblaw'r rheini sy'n ymwneud â gwneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth. Mae'n darparu bod arfer swyddogaethau o'r fath y tu allan i gymhwysedd datganoledig os byddai darpariaeth mewn Deddf Cynulliad sy'n rhoi'r swyddogaethau hynny yn un sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

521 Mae is-adran (5) yn datgan bod pwerau gweinidogol gweithredol yn cynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â gwariant neu faterion ariannol eraill ac felly caiff adran 70 o DLlC, sydd ar hyn o bryd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cymorth ariannol i bersonau sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n helpu'r Gweinidogion i fynd ati i gyflawni eu swyddogaeth, ei diwygio gan is-adran (2) fel nad yw ond yn gymwys i Brif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r pwerau llesiant yn adran 60 o DLlC hefyd yn gorgyffwrdd â'r pwerau o fath y gyfraith gyffredin a roddir gan adran 58A, ac ychwanegir hyn at y rhestr o ddarpariaethau yn DLlC y gall y Cynulliad eu haddasu neu eu diddymu (gweler paragraff 7 o Atodlen 7B).

Mae cymal 18(3) hefyd yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru dan adran 71 o DLlC, sy'n eu

galluogi i wneud unrhyw beth sy'n ffafriol neu'n atodol i arfer eu pwerau, gan nad oes angen pwerau o'r fath mwyach; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon yn dal yn gymwys i Brif Weinidog Cymru yn gweithredu yn ei rinwedd fel Prif Weindog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

## Cymal 19: Gweithredu cyfraith yr UE

522 Mae cymal 19 yn rhoi hawl awtomatig i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn gweithredu cyfraith yr UE. Mae'r hawl hon yn gymwys i faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ni fydd arfer o'r fath ar bwerau gan Weinidogion Cymru yn amodol bellach ar eu dynodi ymlaen llaw mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a baratowyd gan Lywodraeth y DU. Bydd yr angen i'w dynodi'n parhau os bydd Gweinidogion Cymru am wneud rheoliadau o dan adran 2(2) mewn perthynas â materion sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Bydd y pwerau wrth gefn sydd gan un o Weinidogion y DU a ddynodwyd i wneud rheoliadau o dan adran 2(2) yn parhau heb effaith arnynt, felly, er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru gydsynio i ddeddfwriaeth yr UE gael ei gweithredu gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru.

## Cymal 20: Trosglwyddo Swyddogaethau Gweinidogol

523 Gellir trosglwyddo swyddogaethau a roddwyd gan ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn a wneir o dan adran 58 o DLlC. Mae nifer o orchmynion o'r fath wedi'u gwneud ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999. Mae is-adran (1) yn addasu adran 58 drwy roi'r gallu i orchymyn bennu y gellir arfer swyddogaeth ar y cyd hefyd, yn ogystal â'i harfer yn gydredol, gan un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru. Mae is-adran (2) yn addasu darpariaeth yn Atodlen 3 i DLlC drwy ddileu'r cyfeiriad at gyrff trawsffiniol ac ardaloedd y ffin yn Lloegr fel bod gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau hefyd yn gallu pennu bod swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru yn rhai a all ofyn am gytundeb gan un o Weinidogion y Goron neu ymgynghori ag ef.

524 Mae is-adran (3) a (4) yn mewnosod adran 59A newydd ac Atodlen 3A i DLlC. Mae Atodlen 3A yn rhestru'r holl bwerau hynny sy'n cael eu harfer yn gydredol neu ar y cyd gan Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y pwerau hyn eisoes drwy orchymynion trosglwyddo swyddogaethau (TFOau) a wnaed dan adran 58 o DLlC. Ychwanegir pwerau at yr atodlen hon drwy orchmynion trosglwyddo swyddogaethau a wneir wedyn, os ydynt yn cynnwys pwerau a rennir, fel y bydd rhestr gynhwysfawr o'r pwerau hynny ar gael yn rhwydd. Gan fod y rhain yn bwerau datganoledig amodol, ni ellir addasu'r swyddogaethau hyn heb gael cydsyniad gan un o Weinidogion y Goron (gweler paragraff 11(1)(a) ac 11(3) o Atodlen 7B).

## Cymal 21: Swyddogaethau Gweinidogol a drosglwyddwyd

525 Mae'r cymal hwn yn gwneud addasiadau pellach i'r pŵer yn adran 8 o DLlC i wneud Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau ("TFOau"). Mae is-isadran (2A)(a) yn darparu y gellir gwneud gorchymyn o'r fath mewn perthynas hefyd â swyddogaethau a drosglwyddwyd yn flaenorol gan TFO a (b) yn galluogi i swyddogaethau a drosglwyddwyd yn flaenorol gael eu heangu neu eu lleihau ar sail ddaearyddol neu fel arall. Bydd gorchmynion yn y dyfodol hefyd yn gallu dileu amodau sydd ynghlwm at arfer swyddogaethau o'r fath neu'n addasu'r gofyniad i'w harfer yn gydredol neu ar y cyd.

## Cymal 22: Ymgynghori ynghylch cyrff trawsffiniol

526 Mae cymal hwn yn diddymu adran 63 o DLlC (ymgynghori ynghylch cyrff trawsffiniol). Mae'r adran yn gosod dyletswydd ar Weinidogion y Goron i ymgynghori â Gweinidogion Cymru

cyn arfer swyddogaethau penodol mewn perthynas â chyrff trawsffiniol. Nid yw'r ymadrodd 'cross-border body' wedi'i ddefnyddio yn y model cadw pwerau a gyflwynir gan y Bil. Fel arfer bydd awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau y gellir eu harfer yn Lloegr yn ogystal â Chymru'n cael eu dynodi'n awdurdodau a gedwir ('reserved authorities') o dan y strwythur newydd.

# Rhan 2: Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaethau pellach

## Pennod 9: Petrolewm ar y tir

### Cymal 23: Trwyddedu petrolewm ar y tir

527 Mae cymal 23 yn diwygio adran 8A (dehongli Rhan 1) o Ddeddf Petrolewm 1998 (sydd wedi'i mewnosod gan Ddeddf yr Alban 2016) er mwyn trosglwyddo i Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol penodol sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â thrwyddedu petrolewm ar y tir yn ardal tir Cymru.

528 Mae is-adran (2) yn mewnosod paragraff (aa) newydd yn is-adran (1A) i ddarparu, ar gyfer Rhan 1 o Ddeddf Petrolewm 1998, mai'r awdurdod priodol ("appropriate authority") fydd Gweinidogion Cymru ar gyfer ardal tir Cymru.

529 Mae is-adran (3) yn mewnosod paragraff (aa) newydd yn is-adran (2) i ddarparu, ar gyfer Rhan 1 o Ddeddf Petrolewm 1998, mai'r Gweinidog priodol ("appropriate Minister") fydd Gweinidogion Cymru ar gyfer ardal tir Cymru.

530 Mae is-isadran (40) yn mewnosod is-adrannau (5), (6) a (7) yn adran 8A o Ddeddf Petrolewm 1998. Yn ôl y diffiniad yn yr is-adran (5) a fewnosodwyd, ardal tir Cymru ("Welsh onshore area") yw'r arwynebedd o Gymru (yn cynnwys y môr tiriogaethol gyfagos i Gymru) o fewn y gwaelodlinau a osodir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 1(1)(b) o Ddeddf y Môr Tiriogaethol 1987 (ymestyn y môr tiriogaethol).

531 Mae'r is-adran (6) a fewnosodir yn darparu bod i 'Wales' yr un ystyr ag yn DLlC i ddibenion dehongli'r is-adran (5) newydd.

532 Yn ôl y diffiniad yn yr is-adran (7) a fewnosodwyd, ardal tir Lloegr ("English onshore area") yw'r arwynebedd o Loegr a'r dyfroedd tiriogaethol yn gyfagos i Loegr sydd o fewn y gwaelodlinau a osodir gan unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 1(1)(b) o Ddeddf y Môr Tiriogaethol 1987 (ymestyn y môr tiriogaethol).

### Cymal 24: Petrolewm ar y tir: trwyddedau presennol

533 Mae cymal 24 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r darpariaethau a chymalau enghreifftiol mewn trwyddedau a oedd yn bodoli cyn cychwyn pwerau trwyddedu datganoledig ar gyfer olew a nwy. Mae'r pŵer ychwanegol hwn yn gyfyngedig i'r trwyddedau hynny a oedd eisoes yn bodoli ar dir Cymru.

534 Mae is-adran (1) yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r darpariaethau mewn trwydded bresennol a'r cymalau enghreifftiol sydd wedi'u hymgorffori neu sydd â'r effaith o fod wedi'u hymgorffori mewn trwydded bresennol o'r fath.

535 Mae is-adran (2) yn pennu bod y pŵer i ddiwygio, a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan is-adran (1), i'w arfer dim ond lle tybir bod hynny'n angenrheidiol neu'n fanteisiol o ganlyniad i un ai datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros drwyddedu olew a nwy ar y tir (fel y nodir yn yr eithriadau yn adran D2 o Ran 2 o Atodlen 7A i DLlC) neu o ganlyniad i ddatganoli swyddogaethau gweithredol.

536 Mae is-adran (3) yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo, lle nad oedd trwydded ond yn rhannol o fewn ardal tir Cymru ar adeg ei rhoi, y gall y drwydded hon fod mewn grym fel un drwydded yn ardal tir Cymru ac fel trwydded ar wahân yn yr ardal y tu allan i ardal tir Cymru. Mae'r pŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau angenrheidiol mewn trwyddedau presennol ac yn y cymalau enghreifftiol sydd wedi'u hymgorffori ynddynt neu sydd â'r effaith o fod wedi'u hymgorffori ynddynt wedi'i ymestyn i drwyddedau o'r fath.

537 Mae is-adran (4) yn pennu bod y pŵer i ddiwygio'r cymalau enghreifftiol, a ddarperir gan is-adran (1)(a), i'w arfer drwy reoliadau a wneir drwy offeryn statudol. (Nid yw'r pŵer i ddiwygio darpariaethau eraill mewn trwyddedau presennol, a ddarperir gan is-adran (1)(b), yn un y mae angen ei arfer drwy reoliadau.)

538 Mae is-adran (5) yn pennu y bydd unrhyw offerynnau statudol o'r fath, sy'n cynnwys rheoliadau ar gyfer diwygio trwyddedau presennol, yn agored i'w dirymu'n unol â phenderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.

539 Yn ôl y diffiniad yn is-adran (6), trwyddedau presennol ("existing licences") yw'r trwyddedau hynny a roddwyd o dan adran 3 o Ddeddf Petrolewm 1998 neu o dan adran 2 o Ddeddf Petrolewm (Cynhyrchu) 1934 cyn cychwyn datganoli pwerau trwyddedu i Weinidogion Cymru ar gyfer ardal tir Cymru ("Welsh onshore area"), sydd wedi'i diffinio yn adran D2 o Ran 2 o Atodlen 7A i DLlC.

## Cymal 25 Petrolewm ar y tir: hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru

540 Mae cymal 25 a pharagraffau 25 i 29 o Atodlen 5 yn diwygio Deddf Seilwaith 2015 ("DS 2015") o ganlyniad i ddatganoli pwerau deddfu i'r Cynulliad mewn perthynas â mynediad i dir er mwyn chwilio am neu dyllu am neu gael petrolewm o fewn ardal tir Cymru ("Welsh onshore area") (gweler yr eithriad i'r mater a gedwir yn adran D2 (olew a nwy) o'r Atodlen 7A newydd i DLlC).

(A) Hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr

541 Mae adran 43 o DS 2015 yn darparu ar gyfer hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr (h.y., tir ar ddyfnder o 300 metr ac yn is) er mwyn elwa o betrolewm ac ynni geothermol dwfn mewn ardaloedd o'r tir ("landward areas") yng Nghymru a Lloegr. Mae adrannau 45 a 46 o DS 2015 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau'n cynnwys cynlluniau talu ("payment schemes") a chynlluniau hysbysu ("notice schemes") i'w gwneud yn ofynnol i ymgymeriadau ynni perthnasol ("relevant energy undertakings") wneud taliadau i berchenogion tir ac eraill mewn perthynas â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr ac i roi hysbysiad mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr. Y bwriad yw na fydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau'n cael eu harfer oni bai fod yr ymrwymiadau gwirfoddol gan y diwydiant i hysbysu cymunedau lleol a gwneud taliadau mewn cysylltiad â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yn anfoddhaol.

542 Mae is-adran (2) o gymal 25 a pharagraff 25 o Atodlen 5 yn diwygio adran 45 o DS 2015 i roi pŵer i wneud cynlluniau talu ("payment schemes") mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru er mwyn elwa o betrolewm i Weinidogion Cymru yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol. (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i wneud cynlluniau talu ("payment schemes") mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio (a) tir ar ddyfnder mawr yn Lloegr er mwyn elwa o betrolewm a (b) tir ar ddyfnder mawr yn Lloegr ac yng Nghymru er mwyn elwa o ynni geothermol dwfn.) Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ymgymeriadau ynni perthnasol ddarparu gwybodaeth benodedig i Weinidogion Cymru neu i unrhyw berson penodedig arall ynghylch arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr a gwneud taliadau. Rhaid i

Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn credu sy'n briodol cyn gwneud unrhyw reoliadau.

543 Mae is-adran (3) o gymal 25 a pharagraff 26 o Atodlen 5 yn diwygio adran 46 o DS 2015 i roi pŵer i wneud cynlluniau hysbysu ("notice schemes") mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru er mwyn elwa o betrolewm i Weinidogion Cymru yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol. (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer i wneud cynlluniau hysbysu ("notice schemes") mewn perthynas ag arfer yr hawl i ddefnyddio (a) tir ar ddyfnder mawr yn Lloegr er mwyn elwa o betrolewm; a (b) tir ar ddyfnder mawr yn Lloegr ac yng Nghymru er mwyn elwa o ynni geothermol dwfn.) Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ymgymeriadau ynni perthnasol ddarparu gwybodaeth benodedig i Weinidogion Cymru neu i unrhyw berson penodedig arall ynghylch arfer yr hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr ac ynghylch hysbysiadau a wnaed gan yr ymgymeriad. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn credu sy'n briodol cyn gwneud unrhyw reoliadau.

544 Mae paragraff 27 o Atodlen 5 yn diwygio adran 47 o DS 2015 i ddarparu y bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45 neu 46 o DS 2015 (h.y., cynlluniau talu a chynlluniau hysbysu) yn gallu rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru neu i unrhyw berson arall, ar wahân i un o Weinidogion y Goron. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu y bydd dyletswyddau'r Ysgrifennydd Gwladol (1) i adolygu adrannau 45 a 46 o fewn 5 mlynedd ar ôl eu cychwyn (gweler adran 47(5) o DS 2015) a (2) i ddiddymu adrannau 45 a 46 os bydd yr amodau perthnasol ("relevant conditions") wedi'u bodloni (gweler adran 47(6) a (7) o DS 2015) yn gymwys dim ond i bwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hynny (ac nid i bwerau Gweinidogion Cymru).

545 Mae paragraff 28 o Atodlen 5 yn diwygio adran 48 o DS 2015 i roi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n diffinio "landward area" fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yn Lloegr er mwyn elwa o betrolewm a'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru a Lloegr er mwyn elwa o ynni geothermol dwfn. Rhoddir pŵer hefyd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r diffiniad hwnnw fel y mae'n gymwys mewn perthynas â'r hawl i ddefnyddio tir ar ddyfnder mawr yng Nghymru er mwyn elwa o betrolewm yn ardal tir Cymru. Bydd y diffiniad presennol o "landward area" yn Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Elwa a Chynhyrchu) (Ardaloedd o'r Tir) 2014 yn parhau nes gwneud rheoliadau o'r fath. Mae'r diwygiadau hefyd yn darparu gwahanol ddiffiniadau at ddiben y diwygiadau a wneir gan y Bil.

546 Mae paragraff 29 o Atodlen 5 yn diwygio adran 55 o DS 2015 i ddarparu bod rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 48 o DS 2015, a chan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45, 46 a 48 o DS 2015, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

(B) Cyngor ar yr effaith debygol o betrolewm ar y tir ar y gyllideb garbon

547 Mae adran 49 o DS 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gyngor o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd am yr effaith sy'n debygol o godi o losgi petrolewm a gafwyd drwy weithgarwch ar y tir yng Nghymru a Lloegr, ac o'r allyriadau sy'n ffoi ohono, ar gyflawni'r rhwymedigaethau ar gyfer cyllideb garbon y DU.

548 Mae is-adran (4) o gymal 25 yn diwygio adran 49 o DS 2015 i ddarparu bod dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â phetrolewm a geir drwy weithgarwch ar dir yn Lloegr yn unig.

# Pennod 10: Trafnidiaeth ffyrdd

## Cymal 26: Ffyrdd: terfynau cyflymder, croesfannau i gerddwyr ac arwyddion traffig

549 Mae'r cymal hwn yn diwygio darpariaethau canlynol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("RTRA 1984").

- Adran 17 (rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig), i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â ffordd arbennig benodol yng Nghymru, ac i reoleiddio cyflymdra cerbydau ar ffyrdd arbennig yng Nghymru.

- Adran 25(1) (Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau croesfannau i gerddwyr), i alluogi'r awdurdod perthnasol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â chroesfannau i gerddwyr. Ystyr awdurdod perthnasol yn y ddarpariaeth hon yw Gweinidogion Cymru neu'r Alban (os yw o fewn eu cymhwysedd datganoledig) neu fel arall yr Ysgrifennydd Gwladol.

- Adran 64 (darpariaethau cyffredinol ynghylch arwyddion traffig), i alluogi'r awdurdod perthnasol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas ag arwyddion traffig, ac mae awdurdod perthnasol wedi'i ddiffinio yn yr un ffordd ag yn adran 25.

- Adran 86 (terfynau cyflymder ar gyfer dosbarthiadau penodol o gerbydau) i ddiffinio'r awdurdod perthnasol, mewn perthynas â gyrru cerbydau ar ffyrdd yng Nghymru, fel ei fod yn golygu Gweinidogion Cymru.

- Adran 87 (esemptio cerbydau argyfwng rhag terfynau cyflymdra) (fel y'i diwygiwyd gan adran 19 o Ddeddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006), i alluogi'r awdurdod cenedlaethol i arfer y pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r dibenion a'r amgylchiadau lle na fydd terfynau cyflymdra yn gymwys i gerbydau heblaw'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau argyfwng; ac mae'n diffinio'r awdurdod perthnasol (i'r graddau y mae ganddo gymhwysedd) fel ei fod yn golygu Gweinidogion yr Alban; ac fel arall, yr Ysgrifennydd Gwladol.

- Adran 88 (terfynau cyflymdra dros dro) i ddiffinio'r awdurdod perthnasol, mewn perthynas â ffyrdd yng Nghymru, fel ei fod yn golygu Gweinidogion Cymru.

- Adran 142(1) (dehongli cyffredinol) i ddiffinio 'national authority', mewn perthynas â Chymru, fel ei fod yn golygu Gweinidogion Cymru.

## Cymal 27: Cofrestru gwasanaethau bysiau a Chomisiynwyr Traffig

550 Mae'r cymal hwn yn trosglwyddo'r cymhwysedd gweithredol dros y swyddogaethau a geir yn adran 6(9)(g), (i) a (j) ac adran 7(6)(d), (9) a (11) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 i Weinidogion Cymru (i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu harfer mewn perthynas â Chymru). Yr un yw'r swyddogaethau hyn o dan adrannau 6 a 7 â'r rheini a drosglwyddwyd i Weinidogion yr Alban yng Ngorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Awdurdodau Cyhoeddus Trawsffiniol) (Comisiynydd Traffig dros Ardal Draffig yr Alban) 2007 (O.S. 2007/2139).

551 O ganlyniad i ddatganoli'r cymhwysedd dros gofrestru llwybrau bysiau, mae'r cymal hwn hefyd yn diwygio adran 4C o Ddeddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981 fel na fydd pŵer yr uwch gomisiynydd traffig i roi arweiniad neu gyfarwyddiadau cyffredinol i gomisiynwyr traffig eraill yn gymwys mewn perthynas â materion a ddatganolwyd i Gymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a geir eisoes yn yr Alban lle na all yr uwch gomisiynydd traffig roi arweiniad neu gyfarwyddiadau mewn perthynas â materion a ddatganolwyd i'r Alban.

## Cymal 28: Tacsis: trosglwyddo swyddogaethau penodol i Weinidogion Cymru

552 O ganlyniad i ddatganoli pwerau i'r Cynulliad i ddeddfu ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, trwyddedu gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a thrwyddedu gweithredwyr cerbydau hurio preifat, mae'r cymal hwn yn trosglwyddo swyddogaethau'r Ysgrifennydd

Gwladol yn adran 10 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (hurio tacsis yn syth am brisiau ar wahân) i Weinidogion Cymru.

# Pennod 11: Harbyrau

## Cymal 29: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â harbyrau yng Nghymru

553 Mae'r cymal hwn yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru nifer o swyddogaethau sy'n ymwneud â harbyrau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, heblaw am borthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir sydd wedi'u diffinio yng nghymal 32. Mae'r swyddogaethau a drosglwyddir yn swyddogaethau i un o Weinidogion y Goron o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â harbyrau, awdurdodau harbwr a pheilotiaeth ac maent wedi'u pennu yn is-adran (2). Mae 'Wales' wedi'i ddiffinio yn is-adran (7) gan roi iddo'r un ystyr ag yn DLlC; mae'n cynnwys y môr cyfagos i Gymru hyd at ffin y môr tiriogaethol tua'r môr, ac mae ffin y môr yn gyfagos i Gymru yn aberoedd Dyfrdwy a Hafren wedi'i bennu drwy orchymyn (gweler DLlC, adrannau 158(1) a (3) a pharagraff 27(3) o Atodlen 11, a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erthygl 6 ac Atodlen 3).

554 Mae swyddogaethau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 a ddirprwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddefnyddio pwerau yn adran 42A o'r Ddeddf honno wedi'u cynnwys yn y swyddogaethau a drosglwyddir (is-adran (3)). Drwy Orchymyn Deddf Harbyrau 1964 (Dirprwyo Swyddogaethau) 2010, O.S. 2010/674, trosglwyddwyd rhai swyddogaethau i'r Sefydliad Rheoli Morol.

555 Lle mae unrhyw swyddogaeth a drosglwyddir yn ymwneud â dau neu ragor o harbyrau, mae'r swyddogaeth wedi'i throsglwyddo dim ond os yw'r ddau harbwr neu'r cyfan ohonynt yn gyfan gwbl yng Nghymru ac os nad ydynt yn borthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir (is-adran (4)).

556 Mae swyddogaeth a bennwyd heb gael ei throsglwyddo i'r graddau y gellir ei harfer i greu harbwr trawsffiniol (is-adran (5)). Mae harbwr trawsffiniol yn harbwr sy'n rhannol yn Lloegr ac yn rhannol yng Nghymru (is-adran (7) a chymal 32(5)).

## Cymal 30: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol: diwygiadau i Ddeddf Harbyrau 1964

557 Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Harbyrau 1964 i drosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â harbyrau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru (heblaw porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir) o un o Weinidogion y Goron i Weinidogion Cymru. Mae'r swyddogaethau'n ymwneud â gorchmynion harbwr, gorchmynion cau harbwr a gorchmynion yn dynodi bod awdurdodau harbwr wedi'u hawdurdodi i roi cyfarwyddiadau i longau. Mae is-adran (3) yn mewnosod paragraff (1A) newydd yn adran 17E o'r Ddeddf Harbyrau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud gorchymyn cau harbwr sy'n trosglwyddo swyddogaethau i'r awdurdod harbwr dros harbwr sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr neu dros borthladd ymddiriedolaeth a gedwir.

## Cymal 31: Trosglwyddo swyddogaethau ar gyfer harbyrau: cymhwyso darpariaethau cyffredinol

558 Mae'r cymal hwn yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Atodlenni 3 a 4 i DLlC at y swyddogaethau a drosglwyddir gan gymalau 28 a 29, fel pe bai'r swyddogaethau hynny wedi'u trosglwyddo drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 58 o'r Ddeddf honno. Mae'r darpariaethau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau a drosglwyddwyd, dilysrwydd parhaus pethau a wnaed gan un o Weinidogion y Goron cyn y trosglwyddo a

throsglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwydd.

559 Cymhwysir y darpariaethau at drosglwyddo swyddogaethau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 y gellir eu harfer gan ddirprwy yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 42A o'r Ddeddf honno (is-adran (2)). (Roedd Gorchymyn Deddf Harbyrau 1964 (Dirprwyo Swyddogaethau) 2010, O.S. 2010/674, wedi dirprwyo swyddogaethau penodol sydd gan un o Weinidogion y Goron o dan y Ddeddf Harbyrau i'r Sefydliad Rheoli Morol.)

560 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau'n gosod trefniadau i'r gwrthwyneb ynghylch agweddau ar drosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwydd (is-adran (3)) a gall y rheoliadau wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, gan gynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol harbyrau neu ddisgrifiadau o harbyrau (is-adran (4)). Mae'r rheoliadau i'w gwneud drwy orchymyn statudol o dan y weithdrefn negyddol (is-adran (5) a (6)).

## Cymal 32: Harbyrau Cymru: porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir

561 Mae'r cymal hwn yn diffinio porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir. Mae porthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn harbwr, doc, pier neu lithrfa sydd, ar y dyddiad y mae cymal 3(1) yn dod i rym, yn cael ei berchenogi neu ei reoli gan awdurdod harbwr sy'n awdurdod porthladd perthnasol o fewn ystyr Deddf Porthladdoedd 1991 ac sy'n cwrdd â'r gofyniad blynyddol am drosiant sydd wedi'i nodi yn adran 11 o'r Ddeddf honno. Rhaid cwrdd â'r gofyniad blynyddol am drosiant mewn dwy o'r tair blwyddyn gyfrifyddu flaenorol y mae cyfrifon yr awdurdod harbwr wedi'u cyflwyno ar eu cyfer yn unol ag adran 42 o Ddeddf Harbyrau 1964 (is-adran (3), sy'n cymhwyso adran 11(1) o'r Ddeddf Porthladdoedd gydag addasiadau canlyniadol).

## Cymal 33: Cydsyniad Datblygu

562 Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 24 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'n hepgor y canlynol o'r system caniatáu datblygu o dan y Ddeddf honno sy'n gymwysadwy at brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol: adeiladu neu addasu cyfleusterau harbwr sy'n gyfan gwbl yng Nghymru neu mewn dyfroedd cyfagos i Gymru, ac eithrio cyfleusterau harbwr sy'n cynnwys neu sy'n rhan o borthladd ymddiriedolaeth a gedwir.

## Cymal 34: Harbyrau trawsffiniol

563 Mae'r cymal hwn yn diffinio harbyrau trawsffiniol i olygu harbyrau sy'n rhannol yn Lloegr ac yn rhannol yng Nghymru (is-adran (5)).

564 Lle mae un o Weinidogion y Goron yn cynnig arfer swyddogaeth berthnasol mewn perthynas â harbwr trawsffiniol ac y byddai ei harfer, ym marn y Gweinidog, yn debygol o gael effaith sylweddol yng Nghymru, rhaid i'r Gweinidog ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn arfer y swyddogaeth (is-adran (1)). Mae swyddogaethau perthnasol wedi'u pennu yn is-adran (4) ac maent yn cynnwys gwneud gorchmynion, rheoliadau a phenderfyniadau, rhoi cyfarwyddiadau, swyddogaethau caniatáu a chymeradwyo o dan Ddeddf Harbyrau 1964, Deddf Dociau a Harbyrau 1966, Deddf Porthladdoedd (Cyllid) 1985 a Deddf Porthladdoedd 1991.

565 Rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru hefyd cyn arfer swyddogaeth o dan Ddeddf Harbyrau 1964 a fyddai'n creu harbwr trawsffiniol newydd (is-adran (2)).

566 Lle mae swyddogaeth berthnasol wedi'i dirprwyo o dan adran 42A o Ddeddf Harbyrau 1964, bydd y dirprwy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau a osodir gan y cymal hwn (is-adran (3)). (Roedd Gorchymyn Deddf Harbyrau 1964 (Dirprwyo Swyddogaethau) 2010, O.S. 2010/674, wedi dirprwyo swyddogaethau penodol sydd gan un o Weinidogion y Goron o dan y Ddeddf Harbyrau i'r Sefydliad Rheoli Morol.)

## Cymal 35: Arfer swyddogaethau peilotiaeth ar draws ffiniau

567 Mae'r cymal hwn yn cynnwys gofynion o ran ymgynghori a chaniatáu sy'n gymwysadwy i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau peilotiaeth perthnasol sy'n cael eu cymhwyso ar draws y ffin. Mae swyddogaethau peilotiaeth perthnasol wedi'u pennu yn is-adran (4).

568 Lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig arfer swyddogaeth peilotiaeth berthnasol mewn perthynas â dyfroedd yng Nghymru, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori'n gyntaf â Gweinidogion Cymru (is-adran (1)).

569 Lle mae Gweinidogion Cymru yn cynnig arfer swyddogaeth peilotiaeth berthnasol (a drosglwyddir gan gymal 29) sydd mewn perthynas â dyfroedd yn Lloegr, rhaid i Weinidogion Cymru gael cydsyniad yn gyntaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol (is-adran (2)). Mae cymal 29 yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru swyddogaethau peilotiaeth mewn perthynas â harbyrau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, gan gynnwys rhai lle mae'r awdurdodaeth peilotiaeth yn ymestyn i ddyfroedd cyfagos i Loegr. Mae eithriad i'r gofyniad am gael cydsyniad lle mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud penderfyniad ar apêl sy'n ymwneud â thaliadau llywio neu awdurdodi peilotiaid yr EEA, lle mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r Ysgrifennydd Gwladol (is-adran (3)).

## Cymal 36: Adrannau 34 a 35:atodol

570 Mae'r cymal hwn yn darparu na fydd y dyletswyddau i ymgynghori cyn arfer swyddogaeth sydd wedi'u gosod ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gan gymalau 34 a 35 yn gymwys os nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt gydymffurfio (is-adran (1)). Os nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt gydymffurfio, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) hysbysu ei gilydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am arfer y swyddogaeth a'r rhesymau dros ei harfer (is-adrannau (2) a (3)). Mae is-adran (4) yn darparu nad yw methu â chydymffurfio â dyletswydd i ymgynghori'n effeithio ar ddilysrwydd yr arfer ar y swyddogaeth.

571 Mae'r cymal hwn hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau'n addasu'r ffordd o gymhwyso'r darpariaethau ynghylch harbyrau trawsffiniol a pheilotiaeth drawsffiniol sydd yng nghymalau 34, 35 a 36 mewn perthynas â harbyrau neu ddisgrifiadau o harbyrau a bennwyd (is-adran (5)).  Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru (is-adran (6)).

572 Mae is-adran (7) yn darparu'n benodol fod y rheoliadau'n gallu datgymhwyso'r gofynion am ymgynghori gan un o Weinidogion y Goron neu am ymgynghori neu gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn arfer swyddogaeth, yn gallu newid gofyniad i ymgynghori'n ofyniad i gael cydsyniad (ac fel arall) ac yn gallu cyflwyno gofynion newydd i un o Weinidogion y Goron ymgynghori neu gael cydsyniad cyn arfer swyddogaeth sydd heb ei chrybwyll yng nghymal 34 neu 35 neu i Weinidogion Cymru ymgynghori neu gael cydsyniad cyn arfer swyddogaeth sydd heb ei chrybwyll yng nghymal 35.

573 Gall y swyddogaethau wneud darpariaeth wahanol at wahanol ddibenion neu achosion a darpariaeth ganlyniadol, atodol, ychwanegol, trosiannol ac arbed (is-adran (8)).

574 Rhaid gwneud y rheoliadau drwy offeryn statudol o dan y weithdrefn negyddol (is-adrannau (9) a (10)).

# Pennod 12: Cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan

## Cymal 37: Caniatâd cynllunio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu â chapasiti o 350MW neu lai

575 Mae cymal 37 yn gweithredu bwriad polisi i ddatganoli i Gymru y cyfrifoldeb dros ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu prosiectau ynni hyd at ac yn cynnwys capasiti o 350MW ar dir ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru.

576 Is-adrannau (1)-(6) – Effaith yr is-adrannau hyn gyda'i gilydd yw datgymhwyso pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008") i roi caniatâd datblygu ar gyfer yr holl orsafoedd cynhyrchu trydan yng Nghymru ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru i'r graddau nad yw capasiti prosiectau o'r fath (heb gynnwys gorsafoedd cynhyrchu ar y tir a yrrir gan wynt) yn fwy na 350MW, ac ar gyfer yr holl orsafoedd cynhyrchu ar dir a yrrir gan wynt.

577 Is-adrannau (7)-(13) – Byddai'r datgymhwyso yn is-adrannau (1) - (6) fel arall yn gadael y caniatáu ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan i'w benderfynu'n unol ag adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. Effaith is-adrannau (7) - (13) gyda'i gilydd yw dileu'r gofynion yn adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i'r graddau y maent yn ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu trydan sydd â chapasiti hyd at ac yn cynnwys 350MW yng Nghymru, fel y gall Gweinidogion Cymru ganiatáu prosiectau o'r fath o dan y broses bwrpasol ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sydd wedi'i mewnosod yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y mae'n gymwys yng Nghymru, gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Gan nad yw'r system o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gymwys yn y môr mawr, mae adran 36 wedi'i datganoli i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfynu ar brosiectau sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350MW yn nyfroedd tiriogaethol Cymru ac ym Mharth Cymru.

## Cymal 38: Gorsafoedd cynhyrchu a hawliau mordwyo cyhoeddus

578 Mae cymal 38 yn trosglwyddo rhai swyddogaethau o dan adran 36A ac adran 36B o Ddeddf Trydan 1989 i Weinidogion Cymru ar gyfer caniatáu gorsafoedd cynhyrchu yn y môr mawr sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350MW. Bydd cymal 36 yn diwygio adran 36A o Ddeddf Trydan 1989, fel y bydd Gweinidogion Cymru yn y dyfodol yn gallu gwneud datganiadau'n diddymu hawliau mordwyo cyhoeddus, er mwyn sicrhau diogelwch, hyd at derfynau'r môr tiriogaethol tua'r môr, mewn perthynas â gorsafoedd cynhyrchu sydd â chapasiti hyd at 350MW.

579 Bydd adran 36B o Ddeddf Trydan 1989 yn cael ei diwygio i ganiatáu gosod dyletswyddau mordwyo ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â chaniatáu gorsafoedd cynhyrchu sydd â chapasiti hyd at 350MW mewn dyfroedd cyfagos i Gymru tua'r môr hyd at derfyn Parth Cymru ("Welsh zone"), fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 158(1) o DLlC.

## Cymal 39: Parthau diogelwch o amgylch gweithfeydd ynni adnewyddadwy

580 Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Ynni 2004 ("Deddf 2004") i alluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â datgan parthau diogelwch o amgylch, a datgomisiynu, datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr mawr sy'n gyfan gwbl mewn dyfroedd cyfagos at Gymru hyd at y terfynau tua'r môr ym Mharth Cymru.

581 Mae'r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2004 (parthau diogelwch o amgylch gweithfeydd ynni adnewyddadwy) i ddarparu pŵer disgresiwn i Weindogion Cymru roi hysbysiad i ddatgan parthau diogelwch o amgylch gweithfeydd ynni adnewyddadwy mewn dyfroedd Cymreig ac i bennu pa weithgareddau a ganiateir o fewn y parth diogelwch, a pha lestrau a gaiff fynediad neu a gaiff aros o fewn parth diogelwch. Pan gynigir bod gweithfa o'r fath yn cael ei hymestyn y tu hwnt i ddyfroedd Cymreig, neu pan fo gweithfa o'r fath yn gwneud hynny, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y swyddogaethau mewn perthynas â datgan ardaloedd diogelwch mewn perthynas â'r rhan honno o'r weithfa, oni bai fod

Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru wneud hynny.

582 Mae paragraff 44 o Atodlen 5 yn diwygio Deddf Trydan 1989 i greu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i lywodraethu'r broses o wneud cais am gydsyniad dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu hyd at 350MW mewn dyfroedd cyfagos i Gymru.

583 Mae paragraff 46 o Atodlen 5 yn diwygio Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989 fel nad yw'n gymwys i geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru.

584 Mae paragraff 54 o Atodlen 5 yn diwygio Deddf Ynni 2004 sef pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n llywodraethu ar geisiadau ar gyfer ardaloedd diogelwch bydd y rhain yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

585 Mae paragraffau 65 a 67 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ystyried trwyddedau morol dan adran 149A o Ddeddf Gynllunio 2008, i ganiatau ar gyfer newidiadau i'r awdurdod a fyddai fel arall yn rhoi'r trwyddedau hynny ac yn eu gorfodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru.

## Cymal 40: Datblygu cysylltiedig a llinellau uwchben

Mae'r cymal hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol roi datblygiad cysylltiedig gyda gorsafoedd cynhyrchu y gallant gydsynio iddynt (y rhai nad ydynt yn fwy na 350MW), ar yr amod fod llinellau trydan uwchben (yn agored i gyfyngiad o 132kV o foltedd enwol) yn gysylltiedig o raid â gorsafoedd cynhyrchu y gellir cydsynio iddynt gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru fel datblygiad dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## Cymal 41: Alinio caniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig

586 Mae cymal 41 yn gweithredu'r argymhelliad gan Gomisiwn Silk, a fabwysiadwyd yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi, y dylai'r cyfrifoldeb dros ganiatáu datblygu cysylltiedig ar gyfer prosiectau ynni gael ei alinio â'r cyfrifoldeb dros ganiatáu'r prif brosiect.

587 Ar hyn o bryd mae caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu o fwy na 50 MW yn cael ei roi drwy Orchymyn Caniatâd Datblygu a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y system ar gyfer seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol a nodwyd yn Neddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008"). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd o dan Ddeddf 2008 ar gyfer prosiect cynhyrchu ynni y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer.

588 Yn achos prosiectau cynhyrchu ynni mawr, mae hefyd yn debygol y bydd angen caniatáu datblygu sy'n gysylltiedig â'r prif brosiect ac sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu'r prosiect ('datblygu cysylltiedig') a gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd ar gyfer hyn hefyd o dan Ddeddf 2008.

589 Yng Nghymru, mae pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu datblygu cysylltiedig wedi'i gyfyngu i waith ar y wyneb, tyllau turio neu bibellau sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n cynnwys cyfleusterau storio nwy dan ddaear. Felly nid oes darpariaeth ar hyn o bryd yn Neddf 2008 i'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu ar gyfer datblygu cysylltiedig mewn perthynas â phrosiect cynhyrchu ynni yng Nghymru.

590 Effaith hyn yn achos prosiect cynhyrchu ynni o fwy na 50 MW yng Nghymru, yw mai dim ond ar gyfer y prosiect seilwaith ei hun y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu.

Rhaid gwneud pob cais am ganiatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig i'r corff caniatáu priodol yng Nghymru (yn achos pob cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu cysylltiedig, yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol fydd hwn fel arfer).

591 Mae cymal 37 yn datganoli'r cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau cynhyrchu ynni sydd â chapasiti hyd at ac yn cynnwys 350 megawat i Gymru. Yn achos y prosiectau hyn, ni fydd newid yn y ffordd o ganiatáu datblygu cysylltiedig.

592 Bydd ceisiadau am brosiectau ynni sydd â chapasiti o fwy na 350 MW yng Nghymru yn parhau i gael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddarpariaethau Deddf 2008. Er mwyn gweithredu'r argymhelliad ar alinio caniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig, mae angen diwygio Deddf 2008 fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig mewn perthynas â'r prosiectau hyn. Cyflawnir hyn drwy ddiwygio adran 115(4) o Ddeddf 2008 (sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i roi caniatâd ar gyfer datblygu cysylltiedig yng Nghymru). Bydd y diwygiad hwn hefyd yn cwmpasu caniatâd am ddatblygu cysylltiedig sydd â chysylltiad â chaniatáu llinellau trydan yng Nghymru i'r graddau y mae'n dod o fewn adran 14(1)(b) ac adran 16 o Ddeddf 2008.

# Pennod 13: Cyfle cyfartal

## Cymal 42: Cyfle cyfartal: dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

593 Mae cymal 42 yn diwygio adran 152(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"). Mae'r rhan berthnasol o'r adran hon yn disgrifio'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth arfer pŵer i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymreig, sydd yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010, sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Ni fydd Gweinidogion Cymru bellach yn gorfod cael cydsyniad gan un o Weinidogion y Goron cyn gwneud gorchymyn yn diwygio'r rhestr, ond yn lle hynny rhaid iddynt hysbysu'r Gweinidog hwnnw ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiad i Atodlen 19.

594 Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 yn gosod dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 19 i roi sylw i dri mater cydraddoldeb penodedig wrth arfer eu swyddogaethau.

## Cymal 43: Dyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol

595 Mae'r cymal hwn yn diwygio'r trefniadau ar gyfer cychwyn Rhan 1 o Ddeddf 2010 yng Nghymru (anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol). Mae hefyd yn diwygio pwerau Gweinidogion Cymru lle maent yn dymuno diwygio adran 1 o Ddeddf 2010. Mae Rhan 1, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau datganoledig neu ddatganoledig yn bennaf, wedi cael ei datganoli eisoes, ond nid oedd mecanwaith ar gael hyd yn hyn i Weinidogion Cymru gychwyn y ddarpariaeth fel y mae'n ymwneud â'r cyrff hynny.

596 Mae is-adran (2) yn diwygio adran 1 o Ddeddf 2010 drwy ddarparu bod awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer dyletswydd mewn perthynas â swyddogaethau a ddatganolwyd i Gymru yn gorfod ystyried canllawiau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu sut i gyflawni'r ddyletswydd honno. Lle mae'r swyddogaeth dan sylw yn un na ddatganolwyd, rhaid i'r awdurdod ddilyn canllawiau a ddyroddwyd gan un o Weinidogion y Goron.

597 Mae is-adran (3) yn diwygio adran 2 o Ddeddf 2010 drwy ddileu'r gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 1 o Ddeddf 2010.

598 Mewn perthynas â chychwyn, mae is-adrannau (4)-(6) yn diwygio adran 216 o Ddeddf 2010 (cychwyn) i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cychwyn Rhan 1, a wneir drwy orchymyn, ar adeg o'u dewis.

599 Mae adran 1 o Ddeddf 2010 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus penodedig, wrth wneud penderfyniadau strategol, yn ystyried sut y byddai eu penderfyniadau'n gallu helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae adran 2 o Ddeddf 2010 yn galluogi Gweinidogion Cymru, yn achos cyrff Cymreig, i wneud rheoliadau sy'n diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y ddyletswydd.

# Pennod 14: Trwyddedu a chadwraeth forol

## Cymal 44: Trwyddedu morol yn rhanbarth môr mawr Cymru

600 Mae'r cymal hwn yn gweithredu'r argymhelliad gan Gomisiwn Silk, a fabwysiadwyd yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi, y dylai'r cyfrifoldebau gweithredol presennol dros drwyddedu morol yn rhanbarth glannau Cymru gael eu hymestyn i ranbarth môr mawr Cymru. Mae'r diwygiadau a wneir gan gymal 4 yn darparu ar gyfer arfer swyddogaethau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â thrwyddedu morol yn rhanbarth môr mawr Cymru. Mae Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009") yn rheoleiddio'r trwyddedu ar weithgareddau penodol sy'n digwydd yn nyfroedd y DU, heblaw rhanbarth glannau'r Alban (sydd wedi'i ddiffinio yn adran 322(1) o Ddeddf 2009). Mae rhanbarth môr mawr Cymru wedi'i ddiffinio yn adran 322(1) i olygu hynny o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfynau'r môr tiriogaethol tua'r môr. Mae ystyr parth Cymru wedi'i ddiffinio yn adran 158(1) a (3) o DLlC.

601 Mae adran 113 o Ddeddf 2009 yn cynnwys y rheolau ar gyfer penderfynu pa gorff yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar gyfer unrhyw ardal. Mae hyn yn amrywio yn ôl yr ardal a natur y gweithgarwch. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 113(4) fel mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar gyfer Cymru, rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru, oni bai fod y gweithgarwch sydd i'w drwyddedu'n dod o fewn adran 113(5) o Ddeddf 2009. Mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny a gedwir yn ôl ("reserved activities"), yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod trwyddedu.

602 Mae is-adran (2)(b) yn diwygio'r rhestr o'r gweithgareddau hynny a gedwir yn ôl yn adran 113(5) er mwyn cadw'n ychwanegol, mewn perthynas â rhanbarth môr mawr Cymru'n unig, unrhyw weithgarwch sy'n dod o fewn pwnc Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 (llygredd etc.). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwyddedu gweithgarwch o'r math hwn mewn perthynas â rhanbarth môr mawr Cymru.

603 Gellir penodi swyddogion gorfodi morol o dan adran 235 o Ddeddf 2009 i gyflawni swyddogaethau gorfodi mewn perthynas â'r system trwyddedu morol. Mae adran 236 o Ddeddf 2009 yn nodi'r ardaloedd a'r cychod a llongau a gweithfeydd y gall swyddog gorfodi morol (SGM) arfer pwerau gorfodi mewn perthynas â nhw. Mae is-adran (3) o gymal 44 yn diwygio adran 236(2) o Ddeddf 2009 er mwyn ymestyn y gweithgareddau na all SGM arfer ei bwerau gorfodi mewn perthynas â nhw i gynnwys: (i) gweithgarwch yn rhanbarth môr mawr Cymru sy'n ymwneud â neu'n codi o chwilio am, neu gynhyrchu, petrolewm; a (ii) unrhyw weithgarwch yn rhanbarth môr mawr Cymru sy'n dod o fewn pwnc Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995.

604 O dan adran 240 o Ddeddf 2009, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu penodi personau i orfodi'r system trwyddedu morol yn Rhan 4 o'r Ddeddf honno, i'r graddau y mae'n ymwneud â thrwyddedu'r gweithgareddau hynny a gedwir. Mae is-adran (4) yn diwygio is-adran 240(1)(b) o Ddeddf 2009 fel bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu penodi personau i ddibenion gorfodi sy'n ymwneud ag unrhyw weithgarwch yng Nghymru, rhanbarth glannau

Cymru neu ranbarth môr mawr Cymru sy’n ymwneud â chwilio am neu gynhyrchu petrolewm.

605 Mae is-adran (5) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 241 o Ddeddf 2009 fel nad oes gan swyddogion gorfodi a benodir dan yr adran honno unrhyw bwerau i orfodi Rhan 4 o Ddeddf 2009 i'r graddau y mae’n ymwneud â: (i) unrhyw weithgarwch yn ymwneud â chwilio am, neu gynhyrchu, petrolewm yng Nghymru, rhanbarth glannau Cymru neu ranbarth môr mawr Cymru; a (ii) unrhyw weithgarwch yn rhanbarth môr mawr Cymru sy’n dod o fewn pwnc Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995.

606 Mae is-adrannau 6 i 9 o’r cymal hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011 "). Mae Gorchymyn 2011 yn pennu gweithgareddau nad oes angen trwydded forol arnynt, neu nad oes angen trwydded forol arnynt os bodlonir yr amodau a bennir yn y Gorchymyn. Yn rhinwedd Erthygl 2 o Orchymyn 2011 ac is-adran (2)(a) o gymal 44, mae Gorchymyn 2011 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgarwch morol trwyddedadwy a gyflawnir yng Nghymru, rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer.

### Cymal 45: Parthau cadwraeth morol

607 Mae’r cymal hwn yn penodi Gweinidogion Cymru yn awdurdod priodol yn rhanbarth môr mawr Cymru gan ganiatáu iddynt ddynodi ardaloedd yn barthau cadwraeth morol yn y rhanbarth hwnnw yn unol â Rhan 5 (Gwarchod Natur) o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009 (Deddf 2009).

608 Mae rhanbarth môr mawr Cymru wedi’i ddiffinio yn adran 322(1) o Ddeddf 2009.

609 Mae is-adran (2)(b) yn datgan nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu dynodi parth cadwraeth morol sy’n cynnwys unrhyw ran o ranbarth môr mawr Cymru heb gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

610 Er bod y ddau gymal hwn yn ymestyn arfer swyddogaeth Gweinidogion Cymru o Gymru (sy’n cynnwys y môr tiriogaethol) i barth môr mawr Cymru, fel eithriad, mae paragraff 2 o Atodlen 3A (fel y mewnosodir gan Atodlen 4 i'r Bil) yn ymestyn y swyddogaeth sydd i'w harfer mewn perthynas â chychod pysgota Cymru y tu hwnt i’r terfyn tua’r môr ym mharth Cymru.

## Pennod 15: Amrywiol

### Cymal 46: Ymyrryd os ceir effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc

611 Nid oedd cymhwysedd deddfwriaethol dros garthffosiaeth wedi’i roi cyn hyn i’r Cynulliad, a bydd yn cael ei ddatganoli’n unol â’r mater a gedwir yn C15 o Atodlen 7A neu a fewnosodir gan Atodlen 1 i’r Bil. Mae’r cymal hwn yn diwygio adran 114 o DLlC drwy ychwanegu pŵer ymyrryd newydd dros gymhwysedd y Cynulliad i basio Deddf Cynulliad yn ymwneud â charthffosiaeth. Mae’r pŵer ymyrryd hwn yn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno Bil ar gyfer Cydsyniad Brenhinol lle mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol sail resymol i gredu y byddai’r Bil, pe bai’n dod yn Ddeddf Cynulliad ar y ffurf honno, yn gallu cael effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth yn Lloegr neu systemau carthffosiaeth yn Lloegr. Mae’r pŵer ymyrryd hwn yn debyg i’r un y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddal eisoes mewn perthynas â datganoli materion yn ymwneud â dŵr.

612 Mae’r cymal hwn yn diwygio adran 152 o DLlC drwy ychwanegu pŵer ymyrryd newydd dros swyddogaethau gweithredol. Mae’r pŵer ymyrryd hwn yn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd ynghylch unrhyw swyddogaeth y gellir ei harfer gan Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu’r Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw swyddogaeth a roddwyd gan Fesur Cynulliad neu Ddeddf Cynulliad, lle mae’n ymddangos i’r Ysgrifennydd Gwladol y byddai arfer swyddogaeth berthnasol (neu fethu ag arfer swyddogaeth berthnasol) yn gallu cael effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth yn Lloegr neu systemau carthffosiaeth yn Lloegr. Mewn achos o’r fath ni fydd y person a oedd â’r pŵer i arfer y swyddogaeth yn gallu arfer y swyddogaeth honno, a gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaeth yn ei le. Mae’r pŵer ymyrryd hwn yn debyg i’r un y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddal eisoes mewn perthynas â datganoli materion yn ymwneud â dŵr.

### Cymal 47: Trosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir

613 Mae rheoleiddio adeiladau a gwaith adeiladu yn fater a gedwir (gweler Adran M4 o Atodlen 7A newydd i DLlC). Er hynny, mae swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladu 1984 i wneud rheoliadau adeiladu a materion cysylltiedig wedi cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wnaed yn 2009 a ddaeth i rym yn 2011. Gwnaed eithriad i’r trosglwyddo mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir (“excepted energy buildings”), sef adeiladau sy’n rhan o’r seilwaith ynni. Mae’r cymal hwn yn dileu’r hepgoriad hwnnw drwy wneud y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o dan Ddeddf Adeiladu 1984 ar gyfer y categori hwnnw o adeiladau.

### Cymal 48: Cynlluniau cymhelliant ynni adnewyddadwy: ymgynghori

614 Mae’r cymal hwn yn creu dyletswydd i’r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn sefydlu neu ddiwygio cynllun cymhelliant ynni adnewyddadwy. Mae cynllun cymhelliant ynni adnewyddadwy wedi’i ddiffinio ac mae’n cynnwys y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Tariff Cyflenwi Trydan a Contracts for Difference. Ni fydd y ddyletswydd i ymgynghori’n gymwys os yw’r diwygiadau a wneir yn fach neu o natur dechnegol. Nid oes dyletswydd ychwaith i ymgynghori mewn perthynas â chreu ardoll i ariannu cynllun cymhelliant.

## Rhan 3: Amrywiol

### Cymal 49: Darparu gwybodaeth i’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

615 Mae’r cymal hwn yn mewnosod adran 66A newydd yn DLlC i alluogi’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i gael hynny o wybodaeth am Gymru y gall ofyn amdani’n rhesymol i gyflawni ei swyddogaeth statudol. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio rhagolygon a dadansoddi’r economi a chyllid cyhoeddus.

616 Mae'r is-adran a fewnosodir yn darparu bod hawl gan y Swyddfa i gael hynny o wybodaeth am Gymru y gall ofyn amdani’n rhesymol er mwyn adrodd ar gynaliadwyedd cyllid cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth y gall ofyn amdani’n rhesymol i lunio rhagolygon cyllidol ac economaidd, ac i asesu a yw’r mandad cyllidol wedi’i gyflawni neu’n debygol o gael ei gyflawni. Gall y Swyddfa arfer yr hawl i weld y wybodaeth hon ar unrhyw adeg resymol. Mae hawl hefyd gan y Swyddfa i gael cymorth ac eglurhad mewn perthynas â’r wybodaeth hon, sydd wedi’i nodi yn is-adran (2).

617 Mae’r is-adran a fewnosodir yn pennu y bydd y Swyddfa yn cael gwybodaeth mewn cydymffurfiaeth ag unrhyw ddarpariaeth statudol (fel Deddf Diogelu Data 1998) neu reolau’r gyfraith gyffredin (fel dyletswyddau cyfrinachedd). Ni fydd y Swyddfa yn cael gweld gwybodaeth gyfrinachol sy’n ymwneud â threthdalwyr a bydd pob gwybodaeth a geir yn

cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data. Nid yw'r Swyddfa wedi gofyn am weld gwybodaeth o'r fath wrth arfer ei swyddogaethau presennol ar gyfer llunio rhagolygon.

## Cymal 50: Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan

618 Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn diwygio adran 37 o DLlC, sy'n rhoi pŵer i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol yn ei drafodion i roi tystiolaeth neu ddangos dogfennau. Mewnosodir is-adran newydd (6A) yn adran 37 i roi pŵer i'r Cynulliad i osod gofynion o'r fath mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan ("yr Awdurdod") mewn perthynas â Chymru.

619 Mae is-adrannau (2) a (3) yn diwygio adrannau 5 a 5XA o Ddeddf Cyfleustodau 2000 ("Deddf 2000").

620 Mae adran 5 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Alban 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod anfon ei adroddiad blynyddol at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod yr adroddiad hwnnw o flaen Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac anfon copi at Weinidogion yr Alban. Mae is-adran (2) yn diwygio'r adran honno i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol anfon yr adroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru (yn ogystal â Gweinidogion yr Alban), ac i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad o flaen y Cynulliad.

621 Mae adran 5XA o Ddeddf 2000, sydd wedi'i mewnosod gan Ddeddf yr Alban 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod anfon copi o'i gyfrifon a'i adroddiad ardystiedig at Weinidogion yr Alban bob blwyddyn. Mae is-adran (3) yn diwygio'r adran honno i'w gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod anfon ei gyfrifon a'i adroddiad ardystiedig at Weinidogion Cymru (yn ogystal â Gweinidogion yr Alban), ac i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copïau o'r dogfennau hynny o flaen y Cynulliad.

## Cymal 51: Trwyddedu gweithrediadau cloddio glo: cymeradwyo gan Weinidogion Cymru

622 Mae'r cymal hwn yn darparu, lle mae gweithredwr glo yn dymuno cloddio yng Nghymru, fod rhaid iddo ofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru fel rhan o'i gais am drwydded i wneud hynny.

## Cymal 52: Y Swyddfa Gyfathrebiadau

623 Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebu annibynnol i'r DU gyfan sy'n goruchwylio gwasanaethau teledu, radio, telathrebu, ffonau symudol a phost a thonnau awyr. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ("Deddf 2002").

624 Mae adran 1 o Ddeddf 2002 yn darparu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi cadeirydd ac aelodau eraill Ofcom. Mae is-adrannau (2) a (3) o'r cymal hwn yn diwygio adran 1 o Ddeddf 2002 i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru benodi un aelod o Ofcom a bod rhaid iddynt ymgynghori, cyn gwneud hynny, â'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae is-adran (4) hefyd yn diwygio adran 1(5) i sicrhau bod yr aelod a benodir gan Weinidogion Cymru yn cymryd rhan yn y broses o benodi unrhyw aelodau gweithredol o Ofcom.

625 Mae'r Atodlen i Ddeddf 2002 yn gwneud darpariaethau pellach am Ofcom gan gynnwys cymhwystra ar gyfer aelodaeth, cyfnodau swyddi, cyfrifon ac archwilio ac adroddiadau blynyddol. Mae is-adran (5) o'r cymal hwn yn diwygio'r ffordd o gymhwyso'r Atodlen mewn perthynas â'r aelod o Ofcom a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â pherson a benodir i Ofcom a'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddiswyddo gan aelod neu ddiswyddo aelod wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru. Gweinidogion Cymru yn unig a all ddiswyddo aelod ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

626 Mae is-adran (7) o'r cymal hwn yn diwygio'r Atodlen i Ddeddf 2002 i'w gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol anfon copi o ddatganiad o gyfrifon Ofcom a'i adroddiad ef at Weinidogion Cymru ac i Weinidogion Cymru osod y dogfennau hynny o flaen y Cynulliad. Yn yr un modd, mae is-adran (8) yn diwygio'r Atodlen i Ddeddf 2002 i'w gwneud yn ofynnol i Ofcom anfon ei adroddiad blynyddol at Weinidogion Cymru ac i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad o flaen y Cynulliad.

# Rhan 4: Cyffredinol

## Cymal 53: Darpariaeth ganlyniadol

627 Mae is-adran (1) yn ymgorffori Atodlen 5, sy'n gwneud diwygiadau bach a chanlyniadol.

628 Mae is-adrannau (2)-(5) yn creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu eu bod yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil.

629 Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau a wneir o dan is-adran (2) yn cael eu gwneud drwy weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, os yw'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

630 Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau a wneir o dan is-adran (2) yn cael eu gwneud drwy weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd, os nad yw'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

631 Mae is-adran (8) yn egluro bod "primary legislation" yn cynnwys, i ddibenion yr adran hon, Fesurau a Deddfau'r Cynulliad, yn ogystal â Deddfau Seneddol.

## Atodlen 5: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

632 Mae'r Atodlen hon yn cynnwys rhagor o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r Bil.

### <u>**Rhan 1: Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**</u>

633 Mae Rhan 1 o Atodlen 5 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i DLlC sy'n ymwneud â Rhan 1 y Bil. Mae'r newidiadau'n ganlyniad yn bennaf i newid y model rhoi pwerau yn fodel cadw pwerau.

634 Mae paragraff 2 yn hepgor adrannau 103-106A a oedd yn delio â chychwyn darpariaethau'r Ddeddf Cynulliad. Gan fod darpariaethau'r Ddeddf Cynulliad wedi'u cychwyn eisoes ar 5 Mai 2011 ac wedi'u disodli bellach hefyd gan y darpariaethau ar gymhwysedd deddfwriaethol yn y Bil hwn, mae'r adrannau hyn yn ddiangen.

635 Mae paragraff 3 yn diweddaru adran 109 o DLlC fel ei bod yn cynnwys y cyfeiriadau cywir at y model cadw pwerau newydd, er enghraifft, Atodlenni 7A a 7B yn lle Atodlen 7.

636 Mae paragraff 3(3) yn hepgor y ddarpariaeth am ofynion yn adran 109(4)(b) sy'n datgan na fydd angen cymeradwyaeth gan y Cynulliad ar gyfer y Gorchymyn Cyfrin Gyngor cyntaf erioed o dan adran 109. Mae'r Gorchymyn adran 109 eisoes wedi cael ei wneud felly mae'r ddarpariaeth hon yn ddiangen bellach.

637 Mae paragraff 3(4) yn disodli adran 109(5) i sicrhau na fydd newidiadau yn Atodlenni 7A neu 7B yn y dyfodol yn effeithio ar ddilysrwydd Deddfau Cynulliad sydd eisoes wedi'u pasio oni bai fod y deddfiad sy'n gwneud y newid yn darparu fel arall.

638 Mae paragraff 4 yn diweddaru adran 114 o DLlC fel ei bod yn cyfeirio at faterion a gedwir o dan Atodlen 7A yn lle materion sydd heb eu rhestru (neu eu heithrio) o dan Atodlen 7.

639 Mae paragraff 5 yn diwygio adran 116 o DLlC sy'n ymwneud â'r Sêl Gymreig a'r Breinlythyrau. Mae'r diwygiadau hyn yn caniatáu i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wneud darpariaeth ynghylch ffurf, cynnwys a chyhoeddi proclamasiynau brenhinol dan adrannau 4(2) a 5(4) o DLlC fel y'u diwygiwyd gan gymal 6.

640 Mae paragraff 6 yn diweddaru adran 116B o DLlC fel ei bod yn cyfeirio at y profion cymhwysedd deddfwriaethol newydd o dan adran 108A(2)(b) a (c) yn lle'r hen brofion o dan adran 108(4) a (5).

641 Mae paragraff 7 yn diwygio adran 157 o DLlC i gynnwys cyfeiriadau at reoliadau yn ogystal â gorchmynion, y gellir eu gwneud gan Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru o dan DLlC.

642 Mae paragraff 8 yn diweddaru adran 159 o DLlC fel ei bod yn cynnwys y diffiniadau sy'n berthnasol i'r model cadw pwerau newydd.

643 Mae paragraff 9 yn hepgor cyfeiriad (sy'n ddiangen bellach) at y darpariaethau ar gyfer y Ddeddf Cynulliad yn adran 161(7) o DLlC. Gweler yr eglurhad uchod mewn perthynas â pharagraff 2 o'r Atodlen hon.

644 Mae paragraff 10 yn hepgor Atodlen 6 i DLlC a oedd yn delio â refferendwm 2011 yng Nghymru gan nad yw'r rhain yn weithredol bellach.

645 Mae paragraff 11 yn hepgor diwygiadau (sy'n ddiangen bellach) i Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 a wnaed yn Atodlen 10 i DLlC.

## <u>Rhan 2: Diwygiadau'n ymwneud â phetrolewm ar y tir</u>

646 Mae Rhan 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol yn ymwneud â thrwyddedu petrolewm ar y tir.

647 Mae paragraff 12 yn diwygio adran 4 (trwyddedau: darpariaethau pellach) o Ddeddf Petrolewm 1998.

648 Mae is-adran (2) yn diwygio is-adrannau (1A), (1B) a (1C) (sydd hefyd wedi'u mewnosod yn Neddf Petrolewm gan Fil yr Alban 2016). Effaith yr is-adrannau hyn yw cadw, i'r Ysgrifennydd Gwladol, bwerau rheoliadol i wneud cymalau enghreifftiol mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy am drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru yn ogystal ag: (a) mesur a hwyluso mesur y petrolewm a geir o'r ardaloedd a drwyddedir a (b) cadw cyfrifon. Felly nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn ymestyn i ddrafftio cymalau enghreifftiol ar y materion uchod neu i addasu neu hepgor cymalau o'r fath.

649 Mae is-baragraff (3) yn mewnosod is-adran (3B) newydd yn adran 4 o Ddeddf Petrolewm 1998 i gadarnhau bod rhaid i unrhyw reoliadau o dan adran 4 a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu gwneud fel offerynnau statudol yn amodol ar y dirymiad yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

650 Mae is-baragraff (4) yn mewnosod is-adran (4B) newydd yn adran 4 o Ddeddf Petrolewm 1998 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiadau o drwyddedau a roddwyd ganddynt ar gyfer ardal tir Cymru mewn modd sy'n briodol yn eu barn nhw.

651 Mae paragraff 13 yn diwygio adran 4A o Ddeddf Petrolewm 1998, i drosglwyddo swyddogaethau oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â chaniatâd ar gyfer hollti hydrolig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â ffynhonnau yn ardal tir Cymru. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys yr amodau sy'n rheoleiddio'r dyroddi ar ganiatâd o'r fath gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.

652 Mae paragraff 14 yn diwygio adran 4B o Ddeddf Petrolewm 1998, sy'n cynnwys darpariaethau

pellach ynghylch dyroddi caniatâd ar gyfer hollti hydrolig. Mae is-baragraff (2) a (3) yn diwygio is-adrannau (4)(a), (4)(b) a (7) o adran 4B i gyfyngu i ardal tir Lloegr (sydd wedi'i diffinio mewn is-adran (7) newydd sydd i'w mewnosod yn adran 8A gan gymal 22(4) i olygu Lloegr yn cynnwys dyfroedd oddi mewn i'r gwaelodlin ("baseline") ar gyfer pennu rhychwant y môr tiriogaethol) bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau drwy offeryn statudol mewn perthynas â disgrifio ardaloedd sy'n "protected groundwater source areas" ac mewn perthynas â'r rheini sy'n "other protected areas". Mae'r is-adrannau, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

653 Mae is-baragraff (4) yn mewnosod is-adrannau (7A), (7B) a (7C) newydd yn adran 4B yn Neddf Petrolewm 1998 i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau drwy offeryn statudol ar y disgrifiadau o ardaloedd sy'n "protected groundwater source areas" ac yn "other protected areas" i'r graddau y mae'r rhain yn gymwys i ardal tir Cymru. Rhaid i unrhyw offeryn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad cyn y gellir gwneud offeryn statudol o'r fath. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

654 Mae is-baragraff (5) yn diwygio is-adran (8) i bennu mai Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol ar gyfer ffynhonnau yn ardal tir Lloegr ac mai Corff Adnoddau Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol ar gyfer ffynhonnau yn ardal tir Cymru. Mae'r is-adran hefyd yn alinio'r diffiniad o ganiatâd ffynnon i adlewyrchu'r datganoli ar ganiatadau o'r fath i'r "appropriate Minister".

655 Mae is-baragraff (6) yn cyfyngu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol yn is-adran (9) o adran 4B i ddiwygio'r diffiniad o "onshore licence for England and Wales" o ganlyniad i reoliadau a wneir o dan adran 4. Felly, os gwneir y diwygiad, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu diwygio'r diffiniad fel y mae'n gymwys yn ardal tir Lloegr yn unig, ac ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol ond yn gallu arfer y pŵer o ganlyniad i arfer y pŵer yn adran 4 o Ddeddf Petrolewm ganddo ef ei hun (ac nid o ganlyniad i arfer yr un pŵer gan Weinidogion Cymru).

656 Mae is-baragraff (7) yn mewnosod is-adran (9A) yn adran 4B i ddarparu pŵer sy'n cyfateb i hwnnw yn is-adran (9) (fel y'i diwygiwyd gan baragraff (e)) i Weinidogion Cymru.

657 Mae is-baragraff (8) yn diwygio is-adran 4B(10) i gyfyngu i ardal tir Lloegr bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud diwygiadau mewn perthynas â'r gofynion sydd i'w cyflawni cyn dyroddi caniatâd hollti hydrolig sydd wedi'u nodi yng Ngholofn 2 o'r tabl yn adran 4A.

658 Mae is-baragraff (9) yn mewnosod is-adran (12) a (13) yn adran 4B. Mae is-adran (12) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio drwy reoliadau y gofynion sydd wedi'u nodi yng Ngholofn 2 o'r tabl yn adran 4A i'r graddau y maent yn ymwneud ag ardal tir Cymru. Rhaid i offeryn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad a chael ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad cyn y gellir gwneud offeryn statudol o'r fath (gweler yr is-adran (13) newydd).

659 Mae paragraff 15 yn diwygio adran 14B(7)(2)(d) o Ddeddf Petrolewm 1998, sy'n pennu effeithiau Deddf Mwyngloddiau (Cyfleusterau Gweithio a Chymorth) 1966 o'i chymhwyso at drwyddedu o dan Ddeddf Petrolewm 1998, drwy bennu, o fewn adran 4 y Ddeddf honno, y bydd "the Minister" yn cyfeirio at Weinidogion Cymru ar gyfer trwyddedau a roddir yn ardal tir Cymru.

660 Mae paragraff 16 yn diwygio adran 12 (dehongli Rhan 1) o Ddeddf Trethu Olew 1975. I roi Gweinidogion Cymru yn yr un sefyllfa â'r Awdurdod Olew a Nwy, gan gynnwys y bydd dirymu trwydded gan Weinidogion Cymru ar y rhestr o ddigwyddiadau peidio y bydd person yn mynd drwyddynt wrth beidio â bod yn drwyddedai mewn perthynas â meysydd olew.

661 Mae paragraff 17 yn diwygio paragraff 1(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Trethi Olew 1975 drwy

fewnosod paragraffau (ac) ac (ad) newydd ar ôl paragraffau (aa) ac (ab) (sydd wedi cael eu mewnosod gan Ddeddf yr Alban 2016). Mae'r paragraffau newydd hyn yn cyfyngu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer pennu meysydd olew i'r ardaloedd hynny sy'n gyfryw ag y byddai rhoi trwydded oddi mewn iddynt, o dan Ran 1 o Ddeddf Petrolewm 1998, yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Lle mae ardaloedd yn gyfryw ag y byddai rhoi trwydded oddi mewn iddynt yn fater i Weinidogion Cymru yn unig, byddant yn awdurdod priodol ar gyfer pennu meysydd olew. Lle mae ardaloedd yn gyfryw ag y byddai rhoi trwyddedau oddi mewn iddynt yn fater yn rhannol i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhannol i Weinidogion Cymru, rhaid i'r rhain weithredu ar y cyd i ddibenion pennu meysydd olew.

662 Mae paragraffau 18 i 20 yn diwygio darpariaethau yn Neddf Trethu Elw Priodol 1992, Deddf Cyllid 1993 a Deddf Lwfansau Cyfalaf 2001 i adlewyrchu mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod trwyddedu ar gyfer Ardal Tir Cymru yn y dyfodol.

663 Mae paragraff 21 yn mewnosod is-adran (13) newydd yn adran 188 o Ddeddf Ynni 2004 i briodoli, i Weinidogion Cymru, bwerau i wneud darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffioedd gael eu talu iddynt mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau ynni perthnasol ganddynt o dan Ran 1 o Ddeddf Petrolewm 1998. Rhaid i'r symiau a geir o dan ffioedd o'r fath gael eu talu gan Weinidogion Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i dalu ffioedd o'r fath i'w nodi drwy offeryn statudol, yn amodol ar ddirymiad yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

664 Mae paragraffau 22 i 24 yn diwygio darpariaethau yn Neddf Treth Gorfforaeth 2010 i adlewyrchu mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod trwyddedu ar gyfer Ardal Tir Cymru yn y dyfodol.

665 Mae paragraffau 25 i 29 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf Seilwaith 2015 i ystyried datganoli pwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â defnyddio tir ar ddyfnder mawr ar gyfer chwilio am betrolewm ac ynni geothermol dwfn.

## Rhan 3: Diwygiadau i Ddeddfau eraill

666 Mae Rhan 3 o Atodlen 5 yn cynnwys mân ddiwygiadau i wahanol Ddeddfau Seneddol (heblaw DLlC) sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil. Fodd bynnag, nid yw'r Rhan 3 hon yn cynnwys diwygiadau o ganlyniad i'r darpariaethau ar gyfer petrolewm ar dir yn y Bil (ar gyfer hynny, gweler Rhan 2 o Atodlen 5).

667 Mae cymal 13 o'r Bil yn diddymu Adran 136 o DLlC, sy'n tynnu'r pŵer oddi ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i archwilio taliadau i mewn ac allan o gronfa gyfunol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru. O'r herwydd, mae paragraffau 30 i 32 yn diwygio Deddf Archwilio Cenedlaethol 1983 i dynnu'r pŵer oddi ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau gwerth am arian ar gyrff cyhoeddus Cymru.

668 Mae paragraffau 33-40 o Atodlen 5 yn diwygio'r darpariaethau canlynol yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984:

669 Mae paragraff 33 yn diwygio adran 17 (rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig), mewn perthynas â ffyrdd arbennig yng Nghymru i ddarparu na ellir arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol heb ymgynghori'n gyntaf â Gweinidogion Cymru; a chyn rheoleiddio, bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer unrhyw Barc Cenedlaethol yr effeithir arno.

670 Mae paragraff 34 yn diwygio adran 65 (Pwerau a dyletswyddau awdurdodau traffig o ran gosod arwyddion traffig), i alluogi'r awdurdod perthnasol i roi cyfarwyddiadau cyffredinol o dan adran 65(1). Mae awdurdod perthnasol wedi'i ddiffinio yn yr un ffordd ag adran 25. Diwygir yr adran hon hefyd i sicrhau bod Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu pŵer i roi

cyfarwyddiadau cyffredinol, yn gwneud hynny drwy offeryn statudol.

671 Mae paragraff 35 yn diwygio adran 72 (pwerau y gellir eu harfer gan gynghorau plwyf a chymuned) i ddarparu nad oes dim yn yr adran hon a ddylai amharu ar arfer y pwerau adran 69 gan yr awdurdod priffyrdd, Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

672 Mae paragraff 36 yn diwygio adran 81 (terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig) er mwyn: galluogi'r awdurdod cenedlaethol i arfer y pŵer drwy orchymyn i godi neu ostwng y terfyn cyflymder ar gyfer cerbydau modur ar ffyrdd cyfyngedig; darparu y bydd unrhyw orchymyn o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a'i gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â'i gilydd cyn gwneud unrhyw orchymyn o'r fath.

673 Mae paragraff 37 yn diwygio adran 83 (darpariaethau o ran cyfarwyddiadau gan awdurdod traffig o dan adran 82(2)), i ddarparu bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddyd y dylai ffordd fod, neu beidio â bod, yn ffordd gyfyngedig, i'w arfer drwy offeryn statudol.

674 Mae paragraff 38 yn diwygio adran 85 (arwyddion traffig i ddangos cyfyngiadau cyflymder), i ddarparu bod pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cyffredinol i'w arfer drwy offeryn statudol; a'i gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â'i gilydd cyn arfer eu pwerau i roi cyfarwyddiadau cyffredinol.

675 Mae paragraff 39 yn diwygio adran 88 (terfynau cyflymder dros dro), i ddarparu na ddylai'r gorchymyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru yn gosod terfyn cyflymder dros dro gael ei wneud nes bydd drafft wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad; a bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn i'w arfer drwy offeryn statudol yn amodol ar ddirymiad yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

676 Mae paragraff 40 yn diwygio adran 134 (rheoliadau), er mwyn:

a. ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 25 neu 64,

b. sicrhau bod unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol,

c. ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â sefydliadau cynrychiadol cyn gwneud rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf (ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 103(1),108 i 110, Atodlen 4, Atodlen 8 ac Atodlen 12),

d. darparu bod offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (ac eithrio mewn perthynas ag adran 86),

e. peri bod rheoliadau Gweinidogion Cymru o dan adran 86 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad,

f. ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud rheoliadau o dan adran 25 neu 64.

677 Mae paragraff 41 yn diwygio adran 134 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (rheoliadau, rheolau a gorchmynion) i bennu'r mathau o ddarpariaethau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud drwy ddefnyddio eu pwerau newydd o dan y Ddeddf honno.

678 Mae paragraff 42 yn diwygio adran 135 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (gweithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau, rheolau a gorchmynion) i ddarparu bod pwerau newydd Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno i'w harfer drwy offeryn statudol, eu bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Cynulliad, a bod rhaid i Weinidogion Cymru

ymgynghori â'r sefydliadau cynrychiadol hynny y maent yn credu sy'n briodol cyn gwneud y rheoliadau.

679 Mae paragraff 43 yn diwygio adran 36 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 (trosedd o fethu â chydymffurfio ag arwydd traffig). Mae'r diwygiad hwn yn amnewid cyfeiriadau at "national authority" yn adran 36(1)(b) a (3)(a) â chyfeiriadau at y diffiniad newydd o "relevant authority". Diwygir adran 36(6) i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 36(5). Yn yr un modd, diwygir adran 36(7) fel bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud rheoliadau o dan yr is-adran honno.

680 Mae paragraff 44 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Trydan 1989 (cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer adeiladu etc. gorsafoedd cynhyrchu) i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r broses sy'n gymwys ar gyfer y ceisiadau hynny am gydsyniad a wneir iddynt dan naill ai adran 36 neu 37 o'r Ddeddf honno.

681 Mae paragraff 45 yn diwygio adran 106 o Ddeddf Trydan 1989 (rheoliadau a gorchmynion) i ddarparu bod pwerau newydd Gweinidogion Cymru o dan adrannau 36 a 36C o, a pharagraff 1(4) o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, i'w harfer drwy offeryn statudol a'u bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Cynulliad.

682 Mae paragraff 46 yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Trydan 1989 (cadw amwynder a physgodfeydd) fel ei fod yn cyfeirio at y diffiniad newydd o "appropriate authority", sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru (gweler cymal 36(11) o'r Bil).

Mae paragraff 47 yn diwygio adran 12 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (caniatadau penodol o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989) fel ei bod yn cyfeirio at ranbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru.

683 Mae paragraff 48 yn diweddaru adran 45A(4) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990 i ddileu cyfeiriadau diangen at Fesurau'r Cynulliad ac at y cyfnod trosiannol rhwng Mesurau'r Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad.

684 Mae paragraff 30 o'r Atodlen hon yn dileu'r pŵer oddi ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i gyflawni astudiaethau gwerth am arian ar gyrff cyhoeddus Cymru. O'r herwydd, mae paragraffau 49 a 50 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i adlewyrchu'r ffaith nad oes gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y pŵer hwn mwyach mewn perthynas â rhai o awdurdodau cyhoeddus Cymru; ac mae paragraff 51 yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 i wneud yr un newid mewn perthynas â Chomisiynydd Plant Cymru.

685 Mae paragraff 52 yn diweddaru adran 7(9) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ddileu cyfeiriad at adran 108 o DLlC gyda chyfeiriad at adran 108A.

686 Mae paragraff 53 yn diweddaru adran 5C(4)(a) a (5) o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 i gyfeirio at y diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, fel y creeir gan adran 157A newydd yn DLlC (a fewnosodir gan gymal 4 o'r Bil).

687 Mae paragraff 54 i 55 yn diwygio Deddf Ynni 2004 i wneud darpariaeth i olygu pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau dan y Ddeddf honno, mae'r Rheoliadau hynny yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol.

688 Mae paragraff 30 o'r Atodlen hon yn dileu'r pŵer oddi ar y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i gyflawni astudiaethau gwerth am arian ar gyrff cyhoeddus Cymru. O'r herwydd, mae para 56 a 57 yn diwygio Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 i adlewyrchu'r ffaith nad oes gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y pŵer hwn mwyach mewn perthynas â'r ombwdsmon a'r

comisiynydd.

689 Mae paragraff 58 a 59 yn diweddaru adrannau 24 a 27 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol i gyfeirio'n gywir at y model newydd o bwerau cadw fel y nodir yn adran 108A o DLlC .

690 Mae paragraff 60 yn diweddaru adran 66(3) o Ddeddf y Gwasanaethau Ystadegau a Chofrestru 2007 i gyfeirio at y diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, fel y creeir gan adran 157A newydd yn DLlC (a fewnosodir gan gymal 4 o'r Bil).

691 Mae paragraff 61 yn diwygio adran 37(5) o Ddeddf Defnyddwyr, Asiantau Tai ac Iawn 2007 i ddileu cyfeiriadau diangen at Fesurau'r Cynulliad ac at y cyfnod trosiannol rhwng Mesurau'r Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad.

692 Mae paragraff 62 yn diweddaru adran 74 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 i ddisodli cyfeiriad at adran 108 o DLlC â chyfeiriad at adran 108A.

693 Mae paragraff 63 yn diweddaru adran 64(6) o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008 i ddileu cyfeiriadau diangen at Fesurau'r Cynulliad ac at y cyfnod pontio rhwng Mesurau'r Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad.

694 Mae paragraff 64 yn diweddaru adran 70(4)(b) a (6)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i gyfeirio'n gwir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

695 Mae paragraffau 65 i 67 yn diwygio Deddf Gynllunio 2008 fel y bod Adran 202 yn cael ei diddymu, yn ogystal â gwneud diwygiad canlyniadol oherwydd y ffaith y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi trwyddedau morol mewn dyfroedd Cymreig y tu hwnt i'r môr tiriogaethol.

696 Mae paragraff 68 yn diwygio adran 12 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (rhai cydsyniadau o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989) (Deddf 2009) i eithrio unrhyw ardal o ranbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru o'r dyfroedd mewn perthynas â'r hyn y mae'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yn arfer y swyddogaethau cydsyniad ar ei gyfer o dan adran 12.

697 Mae paragraff 69 yn diwygio adran 13 o Ddeddf 2009 (parthau diogelwch: swyddogaethau o dan adran 95 o Ddeddf Ynni 2004) i eithrio unrhyw ardal o ranbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru o'r dyfroedd mewn perthynas â'r hyn y mae'r MMO yn arfer y swyddogaethau cydsyniad ar ei gyfer o dan adran 13.

698 Mae paragraff 70 yn diweddaru adran 60(4)(c) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i gyfeirio'n gwir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

699 Mae paragraff 71 yn diwygio adran 78 o Ddeddf 2009. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gweithdrefn arbennig mewn achosion pan fo angen trwydded forol a phan gafodd cais ar gyfer gorchymyn harbwr (er enghraifft mewn perthynas â gwaith penodol mewn harbwr) ei wneud, neu pan fo un yn debygol o gael ei wneud. Mae paragraff [45] yn diwygio adran 78 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau pan fo'r adran hon yn gymwys a phan mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol a'r awdurdod gorchymyn harbwr. Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth o fewn adran 78(7) ar gyfer achosion pan mai hwy yw'r awdurdod trwyddedu morol a'r awdurdod gorchymyn harbwr a phan ydynt wedi penderfynu (yn unol ag adran 78(3) neu (5) y dylid ystyried y ddau gais gyda'i gilydd ac maent wedi hysbysu'r ymgeisydd am y penderfyniad hwnnw.

700 Mae paragraff 72 yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2009. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gweithdrefn arbennig mewn achosion pan fo angen trwydded forol a chydsyniad o dan adran

36 o Ddeddf Trydan 1989. Mae paragraff [45] yn diwygio adran 78 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau pan fo'r adran hon yn gymwys a phan mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu morol a'r awdurdod gorsaf gynhyrchu. Mae paragraff [46] hefyd yn diwygio'r diffiniad o awdurdod gorsaf gynhyrchu i gynnwys Gweinidogion Cymru lle maent yn gyfrifol am benderfynu ynghylch cais am gydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989.

701 Mae paragraff 73 yn diweddaru adran 45A(2) o Ddeddf Diwygio Lles 2009 i ddileu cyfeiriadau diangen at Fesurau'r Cynulliad ac at y cyfnod trosiannol rhwng Mesurau'r Cynulliad a Deddfau'r Cynulliad.

702 Mae paragraffau 74 a 75 yn diweddaru adrannau 2 a 157 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud defnydd o'r diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus Cymru, fel y creeir gan adran 157A newydd o DLlC (mewnosodir gan gymal 4 o'r Bil) ac i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greeir gan y Bil.

703 Mae paragraff 76 yn diweddaru adran 28(3)(a) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

704 Mae paragraff 77 a 78 yn diweddaru Atodlen 5 a 6 i Ddeddf Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Archwilio Cenedlaethol 2011 i ddileu cyfeiriadau diangen at ddiwygiadau canlyniadol a wnaed eisoes.

705 Mae paragraff 79 yn diweddaru Atodlen 16 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i ddileu cyfeiriad diangen at ddiwygiad canlyniadol a wnaed eisoes.

706 Mae paragraffau 80 ac 81 yn diweddaru adrannau 51 a 52 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i ddileu cyfeiriad at adran 108 o DLlC gyda chyfeiriad at adran 108A.

707 Mae paragraff 82 yn diweddaru Atodlen 13 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 i ddisodli cyfeiriad diangen at ddiwygiad canlyniadol a wnaed eisoes.

708 Mae paragraff 83 yn diweddaru Atodlen 3 i Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

709 Mae paragraff 84 yn diweddaru Atodlen 12 i Ddeddf Ynni 2013 i ddileu cyfeiriad diangen at ddiwygiad canlyniadol a wnaed eisoes.

710 Mae paragraff 85 yn diweddaru Atodlen 4 i Ddeddf Archwilio (Cymru) 2013 i ddileu cyfeiriad diangen at ddiwygiad canlyniadol a wnaed eisoes.

711 Mae paragraff 86 yn diweddaru Atodlen 11 i Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i ddileu cyfeiriad diangen at ddiwygiad canlyniadol a wnaed eisoes.

712 Mae paragraff 87 yn hepgor paragraff 135 o Atodlen 7 i Ddeddf Dŵr 2014 oherwydd mae'n gwneud diwygiad canlyniadol i Atodlen 7 i DLlC. Nid yw diwygio paragraff 153 wedi cychwyn eto, a chan fod Atodlen 7 i DLlC yn cael ei disodli gan Atodlen 7A newydd, bydd paragraff 135 yn dod yn ddiangen yn dilyn y prif ddydd penodedig a chychwyn y model cadw pwerau.

713 Mae paragraffau 88, 89 a 90 yn diweddaru Deddf Cymru 2014 i ddileu cyfeiriadau diangen at ddiwygiadau canlyniadol a wnaed eisoes.

714 Mae paragraffau 91, 92 a 93 yn diweddaru adrannau 29. 30 a 35 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i gyfeirio at y diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus Cymru, fel y creeir gan adran 157A newydd o DLlC (a fewnosodir gan gymal 4 o'r Bil) ac i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greeir gan y Bil.

715 Mae paragraff 94 yn diweddaru adran 109 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 i gyfeirio'n gwir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

716 Mae paragraffau 95-99 yn diweddaru darpariaethau amrywiol yn y Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Diwygio Rheoleiddio 2015 i gyfeirio at y diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus Cymru, fel y creeir gan adran 157A newydd o DLlC (a fewnosodir gan gymal 4 o'r Bil) i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greeir gan y Bil, ac i gyfeirio at adran 108A o DLlC yn hytrach nag adran 108.

717 Mae paragraff 100 a 101 yn diweddaru adrannau 207 a 208 o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 i gyfeirio at y diffiniad newydd o awdurdod cyhoeddus Cymru, fel y creeir gan adran 157A newydd o DLlC (a fewnosodir gan gymal 4 o'r Bil).

718 Mae paragraff 102 yn diweddaru adran 78 o Ddeddf Mewnfudo 2016 i gyfeirio'n gywir at y model newydd o ddatganoli a greir gan y Bil.

## Cymal 54: Darpariaethau trosiannol ac arbed

719 Mae is-adran (1) yn ymgorffori Atodlen 6, sy'n gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed sy'n ofynnol mewn perthynas â darpariaethau'r Bil.

720 Mae is-adran (2) yn creu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed pellach sy'n ymddangos yn briodol mewn perthynas â'r Bil.

721 Mae is-adran (3) yn egluro bod y pŵer yn is-adran (2) yn cynnwys y gallu i wneud arbedion o ganlyniad i unrhyw ddiwygiad, diddymiad neu ddirymiad a wneir gan y Bil.

722 Mae is-isadran (4) yn darparu nad yw Atodlen 5 yn cyfyngu ar bŵer is-adran (2) ac, n wir, bod modd addasu'r Atodlen ei hun gan bŵer is-adran (2).

723 Mae is-adran (5) yn darparu nad yw Atodlen 6 yn cyfyngu'r pŵer yn is-adran (2) ac, yn wir, y gellir addasu'r Atodlen ei hun drwy'r pŵer yn is-adran (2). Mae hyn yn angenrheidiol, yn benodol, i sicrhau bod adran 17(2)(a) o Ddeddf 1978 yn gymwys. Mae'r adran honno'n darparu, lle mae Deddf yn diddymu ac yn ailddeddfu deddfiad blaenorol (oni bai fod bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos) fod unrhyw gyfeiriad at y deddfiad a ddiddymwyd mewn lle arall ar y llyfr statud i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio at y ddarpariaeth a ailddeddfwyd. Yn yr un modd, mae is-ddeddfwriaeth a phethau eraill a wneir o dan y deddfiad a ddiddymwyd, i'w darllen fel pe baent wedi'u gwneud o dan y ddarpariaeth a ailddeddfwyd.

724 Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau a wneir o dan is-adran (2) yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol.

725 Mae is-adran (7) yn darparu y bydd rheoliadau o dan is-adran (2) yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd.

726 Mae is-adran (8) yn darparu y bydd rheoliadau a wnaed o dan y pŵer yn is-adran (2) yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd.

## Atodlen 6: Darpariaethau trosiannol

727 Mae'r Atodlen hon yn cynnwys darpariaethau trosiannol. Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn cynnwys y darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â thrwyddedu morol ym mharth Cymru.

728 Mae paragraff 1 yn sicrhau na fydd yr un o ddarpariaethau'r Bil yn gwneud dim i effeithio ar ddilysrwydd (a gweithrediad ac effaith barhaus) unrhyw Ddeddf neu Fesur Cynulliad sydd wedi'i basio cyn i'r diwygiadau yn y Bil ddod i rym.

729 Mae paragraff 2 yn darparu y bydd y profion cymhwysedd deddfwriaethol newydd (sydd wedi'u mewnosod gan gymal 3 ac Atodlenni 1 a 2) yn gymwys dim ond i Ddeddf Cynulliad os yw'r Bil perthnasol wedi pasio Cam 1 ar neu ar ôl y prif ddydd penodedig. Ystyr pasio Cam 1 yw bod y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil Cynulliad. Mae'r prif ddydd penodedig i'w nodi mewn reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 49(3).

730 O ganlyniad i baragraff 3, yn y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad sy'n ddau fis ar ôl rhoi Cydsyniad Brenhinol ac yn gorffen ar ddyddiad y prif ddydd penodedig, bydd cymhwysedd deddfwriaethol gan y Cynulliad i ddiwygio'r adrannau o DLlC sy'n darparu ar gyfer enw'r Cynulliad, enw Comisiwn y Cynulliad a beth fydd Deddfau'r Cynulliad yn cael eu galw. Pwrpas hyn yw caniatáu i'r Cynulliad newid enw cyn y prif ddydd penodedig os yw'n dymuno gwneud hynny.

731 Mae paragraff 4 yn darparu na fydd diddymu adran 105 o DLlC gan y Bil yn effeithio ar weithrediad parhaus diwygiad i ddeddfiad a wnaed drwy orchymyn o dan adran 105(2). Fodd bynnag, mae hynny'n amodol ar ddiwygio neu ddiddymu deddfiad o'r fath a wneir gan y Bil hwn.

732 Mae paragraff 5 yn egluro na fydd diddymu adran 106(2) o DLlC gan y Bil yn effeithio ar weithrediad parhaus yr arbediad y mae adran 106(2) yn ei wneud mewn perthynas ag effaith barhaus Mesurau Cynulliad.

733 Mae paragraff 6 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n gymwys yn gyffredinol lle mae swyddogaethau wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru gan ddarpariaethau eraill yn y Bil. Cedwir dilysrwydd camau cyn cychwyn a gall Gweinidogion Cymru barhau ag unrhyw beth sydd ar y gweill wrth gychwyn. Nid yw'r paragraff yn gymwys lle gwneir darpariaeth drosiannol arall ar wyneb y Bil mewn cysylltiad â datganoli swyddogaethau i Weinidogion Cymru. Gellir gwneud darpariaethau trosiannol hefyd mewn rheoliadau o dan y pwerau a roddwyd gan gymal 51(2).

734 Mae paragraff 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol ynghylch cyflenwyr dŵr trwyddedig a thrwyddedeion cyflenwad dŵr (fel y diffinnir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991). Hyd oni fydd yr holl ddiwygiadau perthnasol a wnaed gan Ddeddf Dŵr 2014 wedi dod i rym ac felly wedi disodli cyflenwyr dŵr trwyddedig gyda thrwyddedeion cyflenwad dŵr, bydd y mater a gedwir yn y Bil ar gyfer dŵr a charthffosiaeth (Adran C15 o Atodlen 7A newydd) yn parhau i gyfeirio at y ddau fath o gyflenwr dŵr.

735 Mae paragraff 8 yn gwneud darpariaeth drosiannol yn ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan gymalau 36 a 38. Bydd ceisiadau a dderbynir gan yr awdurdod cydsynio cyn i'r model cadw pwerau ddod i rym yn parhau i gael eu penderfynu gan yr awdurdod hwnnw y gwnaed y cais iddo dan y Ddeddf Gynllunio neu'r Ddeddf Trydan.

736 Mae paragraff 9 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel y bydd:

(a) trwyddedau morol a ddyroddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Sefydliad Rheoli Morol mewn perthynas â rhanbarth glannau Cymru cyn y dyddiad cychwyn yn parhau'n ddilys (is-baragraff (1)). Mae is-baragraff (5) yn cymhwyso'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan adran 72 o Ddeddf 2009 (amrywio, atal, dirymu, trosglwyddo) at drwyddedau o'r fath.

(b) unrhyw gais am drwydded forol o dan Ran 4 o Ddeddf 2009 a wneir cyn y dyddiad cychwyn yn parhau i gael ei benderfynu gan yr awdurdod trwyddedu priodol a oedd yn gyfrifol am y cais ar ddyddiad ei wneud (is-baragraff (2)). Er enghraifft, bydd cais a wnaed cyn y dyddiad cychwyn y mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn gyfrifol amdano (o dan bwerau a

ddirprwywyd gan Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) 2011 fel y'i diwygiwyd) yn mynd ymlaen i gael ei benderfynu gan y Sefydliad Rheoli Morol; a

(c) unrhyw apêl yn erbyn:

(i) penderfyniad ar drwydded forol o dan adran 71 o Ddeddf 2009; neu

(ii) dyroddi unrhyw hysbysiad gorfodi, hysbysiad atal a hysbysiad diogelwch brys a ddyroddwyd o dan adrannau 72, 90, 91, 102, neu 104, yn y drefn honno, o'r Ddeddf honno,

a wneir cyn y dyddiad cychwyn yn parhau i gael ei rheoli gan y system apelau a oedd yn gymwys ar adeg gwneud yr apêl (is-baragraff (4)).

737 Mae'r dyddiad cychwyn wedi'i ddiffinio yn is-baragraff (6) i olygu'r dyddiad y mae adran 42 yn dod i rym.

## Cymal 55: Cychwyn

738 Mae cymal 55 yn nodi'r trefniadau cychwyn ar gyfer y Bil.

739 Mae is-adran (1) yn darparu y bydd y darpariaethau canlyniadol yng nghymal 51(2)-(8), y darpariaethau trosiannol yng nghymal 52 ac Atodlen 6, y darpariaethau cychwyn yng nghymal 53 a'r ddarpariaeth enw byr yng nghymal 54 i gyd yn cychwyn wrth gael Cydsyniad Brenhinol.

740 Mae is-adran (2) yn darparu y bydd cymalau 1, 2 a 13, 14, 15 ac 16 i gyd yn cychwyn ddau fis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Gwneir yr un ddarpariaeth ar gyfer cymalau 8 a 9, ond dim ond i'r graddau y maent yn ymwneud â darpariaeth mewn Deddf Cynulliad a fyddai'n newid enw'r Cynulliad (neu'n rhoi pŵer i wneud hynny). Mewn geiriau eraill, nid yw'r darpariaethau uwchfwyafrif yng nghymalau 8 a 9 ond yn cychwyn ddau fis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r graddau y mae angen hynny ar gyfer cychwyn cymal 15 ar y dyddiad hwnnw.

741 Mae is-adran (3) yn datgan y bydd cymal 3, Atodlen 1 ac Atodlen 2 (sy'n ychwanegu adran 108A, Atodlen 7A ac Atodlen 7B yn eu trefn i DLlC) yn cychwyn ar y prif ddydd penodedig ("principal appointed day") sydd i'w nodi mewn rheoliadau a wneir o dan yr is-adran hon. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Llywydd y Cynulliad cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

742 Mae is-adran (4) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gychwyn gweddill darpariaethau'r Bil drwy reoliadau, un ai ar y prif ddydd penodedig neu ar ddyddiad arall. Nid yw'r gofyniad am ymgynghori yn is-adran (3) yn gymwys wrth gychwyn gweddill darpariaethau'r Bil.

743 Mae is-adran (5) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn i'w arfer drwy offeryn statudol.

744 Mae is-adran (6) yn mynnu cyfnod o bedwar mis rhwng gosod y rheoliadau o dan is-adrannau (3) neu (4), a'r prif ddydd penodedig ("principal appointed day") o dan is-adran (3) neu ddydd cychwyn arall o dan is-adran (4).

745 Mae is-adran (7) yn caniatáu i reoliadau o dan y cymal hwn bennu dyddiau gwahanol at wahanol ddibenion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gymwys i gychwyn y model cadw pwerau (cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2).

## Cymal 56: Enw byr

746 Mae cymal 56 yn datgan y gellir cyfeirio at y Ddeddf fel Deddf Cymru 2016.

# Cychwyn

747 Mae cychwyn darpariaethau'r Bil wedi'i bennu yng nghymal 56.

# Goblygiadau ariannol y Bil

748 Mae Bil Cymru yn ddeddfwriaeth alluogi gyfansoddiadol nad yw'n creu goblygiadau ariannol yn syth ar ei ben ei hun. Mater i'r Cynulliad fydd penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r pwerau datganoledig, ac asesu effaith ariannol ei ddewisiadau polisi.

# Cysondeb â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

749 Mae Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru wedi gwneud datganiad o dan adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fod darpariaethau Bil Cymru, yn ei farn ef, yn gyson â hawliau'r Confensiwn, wrth gyflwyno'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi.

750 Ni fydd darpariaethau Bil Cymru yn ymwneud ag unrhyw hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er bod y Bil yn newid y sail i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ni fydd yn newid y cyfyngiad sy'n gymwys ar hyn o bryd at wneud deddfwriaeth gan y Cynulliad sy'n anghyson â hawliau'r Confensiwn. Mae'r cyfyngiad sydd yn adran 108(6)(c) o DLlC yn cael ei ail-ddeddfu mewn adran 108A(2)(e) newydd o'r Ddeddf honno.

751 Bydd y Bil yn trosglwyddo pwerau penodol i Weinidogion Cymru i wneud deddfwriaeth ddirprwyedig. Fodd bynnag, ni chynigir unrhyw addasiad i adran 81 o DLlC sy'n darparu nad oes pŵer gan Weinidogion Cymru i wneud unrhyw is-ddeddfwriaeth neu gyflawni unrhyw weithred arall i'r graddau y mae'r ddeddfwriaeth neu weithred yn anghyson ag unrhyw hawliau yn y Confensiwn.

# Dogfennau cysylltiedig:

752 Mae'r dogfennau canlynol yn berthnasol i'r Bil a gellir eu darllen yn y mannau a nodwyd:

- Pwerau at Bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru 2015: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408589/47683_CM9020_WELSH.pdf
- Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru 2014: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/310592/Grymuso-a-Chyfrifoldeb-Pwerau-Deddfwriaethol-i-Gryfhau-Cymru.pdf
- Deddf Cymru 2014: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29
- Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru 2012: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075122/http:/commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2012/11/Welsh-WEB-main-report.pdf

# Atodiad A – Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso

753 Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar adeg cyflwyno'r Bil ac mae'n agored i'w newid.[1]

754 Mae'r holl gymalau yn y Bil yn ymestyn i'r DU gyfan. Mae'r Bil yn ailosod y terfyn datganoli yng Nghymru, a hefyd yn datganoli pwerau ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru. Oherwydd hynny, mae arwyddocâd cyfansoddiadol i'r Bil yn y DU gyfan.

755 Ym marn llywodraeth y DU, oherwydd pwysigrwydd y Bil i gyfansoddiad y DU, mae mwyafrif y cymalau'n cael mwy na mân effaith neu effaith ganlyniadol ar yr Alban a Gogledd Iwerddon; maent yn mynd at wraidd y mater o ble mae'r pŵer i ddeddfu yn y DU.

756 Credir bod cymalau 1-8, 17-45 a 47-56 i gyd yn yr un categori o fod ag arwyddocâd digonol i gyfansoddiad y DU i fod yn gymwys i'r DU gyfan.

757 Mae cymalau 9-16 yn gymwys i Gymru'n unig gan eu bod yn ymwneud â gweithdrefnau a threfniadau mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly nid ydynt yn cael mwy na mân effaith neu effaith ganlyniadol ar Loegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.

758 Mae cymal 46 yn anomaledd. Mae'n creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd lle mae effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth yn Lloegr, a achoswyd gan ddeddfwriaeth Cynulliad neu gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig, ond ni fyddai pŵer ymyrryd cyfatebol gan Ysgrifennydd Gwladol o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon.

| **Darpariaeth** | **Yn ymestyn i C a Ll ac yn gymwys i Loegr?** | **Yn ymestyn i C a Ll ac yn gymwys i Gymru?** | **Yn ymestyn ac yn gymwys i'r Alban?** | **Yn ymestyn ac yn gymwys i Ogledd Iwerddon?** | **A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru?** | **A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban?** | **A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Cynulliad Gogledd Iwerddon?** | **A oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol?** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Trefniadau cyfansoddiadol<br><br>Cymalau 1-8 | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |
| 1 Trefniadau cyfansoddiadol<br><br>Cymalau 9-16 | Nage | Ie | Nage | Nage | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |
| 1 Trefniadau cyfansoddiadol<br><br>Cymalau 17- | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |


1 Mae cyfeiriadau yn yr Atodiad hwn at ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban, y Cynulliad neu Gynulliad Gogledd Iwerddon yn rhai at ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y ddeddfwrfa ddatganoledig berthnasol i ddibenion Rheol Sefydlog Rhif 83J o Reolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin sy'n ymwneud â Busnes Cyhoeddus.


| Darpariaeth | Yn ymestyn i C a Ll ac yn gymwys i Loegr? | Yn ymestyn i C a Ll ac yn gymwys i Gymru? | Yn ymestyn ac yn gymwys i'r Alban? | Yn ymestyn ac yn gymwys i Ogledd Iwerddon? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban? | A fyddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd Cynulliad Gogledd Iwerddon? | A oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | | | | | | | | |
| 2 Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaeth bellach<br><br>Cymalau 23-45 | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |
| 2 Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaeth bellach<br><br>Cymal 46 | Ie | Ie | Nage | Nage | Amherthnasol | Na fyddai | Na fyddai | Nac oes |
| 2 Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol: darpariaeth bellach<br><br>Cymalau 47-48 | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |
| 3 Amrywiol<br><br>Cymalau 49-52 | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |
| 4 Cyffredinol<br><br>Cymalau 53-56 | Ie | Ie | Ie | Ie | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Oes (C) |

## Mân effeithiau neu effeithiau canlyniadol


Ym marn llywodraeth y DU, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil sy'n gymwys i Loegr yn unig a dim ond mân effeithiau neu effeithiau canlyniadol a geir y tu hwnt i Loegr.

# Atodiad B – Y profion cymhwysedd deddfwriaethol






Law on reserved matters
The legislative competence tests:
Flowchart 2 - the Schedule 7B restrictions
Does the provision modify the law on reserved matters? Paragraph 1(1)
No
Restriction not engaged
Yes
Is the modification ancillary to a provision that does not relate to reserved matters ? Paragraph 2(1)(a)
No
Yes
Does the modification have a greater effect on reserved matters than is necessary to give effect to the provision ? Paragraph 2(1)(b)
Yes
Provision is outside competence
No
Restriction not engaged
Modification of private law
Does the provision modify the private law ? Paragraph 3(1)
No
Restriction not engaged
Yes
Is the modification for a purpose (other than modifying the private law itself) that does not relate to a reserved matter? Paragraph 3(4)
No
Provision is outside competence
Yes
Restriction not engaged

## Modification of criminal law



Protected enactments





Reserved authorities/ Ministerial consent
Does the provision ; (a) confer a function on a reserved authority, (b) modify the constitution of a reserved authority, or (c)confer functions exercisable in relation to a reserved authority, noting the exceptions in paragraph 9? Paragraph 8
No
Yes
Has the appropriate Minister consented to the provision?
No
Yes
Does the provision remove or modify the functions of a public authority other than : (a) a Welsh Public Authority, or (b) the bodies and functions listed in paragraph 10(2)-(4)? Paragraph 10
No
Yes
Has the appropriate Minister consented to the provision
No
Yes
Does the provision remove or modify a Minister of the Crown function? Paragraph 11
No
Yes
Has the appropriate Minister consented/ consulted as appropriate
No
Yes
Provision is outside competence
Restriction not engaged

__**Termau sydd wedi'u diffinio yn Siartiau Llif 1 a 2**__

**Mae "ancillary"** (ategol) wedi'i ddiffinio yn a108A(7). Mae darpariaeth yn ategol i un arall os: *"(a) provides for the enforcement of the other provision or is otherwise appropriate for making that provision effective, or (b) is otherwise incidental to, or consequential on, that provision"*,

mae "**appropriate Minister**" (Gweinidog priodol) **wedi'i ddiffinio ym mharagraff 8(5) o Atodlen 7B i olygu'r Ysgrifennydd Gwladol neu, yn achos Cyllid a Thollau EM, y Trysorlys.**

mae "**confer**" (rhoi) yn cynnwys *"impose"*, *"modify"* a *"remove"*,

ystyr "**GoWA**" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006,

ystyr "**listed category**" yw'r categorïau hynny o droseddau sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 4(2) o Atodlen 7B,

mae "**modify**" (addasu) yn cynnwys rhoi pŵer i addasu. Mae *"modifications"* wedi'i ddiffinio yn a.158 o DLlC i gynnwys *"amendments, repeals and revocations"*,

mae "**private law**" (cyfraith breifat) wedi'i ddiffinio ym mharagraff 3(2) o Atodlen 7B i olygu *"the law of contract, agency, bailment, tort, unjust enrichment and restitution, property, trusts and succession"*,

mae "**protected enactments**" (deddfiadau gwarchodedig) wedi'u rhestru ym mharagraff 5(1) o Atodlen 7B a'r rhain yw Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, adrannau penodol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac adrannau penodol o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013,

mae "**public authority**" (awdurdod cyhoeddus) wedi'i ddiffinio ym mharagraff 8(4) o Atodlen 7B,

mae "**reserved authority**" (awdurdod a gedwir) wedi'i ddiffinio ym mharagraff 8(3) o Atodlen 7B i olygu un o Weinidogion y Goron, un o adrannau Llywodraeth y DU, ac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall nad yw'n awdurdod cyhoeddus Cymreig,

mae "**reserved matters**" (materion a gedwir) wedi'u rhestru yn Atodlen 7A,

mae "**the law on reserved matters**" wedi'i ddiffinio ym mharagraff 1(2) o Atodlen 7B i olygu deddfwriaeth a'r gyfraith gyffredin, y mae ei phwnc yn fater a gedwir, ac

mae "**Wales public authority**" (awdurdod cyhoeddus yng Nghymru) wedi'i ddiffinio yn yr adran 157A newydd yn DLlC, sydd wedi'i mewnosod gan gymal 4 o'r Bil.

# BIL CYMRU

# NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Cymru a ddaeth o Dŷ'r Arglwyddi ar 13 Medi 2016.

---

Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin, 13 Medi 2016

---

© Hawlfraint y Senedd 2016

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Senedd Agored sydd wedi'i chyhoeddi yn www.parliament.uk/site-information/copyright

CYHOEDDWYD DRWY AWDURDOD TŶ'R CYFFREDIN

LLUNDAIN - THE STATIONERY OFFICE CYFYNGEDIG

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Cyfyngedig

£ FOR TSO USE